Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 45/2018

Dyddiad cyhoeddi: 18/07/2018

# Cynllun Peilot Astudio Dramor: Adroddiad Pennu Cwmpas

## Yr Adroddiad Terfynol

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78937-683-8

Cynllun Peilot Astudio Dramor: Adroddiad Pennu Cwmpas

Awdur: Heledd Bebb, Ymchwil OB3
gyda chyfraniadau gan Einir Burrowes, Dateb a Sally Power, WISERD, Prifysgol Caerdydd

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Heledd Jenkins
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff

E-bost: Heledd.Jenkins2@llyw.cymru

**Cynnwys**

Rhestr tablau ........ 2

Rhestr Ffigurau ........ 2

Geirfa ........ 3

1. Cyflwyniad ........ 5

2. Methodoleg yr astudiaeth ac ystyriaethau ........ 8

3. Y Cefndir a'r Cyd-destun Polisi ........ 11

4. Data Cyhoeddedig ar Symudedd tramor Myfyrwyr sy'n Hanu o Gymru ........ 16

5. Hyfywedd clustnodi'r galw o du myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio gradd gyfan dramor ........ 22

6. Y cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar hyn o bryd ........ 26

7. Adolygiad o gynlluniau symudedd tramor rhyngwladol ........ 34

8. Nodweddion myfyrwyr sy'n astudio dramor ........ 43

9. Manteision a rhwystrau canfyddedig i astudio dramor ........ 49

10. Safbwyntiau myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar astudio dramor ........ 55

11. Yr opsiynau ar gyfer Cynllun Peilot Astudio Dramor ........ 64

12. Casgliadau ac Argymhellion ........ 80

## Rhestr tablau

Tabl 4.1: Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni gwaith ymchwil dramor fesul rhyw, oedran a blwyddyn

Tabl 4.2: Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n gweithio dramor fesul pwnc astudio

Tabl 4.3: Cyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n gweithio dramor fesul hyd eu cyfnod dramor

Tabl 4.4: Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni gwaith ymchwil dramor fesul cyfandir a blwyddyn

Tabl 6.1: Y graddau sydd ar gael trwy gyfrwng y Saesneg a ffioedd dangosol ar gyfer astudio dramor i fyfyrwyr o'r DU

Tabl 7.1: Trefniadau ffioedd dysgu Prifysgolion Cynllun Peilot Cludadwyedd yr UE yn yr Alban

## Rhestr o ffigurau

11.1: Continwwm o opsiynau ar gyfer y cynllun peilot astudio dramor

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| BIS | Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU |
| BRIC | Brasil, Rwsia, India a Tsieina |
| DAAD | Deutscher Akademischer Austauschdienst – Gwasanaeth Cyfnewid Academaidd yr Almaen |
| DHLE | Cyrchfannau Ymadawyr ar sail yr Arolwg AU |
| ECTS | Y System Casglu a Throsglwyddo Credydau Ewropeaidd |
| EHEA | Ardal Addysg Uwch Ewrop |
| ERASMUS | Cynllun Gweithredu Cymuned Ewrop er Symudedd Myfyrwyr Prifysgol |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| AB | Addysg Bellach |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| SAU | Sefydliadau Addysg Uwch |
| HESA | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| HEURO | Cymdeithas Swyddogion Ewropeaidd Addysg Uwch y DU |
| IIE | Y Sefydliad Addysg Ryngwladol |
| GI | Gogledd Iwerddon |
| NUFFIC | Sefydliad Iseldiraidd annibynnol, dielw dros ryngwladoli addysg yw NUFFIC |
| OECD | Y Sefydliad er Cydweithredu a Datblygu Economaidd |
| PhD | Doethuriaeth |
| QAA | Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch |
| SAAS | Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yr Alban |
| SAT | Prawf Gallu Addysgol |
| STEM | Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg |
| Y DU | Y Deyrnas Unedig |
| UKCISA | Cyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y DU |
| UDA | Unol Daleithiau America |

| | |
|---|---|
| USP | Pwynt Gwerthu Unigryw |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| WISERD | Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru |
| YYGS | Rhaglen Ysgolheigion Byd-eang Ifanc Yale |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Yn Ionawr 2018, penododd Llywodraeth Cymru gwmni Ymchwil OB3, ar y cyd â Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd, i gyflawni astudiaeth pennu cwmpas ar gyfer cynllun peilot astudio dramor.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal cynllun peilot i archwilio pa mor ymarferol yw ymestyn y pecyn newydd o gymorth i fyfyrwyr sy'n cael ei gyflwyno yn 2018/19 i fyfyrwyr sydd am astudio y tu hwnt i'r DU a'r UE, yn unol ag argymhellon Adolygiad Diamond. Rhagwelir y caiff y prosiect ei lansio ym mlwyddyn academaidd 2018/19 gyda'r gweithgareddau'n canolbwyntio ar hysbysebu'r cynllun peilot a'r broses ymgeisio, gyda'r ymgeiswyr yn gwneud cais i astudio o ddechrau blwyddyn academaidd 2019/20 ymlaen. Amserlennwyd y cynllun peilot i redeg am dair blynedd gan gychwyn yn 2019/20. Byddai'r cynllun peilot yn cynnig cyfle i brofi'r materion ymarferol, y problemau posibl a'r risgiau sydd ynghlwm wrth gynnig cyllid cludadwy i astudio dramor.

1.3 Nod yr astudiaeth pennu cwmpas yw darparu tystiolaeth i ategu datblygiad cynllun peilot ar astudio dramor. Defnyddir yr astudiaeth pennu cwmpas hefyd i gynorthwyo datblygiad gwerthusiad o'r cynllun peilot ei hun.

1.4 Amcanion cyffredinol yr astudiaeth pennu cwmpas yw:

- adolygu niferoedd cyfredol y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio dramor, ar sail eu nodweddion, eu ffynonellau cyllid a'u lefelau
- cyflawni adolygiad o lenyddiaeth ar arferion byd-eang mewn cynlluniau ariannu symudedd tramor
- ymchwilio i hyfywedd clustnodi'r gwir alw a'r galw cudd gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio eu gradd gyfan dramor
- archwilio nodweddion myfyrwyr sy'n astudio dramor a'r rhai sy'n dyheu am wneud hynny
- archwilio'r rhwystrau a'r manteision sydd ynghlwm wrth astudio dramor; a chlustnodi unrhyw faterion a allai effeithio ar y defnydd posibl o gyllid
- adolygu'r darpariaethau ariannu cyfredol yng Nghymru a dramor, unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ariannu neu unrhyw feysydd o ddyblygu posibl

- datblygu a phwyso a mesur opsiynau, a chyflwyno argymhellion i fwrw ymlaen â'r cynllun peilot yn nhermau targedu cymorth, lefelau ariannu a lleoliadau astudio, y meini prawf ar gyfer cynnwys sefydliadau a gweinyddiaeth y cynllun.

1.5 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn cynnwys gwaith ymchwil desg, gan gynnwys adolygiad o lenyddiaeth am symudedd rhyngwladol myfyrwyr, ynghyd ag adolygiad o’r ddarpariaeth cyllid cyfredol yng Nghymru a dramor. Roedd hi'n cynnwys cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr sefydliadau tramor sy’n rhanddeiliaid yn hyn o beth hefyd, gan gynnwys Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), pecyn o waith maes gyda myfyrwyr dramor blaenorol a chyfredol, a grwpiau ffocws gydag unigolion â diddordeb mewn astudio dramor.

1.6 Rhennir yr adroddiad hwn yn ddeuddeg pennod fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: cefndir y cynllun peilot astudio dramor gan gynnwys y polisi a'r cyd-destun strategol
- pennod pedwar: adolygiad o'r data cyhoeddedig sy'n amlinellu tueddiadau cyfredol ym maes symudedd astudio dramor gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru
- pennod pump: archwiliad o hyfywedd clustnodi'r galw gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio gradd gyfan dramor
- pennod chwech: adolygiad o'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo symudedd tramor myfyrwyr sy'n hanu o Gymru
- pennod saith: adolygiad o arferion rhyngwladol yn nhermau rhaglenni symudedd tramor
- pennod wyth: ystyriaeth o nodweddion myfyrwyr â diddordeb mynd i astudio dramor, neu sydd wrthi'n ar hyn o bryd
- pennod naw: archwiliad o'r manteision a'r rhwystrau canfyddedig i astudio dramor

- pennod deg: safbwyntiau myfyrwyr chweched dosbarth cyfredol yng Nghymru am astudio dramor, a safbwyntiau myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio dramor ar hyn o bryd
- pennod un ar ddeg: ystyriaeth o ddulliau gweithredu a modelau posibl ar gyfer sefydlu cynllun peilot dramor i Gymru
- pennod deuddeg: ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer y cynllun peilot astudio dramor.

## 2. Methodoleg yr Astudiaeth

2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd wrth gyflawni'r astudiaeth pennu cwmpas, ac yn cynnig safbwynt ar gryfderau a chyfyngiadau'r dulliau a fabwysiadwyd.

**Y Dull**

2.2 Roedd yr astudiaeth pennu cwmpas, a gyflawnwyd rhwng Ionawr a Mai 2018, yn cwmpasu'r elfennau canlynol:

- cyfnod cychwynnol a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol â swyddogion Llywodraeth Cymru a chyfweliadau pennu cwmpas gyda swyddogion data Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r data sydd ar gael trwy’r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)
- gwaith ymchwil desg a oedd yn cynnwys adolygiad manwl o lenyddiaeth ar ddogfennau polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru, gwaith ymchwil sy’n bodoli eisoes i symudedd tramor myfyrwyr sy'n hanu o'r DU, ac adolygiad o ffynonellau data cyhoeddedig am dueddiadau cyfredol ym maes astudio dramor. Amlinellir canfyddiadau hyn ym mhenodau tri i naw o'r adroddiad hwn
- paratoi offerynnau ymchwil i gynnwys tri chanllaw trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gydag amrywiaeth o gyfranogwyr gan gynnwys myfyrwyr chweched dosbarth cyfredol â diddordeb mewn astudio dramor, myfyrwyr sydd wedi astudio dramor yn ddiweddar neu sydd wrthi nawr a rhanddeiliaid allweddol
- cyfweld â phum myfyriwr sydd wrthi'n astudio dramor neu sydd wedi bod yn gwneud hynny'n ddiweddar, a threfnu a chynnal dau grŵp ffocws â 13 o fyfyrwyr chweched dosbarth cyfredol sy'n ystyried astudio dramor. Mae canfyddiadau hyn ym mhennod deg o'r adroddiad hwn
- cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb ag 16 o randdeiliaid polisi a strategol (saith cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o Brifysgolion, DU Rhyngwladol, CCAUC, Cyngor Prydain, Cymru Fyd-eang, Llywodraeth yr Alban, Comisiwn Fulbright a thri SAU yng Nghymru) i archwilio modelau posibl ar gyfer y cynllun peilot tramor
- hwyluso gweithdy pwyso a mesur opsiynau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried dulliau a modelau posibl o fynd ati i gyflawni cynllun peilot

astudio dramor. Trafodwyd continwwm o bump opsiwn, a oedd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad desg a'r safbwyntiau a'r syniadau a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau â rhanddeiliaid a myfyrwyr. Mae pennod un ar ddeg yn cyflwyno'r opsiynau hyn ac yn cynnig crynodeb o'r trafodaethau ynghylch pob un

- paratoi'r adroddiad hwn ar yr astudiaeth pennu cwmpas sy'n cynnig argymhellion ar gyfer trefniadau gweinyddol pob opsiwn a ddatblygwyd.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.3 Mae sawl mater sy'n haeddiannol o ystyriaeth o ran beth oedd yn bosibl o fewn yr astudiaeth pennu cwmpas. O'r cychwyn cyntaf, roedd hi'n amlwg nad oedd digon o ddata ar gael i ganiatáu ar gyfer meintioli astudiaethau gradd gyfan dramor gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Nid yw'r data'n cael ei gasglu ar lefel y DU ar hyn o bryd, ac er bod rhai ffigurau mewn perthynas â myfyrwyr sy'n hanu o'r DU sy'n astudio dramor yn setiau data OECD[1], codwyd cwestiynau ynghylch dilysrwydd y rhain wrth iddynt gael eu dadansoddi'n fanwl gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau nôl yn 2010 (trafodir hyn yn fanylach ym Mhennod 5 o'r adroddiad hwn). Yn wir, mae Strategaeth y DU ar gyfer Symudedd Tramor Myfyrwyr ei hun wedi clustnodi'r bwlch yma mewn data a gwybodaeth, ac mae'n pennu amcan penodol i ddadansoddi data ar symudedd tramor er mwyn darparu gwell data ansoddol a meintiol fel bod gan y bobl sy'n gyfrifol am lunio polisi yn y dyfodol y moddion i archwilio a gwerthuso gwybodaeth o'r fath mewn ffordd fwy manwl.

2.4 Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o werth pedair blwyddyn o gofnodion HESA am fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yn y DU sydd wedi treulio cyfnod yn astudio dramor. Er nad yw hyn yn darparu unrhyw ddata uniongyrchol ar astudio gradd gyfan dramor, mae'n cynnig proffil o'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n penderfynu astudio dramor am unrhyw gyfnod hyd at flwyddyn, yn rhan o raglen gradd yn y DU. Trafodir y materion sy'n gysylltiedig â'r data'n fanylach ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn.

2.5 Her fethodolegol arall a wynebodd yr astudiaeth ymchwil yma oedd sut i gael gafael ar unigolion â phrofiad o astudio gradd gyfan dramor neu â diddordeb mewn astudio gradd gyfan dramor.

2.6 Defnyddiwyd nifer o ddulliau gweithredu i ddod o hyd i'r myfyrwyr hynny a oedd â diddordeb astudio gradd gyfan dramor, neu a oedd eisoes yn gwneud hynny. Yn gyntaf, fe gysyllton ni â phob un o hybiau rhanbarthol rhwydwaith Seren, sef cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo myfyrwyr chweched dosbarth mwyaf disglair Cymru i gyrchu'r prifysgolion gorau[2]. Gofynnwyd i gydlynydd pob hyb rhanbarthol i anfon dolen at unrhyw fyfyrwyr diweddar neu gyfredol sy'n gysylltiedig â'r hyb sydd â diddordeb astudio dramor neu a oedd eisoes yn gwneud hynny, fel y gallem gasglu eu manylion cyswllt (trwy hyperddolen i ffurflen fer i gasglu manylion cyswllt) a'u gwahodd am gyfweliad. Rhannwyd yr hyperddolen ar sianeli cyfryngau cymdeithasol rhwydwaith Seren hefyd. Rhannodd person cyswllt ym Mhrifysgol Yale sy'n chwarae rhan yn y broses o dderbyn myfyrwyr, a phobl gyswllt yn Ymddiriedolaeth Sutton a Chomisiwn Fulbright geisiadau tebyg ar ein rhan hefyd. Denodd y broses hon 19 set o fanylion cyswllt. Fodd bynnag, myfyrwyr dramor yn UDA oedd y rhain yn bennaf, ac mae'r canfyddiadau felly wedi eu gogwyddo at brofiadau o astudio mewn un wlad benodol.

2.7 Cysylltwyd yn uniongyrchol ag ysgolion a cholegau AB hefyd er mwyn gofyn am gyfweliadau neu drafodaethau grŵp ffocws â myfyrwyr chweched dosbarth sy'n ystyried astudio dramor. Cysylltwyd â chyfanswm o ddau goleg AB mawr (y naill yn y gogledd a'r llall yn y de-ddwyrain) â darpariaeth chweched dosbarth sylweddol, ond ni lwyddwyd i glustnodi unrhyw fyfyrwyr oedd â diddordeb astudio dramor. Yn yr un modd, cysylltwyd â chyfanswm o bump ysgol gyfun ledled Cymru, ond un yn unig oedd yn gallu clustnodi unrhyw fyfyrwyr oedd â diddordeb astudio dramor, a chynhaliwyd grŵp ffocws yn yr ysgol hon. Yn ogystal, cynhaliwyd ail grŵp ffocws gyda myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn coleg chweched dosbarth preswyl annibynnol. Cafodd y coleg ei gynnwys o fewn y sampl yn fwriadol am fod ganddo olwg ryngwladol unigryw, ac am hynny, mae hi'n bosibl na fydd y canfyddiadau o'r grŵp ffocws yma'n adlewyrchu poblogaeth chweched dosbarth ehangach Cymru. Fodd bynnag, mae'r broses ei hun yn tystiolaethu'r lefelau isel cyfredol o alw cudd sydd yna am astudio dramor ar sail lawn-amser.

# 3. Y Cefndir a'r Cyd-destun Polisi

3.1 Nod y bennod hon yw disgrifio'r cefndir a'r rhesymeg dros gyflawni cynllun peilot astudio dramor yng Nghymru, ac mae'n ystyried y cyd-destun polisi a strategol ar gyfer astudio dramor ar lefel yr UE, y DU a Chymru.

**Cyd-destun Polisi'r UE**

3.2 Ym 1998, llofnododd y DU, Ffrainc, yr Almaen a'r Eidal Ddatganiad y Sorbonne[3] a bennodd y fframwaith ar gyfer Datganiad Bologna[4] a lofnodwyd gan 27 o wledydd y flwyddyn ganlynol. Sbardunodd hyn 'Broses Bologna', sef set o gyd-egwyddorion ar gyfer dialog, cydweithio a chydweithredu ym maes Addysg Uwch.

3.3 Un o amcanion allweddol Proses Bologna oedd sefydlu Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (EHEA) a fyddai'n hybu a hwyluso cydweithredu ar draws y byd Addysg Uwch, trwy sefydlu ymrwymiad i rannu amcanion er mwyn bwydo'r sail ar gyfer cymharu a chydnabod cymwysterau, a set o offer i gynorthwyo'r broses a sicrhau ansawdd. Roedd tair elfen allweddol yr EHEA ar y pryd yn cynnwys:

- Caniatáu i fyfyrwyr a graddedigion Ewropeaidd symud yn rhwydd o un wlad i'r llall gyda chydnabyddiaeth lwyr i gymwysterau a chyfnodau astudio
- Caniatáu i SAU gydweithio a chyfnewid myfyrwyr/staff ar sail ymddiriedaeth a ffydd, ynghyd ag eglurder ac ansawdd
- Gwneud Addysg Uwch yn y rhanbarth Ewropeaidd yn fwy cystadleuol ar lwyfan ryngwladol a chychwyn dialog a gwella cydweithredu â'r byd AU mewn rhannau eraill o'r byd[5].

3.4 Lansiwyd yr EHEA yn ffurfiol yn 2010, ac erbyn 2015 roedd yn cynnwys 48 o wledydd a mwy na 4,000 o sefydliadau Addysg Uwch.

3.5 Dros 15 mlynedd diwethaf Proses Bologna, mae'r gwledydd sy'n aelodau o EHEA wedi gwneud newidiadau sylweddol i’w systemau a’u mecanweithiau AU fel bod graddau'n debycach i'w gilydd, ac er mwyn hwyluso symudedd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu Fframwaith cyffredinol ar gyfer Cymwysterau, system gredydau gyffredin (ECTS) [6] a'r Safonau a'r Canllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrwydd Ansawdd.

3.6 Ar draws yr EHEA, mae llywodraethau a SAU wedi cytuno ar darged gyffredinol lle bydd 20 y cant o'r holl raddedigion yn treulio cyfnod yn astudio neu'n hyfforddi dramor erbyn 2020[7]. Er mwyn cyrraedd y nod, mae llawer o wledydd yn symud eu ffocws oddi ar niferoedd y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn symudedd, i sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch i bawb.

**Cyd-destun polisi'r DU**

3.7 Lansiodd Prifysgolion y DU Rhyngwladol strategaeth Symudedd Tramor Myfyrwyr newydd ar gyfer 2017-20 sy'n amlinellu ymrwymiad i sicrhau bod 13 y cant o'r myfyrwyr gradd gyntaf, llawn amser sy'n hanu o'r DU yn cymryd rhan mewn lleoliad rhyngwladol yn rhan o'u rhaglen AU erbyn 2020 (gan ddyblu'r gyfradd gyfredol)[8].

3.8 Gweledigaeth y strategaeth yw 'creu cenhedlaeth newydd o raddedigion rhyngwladol a diwylliant addysg uwch lle mae cyfleoedd rhyngwladol yn ddyhead ar gyfer pob myfyriwr'[9].

3.9 Mae chwech amcan strategol i'r strategaeth, gan gynnwys hyrwyddo manteision astudio a gweithio dramor. Cyflawnir hyn trwy gydlynu ymgyrch DU-eang tebyg i Generation Study Abroad UDA er mwyn codi ymwybyddiaeth am y manteision, a thrwy hybu mentrau cyfredol, gan gynnwys ymgyrchoedd SAU ei hun ac Erasmus+. Mae'n ymrwymo hefyd i gydweithio â mentrau eraill fel cynllun Generation UK China Cyngor Prydain a dyfarniadau US-UK Comisiwn Fulbright[10].

3.10 Amcan strategol allweddol arall yw 'meithrin capasiti mewn addysg uwch yn y DU er mwyn hwyluso symudedd tramor'. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n ymrwymo i:

- '[ddiogelu] buddsoddiad sylweddol i gynorthwyo symudedd tramor, gan gynnwys grantiau symudedd
- [diogelu] cyfleoedd symudedd newydd ar gyfer sector y DU, naill ai'n uniongyrchol neu trwy bartneriaethau strategol
- [gweithio] gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddarparu cymorth ac arweiniad i sector y DU er mwyn ehangu cyfranogaeth mewn cyfleoedd rhyngwladol
- [gweithio] gyda'r QAA[11] a chyrff cynrychiadol y prifysgolion gan gynnwys HEURO[12]…i ddarparu arweiniad ar sut i ddehongli a

chymhwyso'r fframweithiau ansawdd sy'n gysylltiedig â lleoliadau myfyrwyr dramor a

- [hybu] ffynonellau cyllid cyfredol ar gyfer symudedd tramor, gan gynnwys Erasmus+ ac ysgoloriaethau gwledydd penodol'[13].

3.11 Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i weithio ar sail rhyngwladol hefyd i 'feithrin cyfnewid dwyochrog â gwledydd blaenoriaeth, ac i feithrin partneriaethau a chytundebau â marchnadoedd newydd sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall'[14].

**Goblygiadau Brexit**

3.12 Adeg drafftio, mae dyfodol symudedd myfyrwyr yn y DU yn sgil trafodaethau Brexit yn aneglur. Mae Erasmus wedi bod yn un o raglenni blaenllaw'r Comisiwn Ewropeaidd, ac mae bron i dair miliwn o fyfyrwyr wedi elwa ar y cyllid y mae'n ei gynnig iddynt i astudio rhan o'u gradd yn un o wledydd eraill Ewrop. Mae hyn wedi rhoi cyfle i lawer o fyfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ddod i astudio mewn SAU yn y DU, ac mae sector AU y DU wedi cydweithio gyda bron i 100 o sefydliadau partner ar draws yr UE hefyd.

3.13 Er bod Brexit yn annhebygol o olygu diwedd symudedd myfyrwyr y DU i'r UE, gallai olygu bod angen dull gwahanol o fynd ati i ganiatáu ar gyfer symudedd myfyrwyr. Un opsiwn sy'n cael ei archwilio ar lefel SAU y DU ar hyn o bryd yw datblygu rhaglen dandem a allai gael ei hehangu i gynnwys cyfleoedd byd-eang, yn ôl un SAU.

**Y Cyd-destun Polisi yng Nghymru**

3.14 Mae hyrwyddo symudedd myfyrwyr yn ffocws allweddol i'r strategaeth AU yng Nghymru[15] am ei fod yn 'dwyn manteision ar gyfer unigolion, cymunedau, prifysgolion, yr economi a Chymru fel cenedl'[16]. Mae'r datganiad polisi ar AU yn amlygu gwaith prifysgolion yng Nghymru wrth sicrhau bod cwricwla'n hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer cyfleoedd symudedd priodol ac achrededig i fyfyrwyr [17].

3.15 Mae datganiad polisi AU Llywodraeth Cymru yn trafod rôl bwysig cynlluniau symudedd tramor hefyd, gan gynnwys Erasmus, ac mae'n clustnodi'r angen am sicrhau bod nifer y bobl sy'n manteisio ar gynlluniau o'r fath yn fwy cyson ar draws Prifysgolion Cymru ac y darperir rhagor o gymorth i alluogi

myfyrwyr o 'gefndiroedd mynediad ehangach i oresgyn y rhwystrau i gymryd rhan mewn profiadau dysgu rhyngwladol'[18].

3.16 Mae polisi Llywodraeth Cymru yn datgan hefyd bod astudio dramor yn fuddiol i fyfyrwyr am y gall wella eu cyflogadwyedd a'u datblygiad personol, cynnig cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith a meithrin 'meddylfryd rhyngwladol' i Gymru sy'n gallu denu busnes rhyngwladol a hyrwyddo allforio[19]. Fodd bynnag, nid yw'r datganiad polisi'n cyfeirio'n benodol at hyrwyddo, na chynorthwyo cyfleoedd i astudio gradd gyfan dramor.

3.17 Sefydlwyd Cymru Fyd-eang, partneriaeth rhwng Cyngor Prydain yng Nghymru, Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i hyrwyddo sector AU Cymru ar lwyfan rhyngwladol. Er ei bod yn delio'n bennaf â denu myfyrwyr tramor i astudio yng Nghymru trwy deithiau cenhadaeth tramor i farchnadoedd blaenoriaeth a hyrwyddo'r brand 'Astudio yng Nghymru'[20], mae'r sefydliadau AU o dan sylw yn gweithio hefyd i ddatblygu partneriaethau â sectorau busnes allweddol yng Nghymru i ddatblygu rhagor ar gysylltiadau rhyngwladol.

3.18 Cyflwynodd Adolygiad Diamond[21] o drefniadau ariannu AU yng Nghymru ddau argymhelliad penodol ar astudio trawsffiniol (sy'n amodol ar reoleiddiadau perthnasol) gan gynnwys:

- 'Dylai cymorth i fyfyrwyr fod yn gludadwy a dylai fod ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis astudio yn unrhyw le yn y DU neu'r UE'[22] a
- Llywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o gynnal cynllun peilot i ganfod a yw'n bosibl neu'n ddymunol ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU[23]'.

3.19 Roedd yr ail argymhelliad yn ymwneud â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis astudio eu rhaglen gradd i gyd dramor, ac argymhellwyd y dylai'r cynllun peilot arfaethedig ariannu astudiaethau mewn sefydliadau nid-er-elw ag enw da am ddarpariaeth o safon yn unig.

3.20 Roedd Llywodraeth Cymru'n llwyr dderbyn y dylai cymorth i fyfyrwyr fod yn gludadwy ac y dylai fod ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio yn unrhyw le yn y DU, ond cododd bryderon am ba mor gymhleth fyddai ymestyn y cymorth i bobl sy'n astudio yn y UE, ac yn enwedig yng

nghyd-destun Brexit.  O ganlyniad, roedd Llywodraeth Cymru am ystyried goblygiadau ariannol a gweinyddol posibl gweithredu rhaglen o'r fath, a phwyso a mesur lefel y galw posibl am gymorth o'r fath gan ddysgwyr, ac ymrwymodd i gynnal cynllun peilot i archwilio'r materion ymarferol sydd ynghlwm wrth ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU a'r UE'[24].

# 4. Data Cyhoeddedig ar Symudedd Tramor Myfyrwyr sy'n Hanu o Gymru

4.1 Mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o'r tueddiadau yn nhermau symudedd tramor ac mae'n cynnwys dadansoddiad manwl o'r data HESA sy'n ymwneud yn benodol â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'r data'n delio â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn unrhyw SAU yn y DU sy'n treulio hyd at flwyddyn yn astudio dramor. Nid yw'n cynnwys data ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dilyn eu gradd gyfan dramor am na chesglir y wybodaeth honno ar hyn o bryd.

**Dadansoddiad o Gronfa Ddata HESA o Fyfyrwyr Tramor**

4.2 Yn 2016/17, roedd 91,850 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n astudio mewn SAU yn y DU, roedd 77,770 o'r rheiny'n astudio ar lefel israddedigion, ac 14,075 pellach yn olraddedigion[25].

4.3 Gwelwyd twf cyson yn niferoedd cyffredinol y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor dros y pedair blynedd diwethaf, gyda'r niferoedd yn dyblu bron, o 795 yn 2013/14 i 1,430 yn 2016/17 ar adeg pan gwelwyd dirywiad o 10 y cant yn y boblogaeth gyffredinol o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn SAU.[26] Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor yn dal i fod yn isel, ar lefel o lai na 2 y cant o gyfanswm y boblogaeth y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

4.4 Mae Tabl 4.1 yn cynnig dadansoddiad o'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a fu'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor yn ystod y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2013/14 a 2016/17. Mae'n dangos bod menywod i gyfrif am gyfran gyson uwch o'r unigolion sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor, gyda'r bwlch yn tyfu ychydig bach dros y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, ac eithrio meddygaeth a milfeddygaeth, dynion sydd i gyfrif am gyfran uwch o fyfyrwyr y pynciau STEM sy'n mynd dramor i astudio, gwirfoddoli neu gyflawni profiad gwaith. Menywod, ar y llaw arall, sydd i gyfrif am gyfran uwch o'r bobl hynny sy'n astudio addysg, ieithoedd, y gyfraith a'r celfyddydau.

4.5 Mae'r mwyafrif (70 y cant) o'r bobl sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor rhwng 19 a 21 oed, er, dros y cyfnod o bedair blynedd, gwelwyd newid bychan ym mhroffil y myfyrwyr, gyda phobl 20 oed yn cynrychioli cyfran is o'r niferoedd cyffredinol sy'n mynd dramor, a'r bobl 19 oed yn cynrychioli cyfran gynyddol.

**Tabl 4.1: Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor fesul rhyw, oedran a blwyddyn**

| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd** | **797** | **1076** | **1314** | **1432** | **4618** |
| **Cyfran fesul Rhyw** | | | | | |
| Benyw | 58% | 56% | 59% | 60% | 58% |
| Gwryw | 42% | 44% | 41% | 40% | 41% |
| **Cyfran fesul Oedran** | | | | | |
| 18 oed | - | - | 3% | 4% | 2% |
| 19 oed | 9% | 13% | 18% | 17% | 15% |
| 20 oed | 45% | 46% | 34% | 33% | 38% |
| 21 oed | 18% | 16% | 17% | 16% | 17% |
| 22 oed | 10% | 8% | 9% | 10% | 9% |
| 23 oed | 7% | 6% | 8% | 6% | 7% |
| 24 oed | 3% | 3% | 3% | 4% | 3% |
| 25 oed | - | - | 2% | 2% | 2% |
| 26-29 oed | 3% | 4% | 3% | 4% | 4% |
| 30-39 oed | 3% | 2% | 2% | 2% | 2% |
| 40-49 oed | - | - | - | - | - |
| 50-59 oed | - | - | - | - | - |
| 60 oed a hyn | - | - | - | - | - |

Ffynhonnell: Data HESA (Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru)

4.6 Mae’r mwyafrif llethol (91 y cant) o’r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor yn wyn, gyda 4 y cant yn dod o gefndiroedd Asiaidd, 3 y cant o gefndiroedd cymysg ac 1 y cant o gefndiroedd du. Mae hyn yn gyson i bob pwrpas â'r gyfran o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn addysg uwch yn y DU nad ydynt yn dod o gefndiroedd gwyn[27].

4.7 Nid oes gan y mwyafrif o'r rhai a oedd yn astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni gwaith ymchwil dramor unrhyw anableddau, ond roedd gan 6 y cant anawsterau dysgu penodol a 2 y cant anhwylderau iechyd meddwl. Drwyddi

draw, roedd gan 13.7% o'r garfan o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn addysg uwch yn y DU anableddau hysbys[28].

4.8 Mae bron i hanner (49 y cant) y bobl hynny sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor wedi gweithio, neu mae ganddynt rieni sy'n gweithio mewn swyddi rheoli neu broffesiynol. Mae rhyw 14 y cant wedi gweithio, neu mae ganddynt rieni sy'n gweithio mewn swyddi canolradd, goruchwylio is neu dechnegol, ac mae rhyw 11 y cant mewn galwedigaethau gwaith ailadroddus neu led-ailadroddus. Mae rhyw 5 y cant yn gweithio iddyn nhw eu hunain. Mae gan lai nag 1 y cant o'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni gwaith ymchwil dramor rieni sydd erioed wedi gweithio neu sy'n ddi-waith tymor hir. Nid oedd data ar gael ar gyfer 21 y cant o'r myfyrwyr.

**Natur yr astudiaethau**

4.9 Drwyddi draw, roedd 95 y cant o'r myfyrwyr hynny a oedd yn astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor yn astudio ar lefel israddedig, tra bod 5 y cant yn astudio ar lefel olraddedig. Roedd bron pob un (99 y cant) o'r rhai sy'n astudio ar lefel israddedig yn gwneud hynny ar sail lawn-amser, gyda 22 y cant o'r rheiny'n dilyn cyrsiau rhyngosod. Roedd rhyw 80 y cant o'r rhai sy'n astudio ar lefel olraddedig yn gwneud hynny ar sail lawn-amser, a 12 y cant ar sail ran-amser.

**Pynciau astudio**

4.10 Mae Tabl 4.2 yn dangos pynciau astudio'r bobl hynny a ddewisodd astudio, gwirfoddoli neu gyflawni profiad gwaith dramor rhwng 2013/14 a 2016/17. Mae'n dangos taw myfyrwyr ieithoedd oedd 23 y cant o'r rhai a aeth dramor. Aeth y mwyafrif o'r rhain (811 neu 78 y cant) i Ewrop, gyda 41 y cant yn mynd i Ffrainc, 23 y cant i Sbaen, 15 y cant i'r Almaen a 10 y cant i'r Eidal.

**Tabl 4.2: Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n gweithio dramor fesul pwnc astudiaeth**

| Pynciau Astudiaeth | Nifer y Myfyrwyr 2013/14 i 2016/17 | % yr Holl Fyfyrwyr |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig | 40 | 1% |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 215 | 5% |
| Y Gwyddorau Biolegol | 295 | 6% |
| Busnes ac astudiaethau gweinyddol | 325 | 7% |
| Cyfunol | 25 | 1% |
| Cyfrifiadureg | 65 | 1% |
| Y celfyddydau creadigol a dylunio | 355 | 8% |
| Addysg | 105 | 2% |
| Peirianneg a thechnoleg | 140 | 3% |
| Hanes ac athroniaeth | 140 | 3% |
| Ieithoedd | 1045 | 23% |
| Y gyfraith | 130 | 3% |
| Cyfathrebu torfol a dogfennaeth | 55 | 1% |
| Y gwyddorau mathemategol | 45 | 1% |
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 545 | 12% |
| Y gwyddorau ffisegol | 605 | 13% |
| Astudiaethau cymdeithasol | 285 | 6% |
| Pynciau ym maes meddygaeth | 190 | 4% |
| Y gwyddorau milfeddygol | 20 | - |
| **Cyfanswm** | **4620** | 100% |

Ffynhonnell: Data HESA (Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru)

4.11 O'r rhai a fu'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor, roedd 13 y cant yn fyfyrwyr y gwyddorau ffisegol. Aeth y mwyafrif o'r rheiny (405 neu 67 y cant) i Ewrop, ac Ynys Cyprus a Sbaen oedd y lleoliadau mwyaf poblogaidd yn hynny o beth. Aeth rhyw 16 y cant o'r rheiny a oedd yn astudio'r gwyddorau ffisegol i Ogledd America, i Ganada a'r Unol Daleithiau yn bennaf.

4.12 Roedd rhyw 12 y cant o'r rhai a oedd yn astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni gwaith ymchwil dramor yn fyfyrwyr meddygaeth neu ddeintyddiaeth. O'r rheiny, aeth 27 y cant i Ynysoedd y De (Awstralia'n bennaf, a Seland Newydd i raddau llai), aeth 23 y cant i Ogledd America (Canada a'r Unol Daleithiau'n bennaf), 23 y cant i Asia ac 17 y cant i Affrica (De Affrica, Tansania a'r Gambia yn bennaf). Aeth cyfran lai o lawer o fyfyrwyr meddygaeth a deintyddiaeth (7 y cant) na myfyrwyr pynciau eraill i Ewrop.

**Hyd**

4.13 Mae Tabl 4.3 yn dangos y gyfran o fyfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n gweithio dramor yn ôl hyd eu cyfnod dramor. Mae'n dangos bod ychydig dros hanner (51 y cant) yr israddedigion sy'n mynd dramor i astudio'n gwneud hynny am gyfnod o hyd at dri mis[29]. Yn yr un modd, mae'r mwyafrif (79 y cant) o'r israddedigion sy'n gwirfoddoli dramor yn gwneud hynny am dri mis neu lai hefyd. Mae hyd y lleoliadau gwaith dramor a gyflawnwyd gan fyfyrwyr israddedig yn amrywio'n fwy.

**Tabl 4.3: Cyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n gweithio dramor fesul hyd eu cyfnod dramor**

| | Hyd at 3 mis | 3 i 6 mis | 6 i 9 mis | 9-12 mis |
|---|---|---|---|---|
| Israddedigion | | | | |
| Astudio dramor | 51% | 18% | 17% | 14% |
| Gwirfoddoli | 79% | 9% | 6% | 6% |
| Gweithio dramor | 23% | 18% | 37% | 22% |

Ffynhonnell: Data HESA (Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru)

4.14 Roedd hyd astudiaethau'r myfyrwyr olraddedig dramor yn fyrrach ar y cyfan. Aeth bron i bedwar o bob pump (79 y cant) o'r olraddedigion a aeth dramor i astudio am gyfnod o hyd at dri mis, gyda hanner y rheiny'n mynd am gyfnod o wythnos neu ddwy. Roedd yr holl fyfyrwyr olraddedig a fu'n gwirfoddoli dramor, a'r mwyafrif (92 y cant) o'r olraddedigion a fu'n gweithio dramor yno am dri mis neu lai.

**Lleoliad**

4.15 Mae'r data HESA am symudedd tramor sydd ar gael ar gyfer 2015/16[30] yn dangos symudedd myfyrwyr o'r DU yn cwmpasu cyfanswm o 172 o wledydd, ac UDA, Canada, Awstralia, Ffrainc, Sbaen, yr Almaen, yr Eidal, yr Iseldiroedd a Tsieina oedd y naw gwlad a enwyd amlaf mewn perthynas ag astudiaethau.

4.16 Mae'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n dilyn patrwm tebyg. Fel y mae Tabl 4.4. yn ei ddangos, mae'r mwyafrif o bobl sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith dramor yn gwneud hynny yn Ewrop, er i'r gyfran sy'n mynd i Ewrop ostwng rhyw naw pwynt canrannol yn 2016/17 i 50 y cant. Gogledd America yw'r lleoliad mwyaf poblogaidd ond un, gyda rhwng 15 a 17 y cant o'r bobl sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith yn mynd yno. Cynyddodd y gyfran sy'n mynd i astudio, gwirfoddoli neu

gyflawni profiad gwaith yn Asia o gyfartaledd o ryw 11 y cant mewn blynyddoedd blaenorol i 17 y cant yn 2016/17.

**Tabl 4.4: Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni gwaith ymchwil dramor fesul cyfandir a blwyddyn**

| Cyfandir | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd** | | | | |
| Affrica | 45 | 45 | 90 | 75 |
| Asia | 80 | 120 | 140 | 240 |
| Ewrop | 455 | 630 | 775 | 720 |
| Gogledd America | 125 | 170 | 195 | 240 |
| Ynysoedd y De | 55 | 85 | 90 | 120 |
| De America | 15 | 15 | 20 | 20 |
| **Cyfanswm** | 797 | 1076 | 1314 | 1432 |
| **Canrannau** | | | | |
| Affrica | 6% | 4% | 7% | 5% |
| Asia | 10% | 11% | 11% | 17% |
| Ewrop | 57% | 59% | 59% | 50% |
| Gogledd America | 16% | 16% | 15% | 17% |
| Ynysoedd y De | 7% | 8% | 7% | 8% |
| De America | - | - | - | - |

Ffynhonnell: Data HESA (Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru)

4.17 O'r rhai a ddewisodd astudio, gwirfoddoli neu gyflawni profiad gwaith yn Ewrop, gwnaeth 21 y cant hynny yn Ffrainc, 19 y cant yn Sbaen, 13 y cant yn yr Almaen, 8 y cant yn yr Eidal a 7 y cant yn yr Iseldiroedd.

4.18 Roedd rhyw 57 y cant o'r rhai a oedd yn astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith yng Ngogledd America'n gwneud hynny yn yr Unol Daleithiau, a rhyw 23 y cant yng Nghanada. Roedd y gweddill wedi eu gwasgaru ar draws nifer fawr o ynysoedd y Caribî a gwledydd Canolbarth America.

4.19 Tsieina yw'r lleoliad mwyaf poblogaidd i'r rhai sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n cyflawni profiad gwaith yn Asia, gydag 19 y cant o'r rhai sy'n mynd i Asia'n dewis Tsieina. Aeth rhyw 13 y cant o'r rhai a ddewisodd Asia i India, rhyw 11 y cant i Hong Kong a rhyw 11 y cant i Falaysia.

4.20 Aeth y mwyafrif (57 y cant) o'r rhai a ddewisodd astudio, gwirfoddoli neu gyflawni profiad gwaith yn Ynysoedd y De hynny yn Awstralia, a 22 y cant yn Seland Newydd.

## 5. Hyfywedd clustnodi'r galw o du myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio gradd gyfan dramor

5.1 Nod y bennod hon yw mynd i'r afael â chwestiwn ymchwil allweddol o'r astudiaeth pennu cwmpas, sef hyfywedd clustnodi'r galw go iawn a'r galw cudd o du myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio gradd gyfan dramor. Mae'r bennod yn archwilio'r data sydd ar gael ar symudedd gradd gyfan ar hyn o bryd, ac yn amlygu rhai o'r materion o gylch data lefel y DU a pha mor berthnasol a throsglwyddadwy yw'r data i'r cyd-destun Cymreig.

**Tueddiadau Byd-eang**

5.2 Ar raddfa fyd-eang, gwelwyd cynnydd o dros bum gwaith yn nifer y myfyrwyr Addysg Uwch (AU) sydd wedi cofrestru y tu hwnt i'r wlad lle mae eu dinasyddiaeth dros y pedwar degawd diwethaf, o 0.8m ledled y byd ym 1975 i 4.6 miliwn yn 2015[31]. Fodd bynnag, myfyrwyr rhyngwladol sydd i gyfrif am gwta 5.6 y cant o'r holl gofrestriadau ar raglenni tertiaidd (ond dros chwarter y cofrestriadau lefel doethuriaeth)[32]. Gwelwyd tueddiad cynyddol o ran symudedd myfyrwyr yn y DU mewn blynyddoedd diweddar, gyda symudedd y grwpiau a dangynrychiolir yn cynyddu hefyd dros yr un cyfnod[33]. Fodd bynnag, mae'r DU yn dal i fod yn gyrchfan symudedd net i mewn net ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol[34] a hi yw'r wlad groeso fwyaf ond un, ar ôl yr Unol Daleithiau, gan gyfrif am 14 y cant o'r holl fyfyrwyr rhyngwladol yn ardal OECD[35].

5.3 Drwyddi draw, mae traean o'r myfyrwyr symudol yn ardal OECD wedi cofrestru ym meysydd astudio STEM, a pheirianneg (17 y cant), y gwyddorau natur a mathemateg (10 y cant) a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (6 y cant) yw'r mwyaf poblogaidd drwyddi draw. Mae 28 y cant pellach wedi cofrestru ar gyrsiau busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith[36].

5.4 Mae rhai gwledydd 'wedi ymgysylltu'n ddyfnach mewn cylchdroi gallu' [37] nag eraill, gyda gwledydd lle siaredir Saesneg fel Awstralia a Seland Newydd yn gweithio fel hybiau addysg lle mae myfyrwyr tramor i gyfrif am 18 myfyriwr am bob 100 myfyriwr cartref, gartref a thramor.

**Myfyrwyr sy'n hanu o'r DU a symudedd gradd gyfan**

5.5 Yn nhermau lleoliadau posibl ar gyfer symudedd gradd gyfan, mae data OECD yn clustnodi pum gwlad (yn ogystal â'r DU) sy'n cynnig pob neu bron pob rhaglen gradd yn Saesneg, sef Awstralia, Canada, Iwerddon, Seland Newydd ac UDA. Yn ogystal, nodwyd bod Denmarc, y Ffindir, yr Iseldiroedd a Sweden yn wledydd sy'n cynnig llawer o raglenni trwy gyfrwng y Saesneg[38].

5.6 Diddorol yw nodi bod yr OECD yn edrych hefyd ar y ffioedd dysgu a godir ar fyfyrwyr rhyngwladol, ac er na ellir dweud beth fydd effaith Brexit yn hyn o beth, mae hyn yn cynnig cipolwg ar y sefyllfa sydd ohoni. Mae Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau oll yn codi ffioedd dysgu uwch ar fyfyrwyr annomestig, tra bod ffioedd dysgu uwch mewn grym mewn nifer o wledydd yr UE ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn hanu o'r UE neu nad ydynt o Ardal Economaidd Ewrop[39]. Mae Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Sbaen oll yn codi ffioedd dysgu ar yr un raddfa ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol a rhai domestig[40].

5.7 Cyhoeddodd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) bapur ymchwil yn 2010 a oedd yn edrych ar gymhelliant a phrofiadau myfyrwyr o'r DU sy'n astudio dramor. Roedd y gwaith ymchwil yn cydnabod nad yw symudedd myfyrwyr rhyngwladol, ac yn arbennig myfyrwyr sy'n astudio eu gradd gyfan y tu hwnt i'r DU, wedi cael fawr ddim sylw gan ymchwilwyr. Er bod y gwaith ymchwil yn cyfeirio at yr angen am fwy o eglurder o gylch nifer y myfyrwyr o'r DU sydd wedi cofrestru mewn SAU mewn gwledydd eraill, roedd yn datgan yn glir hefyd 'nad oes unrhyw gonsensws clir ar y mater ar hyn o bryd'[41]. Am hynny, nod gwaith ymchwil BIS oedd pwyso a mesur graddfa ac arwyddocâd symudedd tramor mewn perthynas â graddau llawn. Cyflawnodd ddadansoddiad metaddata o ystadegau (gan gynnwys data OECD), arolygodd 1,400 o ddisgyblion yn eu blwyddyn olaf mewn ysgolion mewn dau ranbarth yn Lloegr, ac arolygodd 560 o fyfyrwyr o'r DU sydd wedi cofrestru i astudio mewn prifysgolion ym mhedwar ban byd ar hyn o bryd.

5.8 Wrth ddod i gasgliad, mae gwaith ymchwil BIS yn datgan y canlynol o ran ansawdd y data mewn perthynas â myfyrwyr sy'n hanu o'r DU sy'n astudio gradd gyfan dramor:

‘Nid oes unrhyw sail ystadegol na gweinyddol dros gasglu data penodol ar yr holl fyfyrwyr diploma-symudol sy'n ymadael ... â'r DU. Mae hi'n debyg bod asiantaethau rhyngwladol yn darparu ystadegau am fyfyrwyr o'r DU ar sail y wlad y maent yn teithio iddi, ond nid yw'r data'n seiliedig ar set gyffredin o ddiffiniadau... ar hyn o bryd mae anghysonderau rhwng y data yn gwneud y peth yn amhosibl'.[42]

5.9 Edrychodd gwaith ymchwil BIS ar ddata OECD yn 2010, a nododd broblemau lu wrth ddefnyddio setiau data asiantaethau rhyngwladol. Roedd yn credu ei bod hi'n debyg bod yr ystadegau'n goramcangyfrif y gwir ffigur o ran myfyrwyr tramor o'r DU a oedd yn astudio gradd gyfan o dros 10 y cant. Fodd bynnag, eu 'hamcangyfrif gorau' oedd bod astudiaethau gradd gyfan myfyrwyr sy'n hanu o'r DU i gyfrif am yr hyn sy'n cyfateb â rhyw 1.7 y cant o'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU a oedd wedi ymgofrestru mewn addysg uwch[43] [44].

5.10 Mae data mwy diweddar OECD o 2016 yn awgrymu taw cwta 1.4 y cant[45] yw’r ganran o fyfyrwyr o’r DU sydd wedi ymgofrestru mewn addysg dertiaidd dramor, sy'n is o lawer na chyfartaledd OECD, sef 5.9 y cant, a chyfartaledd EU-22[46] sef 7.5 y cant[47]. Mae data OECD yn datgan y bu yna 12,335 o fyfyrwyr symudol rhyngwladol (a ddiffinnir fel myfyrwyr yn treulio mwy nag un flwyddyn yn astudio dramor) o'r Deyrnas Unedig. O ddefnyddio'r canran hwn fel sail ar gyfer amcangyfrif bras, gellid dod i'r casgliad bod rhyw 185 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru wedi ymgofrestru ar gyfer darpariaeth astudio sy'n dwyn credydau addysgol am fwy na blwyddyn o astudiaeth.

5.11 Edrychodd gwaith ymchwil BIS hefyd ar gefndir addysgol myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd gyfan dramor, ac ar sail yr arolwg o ysgolion, daeth i'r casgliad bod rhyw 2.8 y cant o ddisgyblion y sector ysgolion gwladol a 5.5 y cant o ddisgyblion y sector ysgolion annibynnol yn ymgeisio am le mewn prifysgolion y tu hwnt i'r DU. O'r rhain, cyfran yn unig sy'n cael cynnig lle i astudio dramor ac sy'n dewis ymgofrestru yn y pendraw. Nid yw cyfanswm

nifer (a chefndir addysgol) y rhain yn hysbys. Roedd yr arolwg yn dangos hefyd bod mwy o lawer o ddisgyblion yn ystyried ymgeisio am le mewn prifysgol dramor, ond nad ydynt yn gwneud hynny yn y pendraw [48]. Trafodir y rhesymau dros benderfynu peidio â gwneud hyn yn fwy manwl ym Mhennod 8 o'r adroddiad hwn.

5.12 Mae gan Lywodraeth yr Alban brofiad diweddar o sefydlu cynllun peilot cludadwyedd mewn perthynas ag astudio gradd gyfan dramor (ceir gwybodaeth bellach ym Mhennod 6). Deg myfyriwr yn unig sydd wedi manteisio ar y cynllun peilot hyd yn hyn, er y sefydlwyd y cynllun i ddarparu ar gyfer hyd at 250 o fyfyrwyr. Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod y gwir nifer o fyfyrwyr o'r Alban sy'n astudio rhaglenni gradd gyfan dramor (mewn unrhyw sefydliad) yn isel, ac amcangyfrifir ei bod yn llai na chant ar unrhyw adeg benodol.

5.13 O gymryd i ystyriaeth fod gan Gymru sector annibynnol llai o lawer na'r DU i gyd, mae hi'n debygol fod nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio dramor yn is na chyfartaledd y DU. O ffactora profiad Cynllun Peilot Cludadwyedd yr Alban i mewn (er na chyflawnwyd unrhyw werthusiad ffurfiol arno hyd yn hyn), gallwn ddod i'r casgliad, a hynny er ei bod yn amhosibl pennu cyfanswm nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio dramor yn fanwl, bod y gwir alw a'r galw cudd yn debygol o fod yn isel iawn - ac yn fwy na thebyg, yn sylweddol llai na 200 o fyfyrwyr y flwyddyn.

## 6. Y cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar hyn o bryd

6.1 Mae'r adran hon yn archwilio'r gwahanol grantiau a chynlluniau ariannu y gall myfyrwyr sy'n hanu o Gymru fanteisio arnynt i'w cynorthwyo i astudio dramor (am unrhyw gyfnod). Nid yw'n cynnwys bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a ddarperir gan SAU unigol ar draws y DU. Gall myfyrwyr sy'n cyflawni lleoliadau astudio neu waith dramor yn rhan o gwrs a ddarperir gan ddarparydd yn y DU gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gymorth gyda ffioedd a chostau byw. Mae hi'n bwysig dweud nad oes unrhyw gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd am astudio gradd gyfan dramor ar hyn o bryd.

**Erasmus+**

6.2 Erasmus+ yw rhaglen yr UE i gynorthwyo ac ariannu addysg, hyfforddiant ieuenctid a chwaraeon yn Ewrop. Ei nod yw darparu cyfleoedd i dros 4 miliwn o bobl Ewropeaidd astudio, hyfforddi, cael profiad gwaith a gwirfoddoli dramor, ac mae ganddo gyllideb o €14.7 biliwn ar gyfer 2014-2020[49]. Y rhaglen hon yw olynydd y rhaglen Erasmus, sef rhaglen cyfnewid myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd a sefydlwyd ym 1987.

6.3 Nod Erasmus+ yw cyfrannu at strategaeth twf, swyddi, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol Ewrop 2020 yn ogystal â nodau ET2020, sef fframwaith strategol yr UE ar gyfer addysg a hyfforddiant.

6.4 Mae gan bob gwlad yn yr UE asiantaeth genedlaethol benodol sy'n gyfrifol am dderbyn ceisiadau a dyfarnu cyllid Erasmus+ i sefydliadau llwyddiannus. Partneriaeth rhwng Cyngor Prydain ac Ecorys UK yw Asiantaeth Genedlaethol Erasmus+ y DU.

6.5 Rhwng 2014 a 2017, dyfarnodd Erasmus+ €500 miliwn i brosiectau a gweithgareddau penodol ledled y DU. O hynny, darparwyd €29.3m ar gyfer 187 o brosiectau yng Nghymru, gyda 7,595 o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn amryw o brosiectau. Dyfarnwyd €12.2m i 43 o brosiectau symudedd addysg uwch (Cam Allweddol 1)[50].

6.6 O dan Gam Allweddol 1, gall sefydliadau AU â Siarter wneud cais am gyllid i roi cyfle i'w myfyrwyr astudio mewn prifysgol bartner, neu gyflawni hyfforddiant dramor fel y gall myfyrwyr 'wella eu sgiliau, cyfoethogi eu cyflogadwyedd ac ennill profiad rhyngwladol gwerthfawr' [51].

6.7 Mae Erasmus+ yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio dramor yn Ewrop am rhwng tri a 12 mis (y cylch prifysgol) yn rhan o'u gradd. Gall myfyrwyr gymryd rhan mewn symudedd astudio ar unrhyw adeg yn ystod eu gradd, ac eithrio'r flwyddyn gyntaf, ond yn y pen-draw bydd yn dibynnu ar strwythur y cwrs gradd a threfniadau'r brifysgol unigol gyda'i bartneriaid. Gall y sefydliadau partner fod yn unrhyw un o'r 32 o wledydd sy'n cymryd rhan yn Erasmus+.

6.8 Mae myfyrwyr cymwys yn cael grant Erasmus+ a ddarperir gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cael ei dalu trwy'r sefydliad AU. Mae'r grant yn cyfrannu at y costau ychwanegol a all godi wrth astudio dramor. Ar gyfer 2018/19, gall y grant fod hyd at €300-350 y mis, yn dibynnu pa wlad y mae'r myfyriwr yn dewis ymweld â hi. Gellir darparu cyllid ychwanegol i dalu costau cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr ag anabledd difrifol neu anghenion arbennig neilltuol. Gall myfyrwyr o'r DU sy'n mynd dramor am flwyddyn academaidd gyfan fod yn gymwys i gael cyfraniad mawr at eu ffioedd dysgu yn y DU ar gyfer y flwyddyn y maent i ffwrdd hefyd. Mae hyn yn amrywio rhwng gwledydd y DU, ac nid yw'r ddarpariaeth ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.[52].

6.9 Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i barhau i chwarae rhan gyflawn yn rhaglen Erasmus+ hyd nes i'r DU ymadael a'r Undeb Ewropeaidd.

6.10 Y rhaglen Erasmus yw un o'r cynlluniau cyfnewid mwyaf adnabyddus, ac aeth dros 14,600 o fyfyrwyr y DU dramor drwy Erasmus yn 2014/15. Mae poblogrwydd Erasmus+ yn golygu ei bod yn ariannu rhwng 20 a 30 y cant o holl astudiaethau tramor myfyrwyr sy'n hanu o'r DU ar hyn o bryd[53].

**Ysgoloriaethau gan SAU dramor**

6.11 Mae gan rai gwledydd Ewropeaidd wefannau pwrpasol sy'n darparu gwybodaeth am yr ysgoloriaethau sydd ar gael i fyfyrwyr sydd am astudio yno. Er enghraifft mae'r wefan 'Study in Holland'[54] yn cynnig gwybodaeth am

39 o ysgoloriaethau i israddedigion ar draws amrywiaeth o feysydd pwnc. Yn yr un modd, mae Gwasanaeth Cyfnewid Academaidd yr Almaen (DAAD)[55] yn darparu cronfa ddata o ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr tramor, sy'n cynnwys cyfanswm o 55 o ddewisiadau o ran ysgoloriaethau i israddedigion.

6.12 Yn UDA, mae prifysgolion yn dyfarnu tua 1,000 o ysgoloriaethau i fyfyrwyr tramor bob blwyddyn, sy'n amrywio o ysgoloriaethau rhannol i ysgoloriaethau cyflawn sy'n talu'r holl ffioedd a chostau[56]. Gellir rhannu prifysgolion UDA yn rhai sy'n cynnig 'ysgoloriaethau ar sail teilyngdod' i fyfyrwyr, a rhai sy'n cynnig 'ysgoloriaethau ar sail angen'. Dyfernir ysgoloriaethau ar sail teilyngdod am orchestion mewn meysydd academaidd, cerddorol neu chwaraeon, a darperir cymorth ariannol ar sail angen (ar ôl asesu incwm yr aelwyd a gallu'r teulu i gynorthwyo'r myfyriwr)[57].

6.13 Ychydig iawn o ysgoloriaethau 'ar sail teilyngdod' sydd ar gael, ac mae'r rhain yn tueddu i fod ar gael yn y sefydliadau mwyaf blaenllaw lle nad oes angen, fel Prifysgol Harvard, Athrofa Technoleg Massachussetts (MIT), Prifysgol Yale ac ati. Pan fo'r rhain yn cynnig lle i ymgeisydd penodol, nid oes unrhyw gyfyngiad ariannol iddynt i ddiogelu'r myfyrwyr hynny ar gyfer eu sefydliadau. Byddant yn dyfarnu ysgoloriaeth teilyngdod llawn i'r myfyrwyr ac ni fydd ar y myfyrwyr angen unrhyw fath arall o gymorth ariannol wedyn.

6.14 Mae sefydliadau sy'n ymwybodol o angen sy'n cynnig 'ysgoloriaethau ar sail angen' i fyfyrwyr rhyngwladol yn cymryd i ystyriaeth faint o gyfraniad ariannol y gall teulu'r myfyriwr fforddio ei roi - wedyn byddant yn cymryd i ystyriaeth faint o gyfraniad ariannol y bydd angen i'r brifysgol ei roi i gynorthwyo'r myfyriwr yn y brifysgol. Gallai'r cyfraniad hwn fod ar ffurf grant, benthyciad llog isel neu hyd yn oed ar ffurf cyfraniad 'gwaith' gan y myfyriwr ar y campws. Mae gan y prifysgolion hyn bot cyfyngedig o 'ysgoloriaethau ar sail angen' i'w cynnig, felly mae gan yr ymgeiswyr gwell cyfle o ddiogelu cyllid os ydynt yn gallu cynnig cyfraniad ariannol hefyd.

6.15 Darganfu ein gwaith maes bod Comisiwn Fulbright yn canolbwyntio ei ymdrechion ar gynorthwyo myfyrwyr i ymgeisio am leoedd mewn prifysgolion sy'n cynnig 'ysgoloriaethau ar sail angen' (ar y sail bod nifer yr ysgoloriaethau sy'n seiliedig ar deilyngdod yn fach iawn a'u bod yn

gystadleuol dros ben o ran eu natur). Yn achos Harvard, 4 y cant yw'r gyfradd derbyn, felly mae hi'n eithriadol o anodd ennill lle i astudio yno. Mae tua 4,500 SAU yn UDA ac mae Comisiwn Fulbright yn diystyru unrhyw brifysgolion nad ydynt yn cynnig unrhyw ysgoloriaethau ariannol wrth roi arweiniad i ymgeiswyr. Gwir gost gradd addysg uwch yn UDA yw $250k neu fwy.

6.16 Mae llawer o brifysgolion unigol mewn gwledydd eraill ar draws y byd yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae angen i fyfyrwyr edrych ar wefannau'r SAU unigol i ganfod a ydynt yn gymwys ar gyfer unrhyw gynlluniau[58].

6.17 Mae gan bob SAU yn y DU nifer o ysgoloriaethau a bwrsariaethau hefyd (sy'n gallu amrywio o ran eu swm a'u telerau) i gynorthwyo astudiaethau tramor eu myfyrwyr yn dibynnu ar flaenoriaethau rhyngwladoli strategol penodol y sefydliad o dan sylw.

**Comisiwn Fulbright**

6.18 Sefydlwyd Comisiwn Fulbright tua 70 mlynedd yn ôl fel menter ar y cyd rhwng llywodraethau'r DU ac UDA er mwyn cynorthwyo niferoedd uwch o fyfyrwyr i astudio dramor yn y gwledydd o ân sylw. Mae'r sefydliad yn darparu nifer o ddarpariaethau ariannol ac ymgynghorol ar gyfer myfyrwyr o'r DU sydd â diddordeb astudio mewn sefydliad addysg uwch achrededig yn UDA. Yn rhan o rwydwaith Education USA Llywodraeth UDA[59], maent yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr am gyfleoedd i astudio ac yn cyhoeddi canllawiau ar-lein am sut i ddewis, paratoi ar gyfer, ac ariannu addysg yn UDA. Mae eu gwefan yn cyfeirio myfyrwyr sydd â diddordeb astudio yn UDA at nifer o adnoddau lle gallant chwilio am ysgoloriaethau addas, gan gynnwys ysgoloriaethau i brifysgolion penodol [60] ac ysgoloriaethau athletau.

6.19 Comisiwn Fulbright sy'n gyfrifol hefyd am raglen UDA-DU Ymddiriedolaeth Sutton, sydd â'r nod o gynorthwyo myfyrwyr difreintiedig ysgolion gwladol ym Mhrydain i wneud cais am le mewn prifysgolion yn America trwy ddarparu cymorth, cyngor ac ysgol haf wythnos o hyd yn UDA. Yn y gorffennol, mae Prifysgol Harvard, Athrofa Technoleg Massachusetts (MIT) a Phrifysgol Yale wedi cynnal yr ysgolion haf yma. Yn ddiweddar, mae'r rhaglen wedi

ymgysylltu rhai o fyfyrwyr chweched dosbarth mwyaf disglair Cymru trwy Rwydwaith Seren i hyrwyddo rhaglen haf Ymddiriedolaeth Sutton yn UDA. Eleni, gwelodd Ymddiriedolaeth Sutton gynnydd o 150 y cant yn nifer y ceisiadau gan fyfyrwyr o Gymru ar gyfer eu rhaglen haf yn UDA.

**Cyngor Prydain**

6.20 Mae gan Gyngor Prydain gynllun o'r enw Generation UK-China sy'n gwneud darpariaeth i hyd at 30 o fyfyrwyr dros 18 oed sydd wedi cofrestru ar sail lawn amser mewn prifysgol yn y DU, neu sydd wedi graddio o fewn y flwyddyn ddiwethaf, i dreulio wyth wythnos yn Tsieina. Mae'r rhaglen yn cynnwys tair wythnos o astudiaethau dwys yn yr iaith Fandarin mewn prifysgol flaenllaw, a lleoliad profiad gwaith pump wythnos o hyd mewn sector diwydiant o ddewis y myfyriwr (gan gynnwys TG, y gyfraith, marchnata, cyfrifeg, peirianneg, fferylliaeth, cyllid, croeso ac eraill).

6.21 Mae'r rhaglen yn rhedeg rhwng canol Hydref a chanol Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r cyllid yn cwmpasu'r holl ffioedd ar gyfer dosbarthiadau iaith, gweithgareddau diwylliannol, llety, yswiriant teithio, casglu o'r maes awyr a lleoliadau. Rhaid i'r myfyrwyr dalu eu costau pob dydd (amcangyfrifir bod y rhain tua £50 yr wythnos), costau hedfan, teithebau ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio o'u poced eu hunain.

**Ysgoloriaethau i astudio dramor a ddarperir gan gyrff yn y DU nad ydynt yn gysylltiedig â'r llywodraeth**

6.22 Mae amryw o ymddiriedolaethau ac elusennau addysg yn y DU yn cynorthwyo myfyrwyr sy'n astudio dramor. Un o'r mwyaf adnabyddus yw Ysgoloriaethau'r Gymanwlad ar gyfer dinasyddion y DU. Mae dinasyddion y DU yn gymwys i wneud cais am ysgoloriaethau a chymrodoriaethau i astudio mewn gwledydd eraill yn y Gymanwlad o dan Gynllun Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau'r Gymanwlad (CSFP). Fodd bynnag, mae'r rhain ar gyfer astudiaethau lefel Gradd Meistr a Doethuriaeth yn bennaf[61].

6.23 Weithiau gall clybiau rotari unigol gynnig ysgoloriaethau ar gyfer astudiaethau israddedigion neu raddedigion i unrhyw un heblaw aelodau'r Rotari a'u teuluoedd, a bydd y gofynion o ran cymhwyster yn amrywio'n unol

â hynny. Mae Sefydliad y Rotari'n cynnig ysgoloriaethau i raddedigion coleg i astudio heddwch a datrys anghydfodau neu hylendid dŵr. Darperir y rhain i astudio gradd meistr yn un o chwe phrifysgol partner, neu 'Ganolfan Heddwch y Rotari'[62].

6.24 Ers 2007, mae banc y Santander wedi bod yn darparu ysgoloriaethau, grantiau a dyfarniadau er mwyn helpu myfyrwyr i gyflawni nodau addysgol, gan gynnwys astudio dramor. Y dyfarniad nodweddiadol yw £1,000 a'u bwriad yw talu costau teithio fel costau llety, cludiant a theithebau. Mae'n darparu cyllid i alluogi myfyrwyr o Sbaen, Portiwgal ac America Ladin i astudio yn y DU, a hefyd i ariannu astudiaethau tramor ar gyfer myfyrwyr o'r DU. Mae'r ddarpariaeth yn agored i fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner o'r enw 'Prifysgolion Santander' ym mhedwar ban y byd[63].

6.25 Mae yna amrywiaeth o sefydliadau dyngarol a sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n cynnig cymorth i fyfyrwyr sydd am dreulio amser i dramor - er anaml iawn y mae hyn ar ffurf cyllid uniongyrchol ar gyfer rhaglenni astudio. Mae rhai o'r sefydliadau hyn, fel y Sefydliad Addysg Rhyngwladol (IIE),[64] yn darparu amrywiaeth o adnoddau i alluogi darpar-fyfyrwyr a sefydliadau i rannu gwybodaeth a hwyluso symudedd rhyngwladol myfyrwyr ac arbenigedd.

6.26 O fewn y DU, mae Ymddiriedolaeth Sutton yn noddwr pwysig o ran symudedd myfyrwyr, ac yn enwedig i UDA mewn partneriaeth â Chomisiwn Fulbright. Er nad yw Ymddiriedolaeth Sutton yn ariannu myfyrwyr yn uniongyrchol, mae'n darparu 'blas ar fywyd' mewn prifysgol blaenllaw yn America i 'fyfyrwyr disglair mewn ysgolion gwladol' trwy eu hanfon i UDA am ysgol haf a'u cynorthwyo nhw gyda'r broses o ymgeisio am ysgoloriaeth. Lleoedd cystadleuol dros ben yw'r rhain sy'n targedu myfyrwyr na fyddai'n gallu astudio dramor fel rheol. Mae Ymddiriedolaeth Sutton yn hawlio ei bod wedi buddsoddi bron i 50 miliwn o bunnoedd dros yr 20 mlynedd diwethaf i gynorthwyo myfyrwyr o Brydain. O ganlyniad, mae 15,000 o fyfyrwyr o ysgolion gwladol wedi elwa ar ysgolion haf yr Ymddiriedolaeth, a 120 o fyfyrwyr ysgolion gwladol wedi mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion blaenllaw yn UDA[65].

6.27 Yn ogystal â'r mathau o bartneriaethau cyhoeddus-preifat a geir yng nghynlluniau Endeavour Mobility Awstralia (mae rhagor o wybodaeth yn y bennod nesaf), mae rhai cwmnïau, ac yn enwedig rhai yn UDA, yn cynnig cymorth i blant eu cyflogeion. Mae Chevron, Chubb Corporation a Starr International Company oll yn cynnig ysgoloriaethau rhyngwladol i feibion a merched (ac weithiau wyrion ac wyresau) eu cyflogeion.

**Y ffioedd sy'n gysylltiedig ag Astudio Dramor**

6.28 Yn ogystal ag ystyried yr ysgoloriaethau sydd ar gael i astudio dramor, mae hi'n bwysig nodi bod y ffioedd a godir ar fyfyrwyr tramor i astudio dramor yn gallu amrywio'n sylweddol o un wlad i'r llall.

**Tabl 6.1 Graddau sydd ar gael trwy gyfrwng y Saesneg a ffioedd dangosol i fyfyrwyr o'r DU astudio dramor**

| Gwlad | Graddau Israddedig yn Saesneg | Sefydliadau sy'n addysgu yn Saesneg[66] | Ffioedd Dangosol[67] |
|---|---|---|---|
| Denmarc | 179 | 29 | 0 |
| Norwy | 10 | 5 | 0 |
| Sweden | 39 | 21 | 0 |
| Y Ffindir | 74 | 24 | 0 |
| Yr Iseldiroedd | 309 | 54 | €1,951 |
| Iwerddon | d/b | d/b | €3,000 |
| Yr Unol Daleithiau | d/b | d/b | US$5,000-58,500 |
| Awstralia | d/b | d/b | AUD16,000-24,000 |
| Awstria | 26 | 13 | 0 |
| Gwlad Belg | 19 | 10 | €620-830 |
| Yr Eidal | 97 | 34 | €690 |
| Sbaen | 237 | 40 | €977-1,950 |
| Yr Almaen | 134 | 71 | 0 |

Ffynhonnell: A Star Future

6.29 Mae A Star Future[68] yn darparu gwybodaeth ariannol fwy manwl am oblygiadau ariannol astudiaethau i israddedigion mewn unrhyw wlad Ewropeaidd, ac mae'n crynhoi cost addysg uwch gyhoeddus, y cymorth ariannol penodol sydd ar gael i fyfyrwyr o Brydain, costau byw, llety a budd-

daliadau tai a chyngor mwy ymarferol (e.e. sut i agor cyfrif banc a chael teitheb astudio). Mae'r wefan yn esbonio hefyd y gwahanol ofynion mynediad ac yn darparu dolenni i wefannau pob Prifysgol yn y wlad o dan sylw. Defnyddiodd Llywodraeth yr Alban arbenigedd A Star Future wrth benderfynu ar ei sefydliadau partner ar gyfer y cynllun peilot symudedd tramor.

**Casgliadau**

6.30 Mae'r adolygiad o gyllid yn dangos bod yna sawl ffynhonnell cyllid gwahanol y gellir eu cyrchu i gynorthwyo astudiaethau tramor, ond eu bod amrywio o un sefydliad un llall ac yn ôl hyd y cyfnod astudio arfaethedig a'r wlad lle maent yn dymuno astudio.

6.31 Er bod llawer o ffynonellau gwybodaeth ar gael, mae'r peth yn fratiog ac nid oes unrhyw siop un stop amlwg ar gyfer gwybodaeth nac unrhyw arwyddbyst clir i'r holl ffrydiau ariannu sydd ar gael ac y gellir eu harchwilio.

6.32 Ar hyn o bryd gall cyfleoedd astudio rhwng 3 a 12 mis o hyd yn Ewrop ddod o dan Erasmus+, ond mae llai o opsiynau yno o ran cymorth ariannol ar gyfer cyfleoedd astudio byrrach neu hirach ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ar gyfer talu ffioedd a chostau byw ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis astudio neu wneud profiad gwaith tramor, am hyd at flwyddyn, fel rhan o gwrs a ddarperir drwy sefydliad AU yn y DU. Mae ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i gynorthwyo astudiaethau gradd gyfan dramor, ond eto mae hyn yn dibynnu ar y lleoliad a'r sefydliad o dan sylw, ac nid oes unrhyw ffordd bendant o ariannu astudiaethau tramor i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

## 7. Adolygiad o gynlluniau symudedd tramor rhyngwladol

7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried amrywiaeth o gynlluniau symudedd tramor rhyngwladol sy'n cael eu darparu gan wledydd heblaw'r DU. Mae'n ystyried y strwythur a'r trefniadau cyllid sydd ynghlwm wrth yr amrywiol fodelau cyflawni a'r ffactorau sy'n sbarduno ac yn bwydo datblygiad cynlluniau symudedd tramor. Yn rhan o'r astudiaeth pennu cwmpas yma, cyflawnwyd adolygiad o lenyddiaeth ar sail chwiliad gan ddefnyddio geiriau allweddol mewn cyfnodolion academaidd perthnasol a gwefannau'r llywodraeth yn rhyngwladol. Canolbwyntiodd yr adolygiad o lenyddiaeth ar gynlluniau symudedd dan nawdd llywodraethau gwledydd datblygedig yn bennaf, gyda ffocws arbennig ar esiamplau Ewropeaidd a gwledydd tramor lle siaredir Saesneg.

**Cefndir**

7.2 Mae yna draddodiad hir o gynlluniau symudedd myfyrwyr dan nawdd llywodraethau. Yn gonfensiynol, mae'r rhain wedi cynnwys ymdrechion i wella capasiti gwledydd sy'n datblygu o ran adnoddau dynol. Heb eu systemau addysg uwch datblygedig eu hunain, mae gwledydd tlotach wedi anfon eu myfyrwyr dramor yn draddodiadol yn y gobaith y bydd y graddedigion yn dychwelyd â'u harbenigedd [69]. Fodd bynnag, er bod cynlluniau o'r math yma i gyfrif am y mwyafrif o gynlluniau i ariannu symudedd tramor, nid nhw yw'r unig rai o bell ffordd. Mae yna gydnabyddiaeth gynyddol i fanteision symudedd tramor mewn gwledydd a allai gael eu hystyried i fod yn gyfoethog o ran 'adnoddau dynol' ac sydd â'u systemau addysg uwch datblygedig eu hunain.  Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, mae'r DU wedi pennu ei nod, yn *Strategaeth Symudedd Tramor y DU* i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer astudio dramor yn unol â nod yr Undeb Ewropeaidd i anfon 20 y cant o'i fyfyrwyr gradd dramor erbyn 2020[70].

7.3 Ers ei lansio ym 1987, mae rhaglen Erasmus yr Undeb Ewropeaidd wedi bod yn fecanwaith allweddol tuag at gyflawni’r nod yma, a hi sydd wedi darparu'r prif ffynhonnell cymorth ar gyfer symudedd tramor yn Ewrop. Yn y bennod hon, archwiliwn rhai o'r modelau a'r mathau o gymorth a

ddefnyddiwyd i hyrwyddo symudedd tramor. Mae'r ffocws yn bennaf ar wledydd yr UE ac ar wledydd eraill lle darperir addysg uwch trwy gyfrwng y Saesneg i raddau helaeth.

7.4 Dylid nodi bod sialensiau penodol ynghlwm wrth gyflawni adolygiad desg o'r cynlluniau amrywiol yma. Mae rhai o'r anawsterau'n deillio o natur amrywiol y mathau o gymorth sydd ar gael, am eu bod yn amrywio o fwrsariaethau bychain i gymorth i dalu am ymweliadau byrion â chynlluniau gradd sy'n cael eu hariannu bob ceiniog. Yn aml mae yna fylchau yn y wybodaeth am faint a natur y cymorth[71]. Yn ogystal, mae yna amrywiaeth eang o arianwyr, o gynlluniau a noddir gan y llywodraeth, i sefydliadau dyngarol, i gorfforaethau aml-wladol. Ac yn olaf, er nad lleiaf o bell ffordd, mae yna wahanol ddiffiniadau o'r hyn sy'n cyfrif fel 'astudiaethau tramor'[72]. Mae rhai cynlluniau'n cwmpasu astudiaethau sy'n cynnwys rhan o gymhwyster (neu'r cymhwyster cyfan), mae cynlluniau eraill yn darparu adnoddau ar gyfer profiadau ategol a chyfleoedd dysgu nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at gymhwyster. Fodd bynnag, er nad yw'r adolygiad hwn yn cynnwys yr holl gynlluniau sydd ar gael, mae'n cynnig trosolwg o'r math o gynlluniau sydd ar gael.

7.5 Dylid nodi hefyd na all yr adolygiad hwn ddarparu unrhyw werthusiad o bwys o'u costau a'u manteision. Ychydig iawn o waith ymchwil a gwerthuso a wnaed i symudedd tramor yn gyffredinol, heb sôn am gynlluniau symudedd tramor penodol. Daw'r dystiolaeth sydd ar gael o'r sefydliad nawdd fel rheol ac mae'n dueddol o fod yn anecdotaidd ei natur, gan gynnig naratif personol am fanteision yr amrywiol gynlluniau yn hytrach nag unrhyw ymgais systemataidd i bwyso a mesur manteision y cynlluniau hyn o ran cost - gan gynnwys costau'r cyfleoedd.

7.6 Mae'r adran nesaf yn ystyried detholiad o gynlluniau symudedd tramor dan nawdd llywodraethau, ynghyd â chynlluniau a ddarperir gan sefydliadau dyngarol a busnesau.

**Cynlluniau symudedd tramor dan nawdd llywodraethau**

7.7 Mae yna amrywiadau helaeth ar draws Ewrop, a hyd yn oed o fewn y DU, yn nhermau polisïau cenedlaethol a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer symudedd tramor myfyrwyr.

**Yr Iseldiroedd a'r Almaen**

7.8 Ystyrir y ddwy wlad yma gyda'i gilydd am eu bod yn aml yn cael eu henwi fel y gwledydd Ewropeaidd â'r lefelau uchaf o symudedd tramor o safbwynt myfyrwyr, ac mae gan y ddwy fecanweithiau cymorth tebyg. Yn y ddwy wlad, mae yna gefnogaeth sylweddol i ryngwladoli addysg uwch. Er enghraifft, mae'r Almaen wedi pennu targed bod 50 y cant o fyfyrwyr yn astudio rhan o'u gradd neu eu gradd gyfan dramor[73]. Y gwledydd y mae myfyrwyr Almaenaidd yn eu dewis amlaf yw'r Iseldiroedd, y DU, y Swistir ac Awstria - a'r rhain, gyda'i gilydd, oedd i gyfrif am fwy na 60 y cant o gofrestriadau myfyrwyr addysg uwch Almaenaidd dramor yn 2012[74]. Mae gan yr Iseldiroedd gyfradd uchel o symudedd myfyrwyr hefyd, gyda 24 y cant o'r myfyrwyr yn astudio rhan o'u gradd dramor, a 2 y cant yn astudio eu gradd gyfan dramor[75]. Y tair gwlad sy'n croesawu'r nifer fwyaf o fyfyrwyr gradd gyfan yw Gwlad Belg (Fflandrys), y DU ac UDA. Y tair gwlad sy'n croesawu'r nifer fwyaf o fyfyrwyr am ran o'u gradd trwy Erasmus yw'r DU, Sbaen a'r Almaen.

7.9 Mae’r ddwy wlad yn gweld astudio dramor fel estyniad syml o ddewis y myfyriwr. Fodd bynnag, mae dwy brif ffactor yn hwyluso gweithrediad ymarferol y dewis hwn (y tu hwnt i'r cynllun Erasmus). Y naill yw'r trefniadau ffioedd isel neu ddim ffioedd yn rhai o'r gwledydd croeso. Y llall yw cludadwyedd rhyngwladol benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr yn yr Iseldiroedd a'r Almaen - sy'n rhywbeth cymharol brin[76].

7.10 Nid oes unrhyw amheuaeth fod natur symudol y benthyciadau a'r grantiau’n bwysig wrth hwyluso symudedd myfyrwyr. Fodd bynnag, dylid nodi bod lefel y benthyciadau a'r grantiau a ddarperir i bob myfyriwr yn is o lawer nac yn y DU. Mae hi'n debygol bod angen i lawer o'r myfyrwyr sy'n teithio dramor gymorthdalu eu hastudiaethau dramor, yn enwedig os ydyn nhw'n mynd i wlad sy'n codi ffioedd dysgu uwch.

**Norwy**

7.11 Mae Norwy'n caniatáu cludadwyedd benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr hefyd. Yn 2003, roedd 7 y cant o'r boblogaeth o fyfyrwyr ar gofrestr prifysgolion tramor[77] - ac mae hi'n debyg bod y nifer honno wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny. Fodd bynnag, yn ogystal â hynny, mae Norwy'n darparu cyllid ychwanegol i hwyluso symudedd myfyrwyr i wledydd penodol. Ynghyd â chred gyffredinol ym manteision rhyngwladoli, gellid gweld hyn fel rhan o strategaeth economaidd y wlad. Er taw'r UDA oedd y brif gyrchfan yn draddodiadol, mewn blynyddoedd diweddar mae Norwy wedi dewis blaenoriaethu'r economïau sydd ar dwf yn y gwledydd 'BRIC' - sef Brasil, Rwsia, India a Tsieina.

7.12 Mae lefel y cymorth a ddarperir yn hael. Yn 2012/13 darparodd llywodraeth Norwy'r cymorth canlynol:

- US$21,000 y flwyddyn am ffioedd dysgu (cymysgedd o fenthyciadau a grantiau)
- US$16,700 am gostau astudio a byw (ar ffurf benthyciad, y gellid trosi 40 y cant ohono'n grant adeg graddio)
- US$3,000 am astudio iaith (grant) a chymorth ychwanegol am ddwy daith dwy ffordd i'r lle astudio[78].

7.13 Yn ogystal, mae yna ddarpariaeth ar gyfer adnoddau ychwanegol i ddarparu ar gyfer newidiadau yng ngwerth arian treigl ac ymweliadau 'adref'.

**Yr Alban**

7.14 Yn rhan o Gynllun Peilot Cludadwyedd yr UE, gall myfyrwyr sy'n hanu o'r Alban sy'n astudio mewn prifysgolion cymwys yn Ewrop wneud cais am yr un cymorth o ran bwrsariaethau a benthyciadau ag y byddent yn ei gael petaent yn mynychu prifysgol yn y DU.

7.15 Dewiswyd chwe phrifysgol cymwys, sy'n darparu pob math o gyrsiau i israddedigion yn hynny o beth. Maent yn cynnwys:

- Prifysgol Groningen, Yr Iseldiroedd
- Prifysgol Maastricht, Yr Iseldiroedd

- Prifysgol Malmo, Sweden
- Prifysgol Rhine Waal, Yr Almaen
- Prifysgol De Denmarc, Denmarc

7.16 Sefydlwyd y cynllun fel blaenoriaeth weinidogol, er mwyn hyrwyddo a meithrin cysylltiadau rhwng yr Alban a'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, roedd Llywodraeth yr Alban o'r farn y byddai galluogi mwy o fyfyrwyr sy'n hanu o'r Alban i astudio mewn sefydliadau yn yr UE yn hybu ac yn gwella sgiliau iaith a rhagolygon yr unigolyn o ran swyddi rhyngwladol, ac y byddai hyn, yn y pendraw yn darparu gwerth economaidd i'r Alban.

7.17 Gweithiodd Llywodraeth yr Alban gyda sefydliad ‘A Star Future’ wrth benderfynu ar y rhestr o Brifysgolion cymwys. Cawsant eu dewis am eu bod yn darparu llawer o gyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg; am fod ganddynt nifer fawr o fyfyrwyr tramor yn astudio yno eisoes (ac felly byddai ganddynt systemau cymorth da ar waith), am fod ganddynt ffocws ar bynciau STEM[79] ac enw da yn rhyngwladol (Prifysgolion statws uwch).

7.18 Cafodd y cynllun peilot ei sefydlu i gynorthwyo hyd at 250 o fyfyrwyr (er, cwta 10 y flwyddyn sydd wedi manteisio ar y cynllun hyd yn hyn), ac Asiantaeth Gweinyddu Dyfarniadau Myfyrwyr yr Alban (SAAS) sy'n gweinyddu'r broses o ymgeisio am gyllid.

7.19 Yn ogystal â'r fwrsariaeth/benthyciad (sy'n dibynnu ar incwm teulu’r myfyriwr), gall y myfyriwr gysylltu â'r brifysgol lle byddant yn astudio i ganfod a oes unrhyw fwrsariaethau neu ysgoloriaethau ychwanegol ar gael iddynt. Yn ogystal, gall myfyrwyr ar y cynllun peilot hawlio costau teithio o'r cartref i'r sefydliad ac yn ôl ar ddechrau a diwedd bob blwyddyn dramor ymlaen llaw. Mae'n cynnwys costau yswiriant meddygol hefyd, ond rhaid i'r myfyrwyr drefnu eu hyswiriant teithio eu hunain.

7.20 Nid yw'r myfyrwyr sy'n manteisio ar y cynllun peilot yn gwneud cais i SAAS am eu ffioedd dysgu. Mae'r trefniadau o ran ffioedd dysgu'n amrywio yn ôl y wlad lle maent yn dewis astudio fel a ganlyn:

**Tabl 7.1: Trefniadau ffioedd dysgu Prifysgolion Cynllun Peilot Cludadwyedd yr UE yn yr Alban**

| Prifysgol | Trefniadau ffioedd dysgu |
|---|---|
| Prifysgol Malmo, Sweden | Dim ffioedd dysgu |
| Prifysgol De Denmarc, Denmarc | Dim ffioedd dysgu |
| Prifysgol Rheine Wall, Yr Almaen | Dim ffioedd dysgu. Mae'r ffioedd fesul semester tua €250 (sy'n cwmpasu gwahanol ffioedd gweinyddu a chludiant am ddim yn Northrine Westphalia). |
| Prifysgol Groningen, Yr Iseldiroedd | Tua €1,850 i fyfyrwyr o'r UE. Gall myfyrwyr wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu gan Lywodraeth yr Iseldiroedd |
| Prifysgol Maastricht, Yr Iseldiroedd | Tua €1,835 i fyfyrwyr o'r UE sydd o dan 30 oed. Gall myfyrwyr wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu gan Lywodraeth yr Iseldiroedd. |

7.21 Y myfyrwyr sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod wedi cyflwyno cais i'r Brifysgol berthnasol a'u bod wedi darparu'r holl ddogfennaeth ategol angenrheidiol. Y myfyrwyr sy'n gyfrifol hefyd am drefnu llety, ffioedd dysgu a chostau ychwanegol.

**Gogledd Iwerddon**

7.22 Mae Gogledd Iwerddon yn cynorthwyo symudedd tramor myfyrwyr am resymau economaidd hefyd. Mae *Study USA,* a gynorthwyir gan Gyngor Prydain, yn darparu cyllid i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ym mhrifysgolion Gogledd Iwerddon fynd i astudio dramor am un flwyddyn. Rhoddwyd y fenter hon ar waith i fynd i'r afael â sialensiau cymdeithasol ac economaidd penodol a oedd yn wynebu'r awdurdodaeth. Mae ffocws yr ysgoloriaethau

ymchwil ar sgiliau cyflogadwyedd i raddau helaeth, gyda'r bwriad o feithrin capasiti rheoli ac arwain - a chodi ymwybyddiaeth am Ogledd Iwerddon yn UDA.

7.23 Mae'r cynllun yn darparu cyllid ar gyfer 50 i 60 o fyfyrwyr y flwyddyn. Er taw mater o hybu capasiti busnes yw hi i raddau helaeth, nid myfyrwyr astudiaethau busnes yn unig gaiff fanteisio ar y cynllun. Nid yw'n targedu'r bobl fwyaf academaidd galluog chwaith. Rhaid i'r ymgeiswyr fod â statws academaidd 'da' yn hytrach nag 'eithriadol'.

**Nordplus**

7.24 Mae Nordplus[80] yn esiampl o fath gwahanol iawn o gynllun symudedd tramor. Mae'r Rhaglen Nordplus yn cynnig cymorth ariannol i bartneriaid astudio rhyngwladol o wyth gwlad a thri rhanbarth hunanlywodraethol yn yr ardal Baltig a Nordig. Gyda chyllideb flynyddol o tua 9 miliwn ewro, nod Nordplus yw cryfhau a datblygu cydweithrediad addysgol Nordig, a sefydlu rhanbarth addysg Nordig-Baltig. Mae'n gosod pwys arbennig ar hybu ieithoedd a'r diwylliant Nordig, ac ar gyd-ddealltwriaeth ieithyddol a diwylliannol Nordig-Baltig. Er bod cyflwyniad Erasmus wedi lleihau arwyddocâd y rhaglen ychydig bach, mae cannoedd o fyfyrwyr yn dal i gael cyllid am gynlluniau cyfnewid 1-12 mis. Yr hyn sy'n gwneud Nordplus yn arbennig o ddiddorol yw ei bod yn seiliedig ar gydweithredu rhwng sefydliadau rhyngwladol (e.e. datblygu graddau ar y cyd), yn hytrach na lleoliadau unigol.

**UDA**

7.25 Mae gan UDA nifer o gynlluniau gwahanol â'r nod o hybu symudedd tramor a mewnol. Yr enwocaf o'r rhain yw Rhaglen Fulbright sy'n darparu amrywiaeth o ysgoloriaethau sy'n galluogi myfyrwyr o'r DU i fynd i astudio yn America. Er bod ei gynllun symudedd tramor yn targedu graddedigion ac ôl-raddedigion i bob pwrpas, mae ganddo amryw o ysgolion haf gyda phrifysgolion Prydeinig hefyd.

7.26 Gall myfyrwyr yn UDA ymgeisio am Ysgoloriaethau Rhyngwladol Benjamin A Gillman, sy'n targedu myfyrwyr difreintiedig yn benodol, a ddiffinnir fel y rhai sydd mewn angen ariannol dybryd. Er taw'r meini prawf ariannol sy'n pennu cymhwyster, mae hyn yn golygu hefyd eu bod yn cwmpasu llawer o grwpiau

a dangynrychiolir hefyd. Er nad yw'r rhaglen yn targedu unrhyw faes astudio penodol, mae'r rhaglen yn annog myfyrwyr i astudio ieithoedd, ac yn enwedig ieithoedd y mae angen critigol amdanynt (y rhai yr ystyrir eu bod o bwys i ddiogelwch y genedl). Fodd bynnag, am taw $5000 yw'r dyfarniad mwyaf, rhaid codi cwestiwn ynghylch pa mor effeithiol yw'r rhaglen wrth gyrraedd y bobl fwyaf difreintiedig.

7.27 Yn gyffredinol, mae materion diogelwch cenedlaethol yn nodwedd gadarn o lawer o gynlluniau symudedd tramor UDA (e.e. Gwobr Boren am Astudiaethau Rhyngwladol a Phrosiect GO sydd wedi ei ddylunio ar gyfer Corfflu Hyfforddi'r Milwyr Wrth Gefn).

**Awstralia**

7.28 Yn yr un modd ag UDA, mae gan Awstralia amrywiaeth o fentrau a elwir, gyda'i gilydd, yn ‘Endeavour Mobility Grants’. Mae'r rhain yn cwmpasu amrywiaeth o gynlluniau i astudio mewn prifysgolion penodol yn Asia a rhanbarth y Môr Tawel, y mae rhai ohonynt yn cael eu hariannu ar y cyd â phartneriaid preifat (e.e. Cheung Kong Infrastructure Holdings). O berthnasedd arbennig i'r adolygiad hwn mae'r Rhaglenni Cyfnewid Myfyrwyr Rhyngwladol (hyd at flwyddyn) a'r Rhaglenni Symudedd Tymor Byr i Astudio Dramor (hyd at chwe mis). Mae archwiliad o ddeilliannau cylch cyllid 2018 yn dangos nad ydynt yn targedu meysydd pwnc penodol yn unig, ond yn hytrach maent yn cynnwys dyfarniadau ym meysydd cyffredinol 'Cymdeithas a Diwylliant' a'r 'Celfyddydau Creadigol' yn ogystal â 'Pheirianneg', 'Iechyd' a 'Rheolaeth a Masnach'.

7.29 Yr hyn sy'n ddiddorol am y grantiau hyn yw, yn debyg i'r rhaglen Nordplus, y sefydliad AU yn hytrach na'r unigolyn, sy'n ymgeisio.

**Casgliadau**

7.30 1.7 Mae nifer o faterion allweddol wedi codi o'r adolygiad rhyngwladol yma. Cafodd yr adolygiad rhyngwladol fod amrywiaeth eang o gymorth ar gael i gynorthwyo symudedd tramor trwy gynlluniau dan arweiniad y llywodraeth, er bod y mwyafrif o'r esiamplau a ganfuwyd yn darparu cyllid tuag at gost ymweliadau tramor byrion neu ar gyfer nifer fechan o fodiwlau. Ychydig iawn o gynlluniau a ariennir gan y llywodraeth sy'n talu costau llawn symudedd

tramor. Mae astudio dramor yn ddrud, ac o ganlyniad, mae cynaliadwyedd cynlluniau symudedd tramor addysg uwch 'am ddim' yn broblem, a gwelwyd nifer o esiamplau a oedd â chylch oes cymharol fyr. Er enghraifft, bu rhaglen UDA-Canada Denmarc a oedd yn targedu addysg broffesiynol uwch yn rhedeg am gwta dwy flynedd rhwng 2010 a 2012.

7.31 Nid yw'n syndod fod gan wledydd sy'n cynnig grantiau a benthyciadau cludadwy ar gyfer astudio dramor lefelau uwch o symudedd tramor. Fodd bynnag, mae cynlluniau'n aml yn gysylltiedig ag astudio mewn gwledydd cyfagos (ac yn enwedig ar dir mawr Ewrop). Nid yw'n glir, hyd yn oed mewn gwledydd sy'n cynnig cludadwyedd llawn o ran grantiau a benthyciadau, a yw hyn yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig ag astudio dramor ai peidio.

7.32 Lle mae gwledydd wedi penderfynu buddsoddi mewn cynlluniau symudedd tramor, mae'n debyg bod yna resymeg glir a chymhelliant penodol. Mae'r cymhelliant hwn yn sbarduno cynlluniau symudedd tramor sydd wedi eu targedu'n fwy ac yn pennu'r gwledydd croeso. Mae rhai cynlluniau'n canolbwyntio ar feithrin capasiti economaidd (fel esiampl Gogledd Iwerddon), tra nod eraill yw manteisio ar economïau sydd ar dwf (Norwy), cryfhau cydweithredu diwylliannol (Nordplus) neu wella diogelwch y genedl (UDA).

# 8. Nodweddion myfyrwyr sy'n astudio dramor

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried proffil a nodweddion myfyrwyr sy'n ystyried ac sy'n treulio cyfnod yn astudio dramor, ac mae'n clustnodi gwahaniaethau penodol wrth gymharu ymchwil i fyfyrwyr sy'n cyflawni cyfnodau byrrach o symudedd tramor â chanfyddiadau am fyfyrwyr sy'n astudio gradd gyfan dramor. Mae'r bennod yn darparu crynodeb o gyfres o bapurau ymchwil a chyhoeddiadau sydd wedi edrych yn fanwl ar y materion hyn dros y pum mlynedd diwethaf.

**Proffil myfyrwyr sy'n astudio dramor - symudedd gradd gyfan**

8.2 Awgrymodd arolwg BIS o 1,400 o ddisgyblion yn eu blwyddyn olaf mewn ysgolion uwchradd taw'r disgyblion mwyaf dawnus yn academaidd oedd fwyaf tebygol o wneud cais i astudio gradd gyfan mewn prifysgol dramor, a bod y disgyblion a oedd wedi ymgeisio am le yn neg prifysgol gorau'r DU yn fwy tebygol o ymgeisio am le mewn sefydliad o safon ryngwladol mewn gwlad arall hefyd. Roedd hyn yn rhan o strategaeth y myfyrwyr i gyrchu'r prifysgolion gorau. Canfu'r gwaith ymchwil hefyd bod y gyfradd ymgeisio o'r sector annibynnol dair gwaith yn fwy nac mewn ysgolion gwladol, a bod pobl ifanc o deuluoedd gwyn y DU â hanes cadarn o ymgysylltu â symudedd rhyngwladol yn fwy tebygol o lawer o wneud cais i astudio dramor [81].

8.3 Dangosodd arolwg rhyngwladol o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU ac sy'n astudio dramor, eto a gyflawnwyd yn rhan o waith ymchwil BIS, bod y disgyblion hynny o'r DU a lwyddodd yn eu cais i astudio mewn prifysgol y tu hwnt i'r DU yn fwy tebygol o ddod o aelwyd lle'r oedd y ddau riant wedi cael addysg prifysgol. Roedden nhw'n debygol iawn o gael canlyniadau Safon Uwch rhagorol hefyd. Er bod y mwyafrif o'r myfyrwyr sy'n hanu o'r DU sy'n astudio dramor wedi mynychu ysgolion gwladol (55 y cant), roedd yna or-gynrychiolaeth o du ysgolion annibynnol yn y sampl, sy'n awgrymu bod mwy yn ymgeisio o'r ysgolion hyn a bod ganddynt well cyfle o gael lle mewn prifysgol ryngwladol[82].

8.4 Roedd y gwaith ymchwil a ariannwyd gan BIS yn dangos bod y myfyrwyr â diddordeb mewn symudedd gradd gyfan yn cynnig pob math o resymau dros ddewis astudio dramor. Y prif ymateb oedd eu bod am fynychu 'prifysgol o

safon ryngwladol' (55 y cant), cael cyfle i brofi antur unigryw (50 y cant) a chymryd y cam cyntaf mewn gyrfa ryngwladol (38 y cant)83. Mae gwaith ymchwil gan HEFCE yn awgrymu bod rhai myfyrwyr yn gweld astudio dramor fel 'ail gyfle' i wneud iawn am fethu â chael lle yng Nghaergrawnt neu Rydychen. Ystyrir bod prifysgolion o safon ryngwladol fel Princeton, Harvard ac Yale llawn cystal â'r prifysgolion targed yn y DU, ac ystyrir ei bod hi'n haws cael lle ynddynt hyd yn oed[84].

8.5 Dehongliad pesimistaidd arall yw bod myfyrwyr o'r DU sy'n astudio gradd gyfan dramor yn 'gyflawnwyr damweiniol' nad ydynt yn poeni'n ormodol am eu datblygiad gyrfaol at y dyfodol, ond eu bod, yn hytrach, yn gweld y cyfle i astudio dramor fel antur a chyfle i ohirio cychwyn gyrfa [85]. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n astudio ym mhrifysgolion yr 'Ivy League' yn UDA yn fwy tebygol o fod wedi cael eu tywys i'r cyfeiriad yna am fod 'rhieni'n chwarae rhan yn eu penderfyniadau, ac am fod addysg breifat a chefndiroedd cefnog yn hwyluso eu ffordd i mewn i brifysgolion o'r fath'[86].

8.6 Nid yw iaith yn ffactor sy'n sbarduno symudedd gradd gyfan, yn wir, mae'n ffactor gyfyngol, gyda'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU sy'n astudio gradd gyfan dramor yn dewis mynd i wledydd lle siaredir Saesneg. Felly er bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn chwilio am rywbeth gwahanol, maent am fynd i wlad lle maen nhw'n teimlo'n gyffyrddus, felly maent yn dewis lleoliadau fel UDA neu sefydliadau Ewropeaidd â charfan gref o siaradwyr Saesneg[87].

8.7 Roedd gwaith ymchwil HEFCE yn dangos hefyd bod agweddau at leoliadau cyflogaeth a llwybrau symudedd at y dyfodol yn amrywio yn dibynnu ar y wlad y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi. I'r rhai a oedd wedi astudio eu gradd gyfan dramor, Awstralia oedd y lleoliad a oedd fwyaf tebygol o ddenu myfyrwyr i ymgartrefu. Roedd UDA yn denu myfyrwyr oherwydd rhagoriaeth ganfyddedig prifysgolion penodol, a hefyd am y credid ei bod yn hwyluso mynediad at farchnadoedd llafur rhyngwladol. Fodd bynnag, cwta 21 y cant o'r rhai arolygwyd yng ngwaith ymchwil BIS oedd heb unrhyw fwriad o ddychwelyd i'r DU, a'r rhai a oedd lleiaf abl yn academaidd oedd fwyaf tebygol o aros yn eu lleoliadau tramor. Mae hyn i'w gweld yn awgrymu nad yw symudedd rhyngwladol yn achosi 'draen dawn' o'r myfyrwyr mwyaf

disglair a dawnus yn academaidd o'r DU, am eu bod yn fwy tebygol o ddychwelyd na'r rhai â llai o gymwysterau yn nhermau Safon Uwch[88].

**Proffil myfyrwyr sy'n astudio dramor - symudedd credydau[89]**

8.8 Roedd gwaith ymchwil Cyngor Prydain, a gyflawnwyd gyda sampl o 2,856 o fyfyrwyr llawn amser sy'n hanu o'r DU, yn awgrymu bod gan 34 y cant ddiddordeb mewn rhywfaint o astudio dramor, nad oedd gan 47 y cant unrhyw ddiddordeb o gwbl a bod 19 y cant pellach yn ansicr. Roedd lefel y diddordeb yn gyfartal i ddynion a merched[90].

8.9 Dangosodd arolwg o Gyrchfannau Pobl sy’n Ymadael ag AU (DHLE) o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU a oedd wedi cyflawni gradd gyntaf bod myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o astudio dramor na myfyrwyr gwrywaidd. Er enghraifft roedd 70 cant o'r myfyrwyr iaith oedd yn teithio yn fenywaidd a chwta 30 y cant yn wrywaidd. Yn yr un modd, roedd 59 y cant o'r myfyrwyr nad oeddent yn fyfyrwyr iaith sy'n teithio yn fenywaidd, a 41 y cant yn wrywaidd.

8.10 Dangosodd arolwg Cyngor Prydain fod yna berthynas gadarnhaol rhwng caffael ail iaith a diddordeb mewn astudio dramor ymysg y bobl hynny a oedd yn ystyried symudedd credydau (astudiaethau rhan-amser yn hytrach nag astudio gradd gyfan dramor). Cwta 44 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn medru mwy nag un iaith, ond roeddent i gyfrif am hyd at 60 y cant o'r rhai a oedd â diddordeb astudio dramor[91]. Gofynnodd y gwaith ymchwil yma hefyd i'r rhai a oedd wedi mynegi diddordeb mewn astudio dramor ond nad oeddent wedi cyflawni hynny eto, pa gyrsiau dramor yr oeddent am eu dilyn ac ymhle, a chododd canfyddiadau diddorol o hynny, gyda 47 y cant o'r garfan hon ym mynegi diddordeb mewn astudio dramor am gyfnod o flwyddyn ar lefel israddedig, 26 y cant yn dweud y byddent yn dewis gradd gyfan ac 14 y cant yn dewis un semester[92].

8.11 Lefel ddethol yr astudiaethau dramor oedd astudiaethau israddedig (59 y cant) ac roedd y cyrsiau mwyaf poblogaidd i'w hastudio dramor yn cynnwys y celfyddydau creadigol a dylunio (14 y cant), astudiaethau cymdeithasol (11 y cant), busnes a sgiliau gweinyddu (10 y cant) ac ieithoedd (9 y cant)[93].

8.12 Cyflawnwyd dadansoddiad o 233,185 o gyflawnwyr gradd gyntaf sy'n hanu o'r DU yn 2013 a oedd yn rhoi darlun ychydig bach yn wahanol. Er bod yr un meysydd pwnc yn ymddangos yn uchel ar y rhestr, roeddent mewn trefn ychydig bach yn wahanol – roedd y dadansoddiad yn dangos taw myfyrwyr iaith oedd i gyfrif am y gyfran uchaf o fyfyrwyr sy'n teithio dramor (38 y cant) wedyn myfyrwyr busnes a gweinyddiaeth (11 y cant), astudiaethau cymdeithasol (8 y cant) a'r celfyddydau creadigol a dylunio (6 y cant). Roedd yna dangynrychiolaeth ymhlith myfyrwyr pynciau STEM o ran cyfleoedd symudedd. Er bod 42 y cant o fyfyrwyr wedi ymrestru ar gyrsiau STEM yn 2012/13, cwta 16 y cant o'r holl fyfyrwyr a deithiodd dramor oedd yn astudio cyrsiau o'r fath[94].

8.13 O'r rhai a oedd â'u bryd ar astudio dramor, UDA oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda 40 y cant, wedyn Awstralia (11 y cant), Ffrainc (7 y cant), yr Almaen (6 y cant) a Chanada (5 y cant)[95]. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'r mwyafrif helaeth o'r symudedd (70 y cant) yn digwydd yn Ewrop, o'i gymharu â 30 y cant i wledydd y tu hwnt i Ewrop. Cafodd tri chwarter o symudedd myfyrwyr sy'n hanu o'r DU yn 2012/13 ei gyflawni mewn cwta 8 gwlad, Ffrainc oedd y fwyaf poblogaidd (25 y cant) wedyn Sbaen (17 y cant), UDA (12 y cant) a'r Almaen (9 y cant).

8.14 Prif ddyheadau'r rhai a oedd â diddordeb astudio dramor at ddibenion symudedd credydau at y dyfodol oedd cael hwyl yn teithio a phrofi gwahanol ddiwylliannau (47 y cant) neu'r awydd i weithio dros gwmni rhyngwladol a byw dramor (30 y cant) yn ôl arolwg o DHLEs[96].

8.15 Mae'r mwyafrif llethol, 97 y cant, o'r holl raddedigion sydd mewn cyflogaeth amser llawn chwe mis ar ôl graddio yn gweithio yn y DU, ond mae myfyrwyr sydd wedi astudio dramor bedair gwaith yn fwy tebygol na'u cymheiriaid nad ydynt wedi teithio i astudio, o fod yn gweithio y tu hwnt i'r DU[97].

**Grwpiau a dangynrychiolir mewn cynlluniau symudedd tramor**

8.16 Ffeindiodd Grŵp Ymgynghorol Symudedd Cymdeithasol y DU fod cefndir y myfyrwyr yn effeithio ar ddeilliannau graddedigion, a bod yna dystiolaeth fod myfyrwyr o grwpiau cymdeithasol-economaidd is yn llai tebygol o gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau all-gwricwlwaidd sy'n gallu hybu

cyflogadwyedd, gan gynnwys manteisio ar gyfleoedd i weithio neu astudio dramor[98].

8.17 Edrychodd adroddiad a oedd yn edrych ar ehangu cyfranogaeth mewn symudedd myfyrwyr yn y DU yn benodol ar bum grŵp sy’n cael eu tangynrychioli o ran symudedd:

- Myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd isel
- Myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogaeth isel
- Myfyrwyr duon a lleiafrifoedd ethnig
- Myfyrwyr ag anabledd
- Myfyrwyr sy'n ymadael â gofal[99].

8.18 Canfu bod y pum grŵp demograffaidd uchod oll yn cael eu tangynrychioli yn nhermau symudedd tramor, taw symudedd tymor byr (1-4 wythnos) oedd y dewis mwyaf deniadol iddynt a'u bod yn cael eu denu i'r un gwledydd tramor wrth gyflawni symudedd. Nid yw'n syndod efallai bod gan y rhai sy'n wynebu rhwystrau niferus gyfraddau cyfranogi is fyth.

8.19 Canfu'r gwaith ymchwil hefyd bod:

- Myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd uwch 65 y cant yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn symudedd tramor na'u cyfoedion o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is
- Gan grwpiau ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig (Indiaidd) a Tsieineaidd gyfraddau cyfranogi a oedd yn gyson â chyfartaledd y sector AU (1.7 y cant) a bod y lefelau cyfranogaeth isaf gan y myfyrwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Bangladesiaidd (0.6 y cant) neu Bacistanaidd (0.8 y cant).
- 1.5 y cant o fyfyrwyr ag anableddau’n cymryd rhan mewn symudedd tramor o gymharu â chyfartaledd y sector AU sef 1.7 y cant.
- Y gyfradd cyfranogaeth ymysg myfyrwyr a oedd yn ymadael â gofal yn isel iawn, â chwta 1 y cant.

8.20 At hynny, yn ddiddorol ddigon, canfu'r gwaith ymchwil bod rhaglenni symudedd sy'n cael eu harwain gan sefydliadau AU yn fwy poblogaidd ar draws y demograffeg targed na'r rhai a gynigir gan ddarparwyr allanol.

# 9. Manteision a rhwystrau canfyddedig i astudio dramor

9.1 Mae'r adran hon yn crynhoi’r adolygiad o lenyddiaeth a gyflawnwyd o waith ymchwil a gyflawnwyd yn y DU i'r manteision a'r rhwystrau canfyddedig i astudio dramor. Mae'n ystyried canfyddiadau mewn perthynas â'r manteision i wlad cartref y myfyriwr ac i'r unigolyn, ac mae'n edrych hefyd ar y rhwystrau canfyddedig mwyaf cyffredin i astudio dramor.

**Manteision i'r wlad gartref**

9.2 Awgrymodd gwaith ymchwil gan Gyngor Prydain a DAAD bod yna resymau lu pan fod gwledydd yn rhoi rhaglenni ysgoloriaeth ar waith ar gyfer symudedd tramor, ond y rheswm fwyaf cyffredin oedd 'cyfoethogi capasiti adnoddau dynol eu dinasyddion'[100]. Yn benodol, roedd gan wledydd ddiddordeb mewn cyfoethogi sylfaen gwybodaeth eu cenedl mewn meysydd penodol, a hynny'n aml yn gysylltiedig â datblygu economaidd (a'r pynciau STEM yn benodol). Fodd bynnag, gwledydd sy'n datblygu oedd holl wledydd a gwmpasodd eu gwaith ymchwil - y gwledydd BRIC, ac eraill fel yr Aifft, Kazakstan, Pacistan a Fietnam.

9.3 Mae'r mwyafrif o'r gwledydd yn darparu cymorth ysgoloriaeth o'r fath ar lefel graddedigion fodd bynnag, a'r goblygiad yw y bydd yna 'effaith luosogi' gyda myfyrwyr yn dychwelyd i wlad eu cartref ac yn ymgymryd â rhyw weithgaredd sy'n ymwneud â datblygu gwybodaeth. Ychydig iawn o esiamplau o gymorth ysgoloriaeth gafodd gwaith ymchwil Cyngor Prydain/DAAD am naill ai meysydd nad ydynt yn gysylltiedig â STEM neu waith ymchwil israddedig. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau ysgoloriaeth a archwiliwyd yn dueddol o ariannu symudedd 'fertigol' h.y. lle mae'r myfyrwyr yn cael cymorth i fynychu sefydliadau graddfa uwch mewn gwledydd mwy datblygedig.

9.4 Diddorol oedd nodi bod gwaith ymchwil Cyngor Prydain/DAAD wedi canfod nad oedd y rhan fwyaf o wledydd yn ymgysylltu â'u myfyrwyr tramor ar ôl iddynt ddychwelyd adref. Ychydig iawn o esiamplau oedd yna o ymgynghori â'r bobl a oedd yn dychwelyd, neu eu cynnwys yn y gwaith o wella neu hybu'r rhaglenni ysgoloriaeth yr oeddent wedi elwa arnynt.

9.5 Canfu'r gwaith ymchwil bod gwledydd â rhaglenni ysgoloriaeth symudedd tramor yn gweld cysylltiad positif rhwng addysg a ffyniant. Fodd bynnag, dadleuol yw'r dystiolaeth sydd wrth wraidd hyn - ychydig iawn o drafodaeth neu dystiolaeth sydd yna am werth buddsoddi mewn addysgu nifer fechan o ddinasyddion dramor, nac o ddeilliannau llesol amlwg y buddsoddiadau sylweddol hyn naill ai i'r unigolion a oedd yn cael cymorth symudedd, y gwledydd a oedd yn eu hariannu neu'r sefydliadau sydd naill ai'n anfon neu'n derbyn y myfyrwyr.

9.6 Mae gwaith ymchwil OECD yn awgrymu bod y gwledydd nawdd yn ystyried myfyrwyr symudol i fod yn ffynhonnell incwm pwysig, a'u bod yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar yr economi ac ar systemau arloesedd. Yn y tymor hwy, maent yn gweld myfyrwyr symudol addysgedig iawn i fod 'yn fwy tebygol o integreiddio i farchnadoedd llafur domestig, cyfrannu at greu gwybodaeth, arloesedd a pherfformiad economaidd'. Felly mae'r gwledydd nawdd yn gweld denu myfyrwyr (yn enwedig rhai sy'n aros yn barhaol), fel ffordd o fanteisio ar gronfa ddawn ryngwladol, sy'n aml yn gwneud iawn am gapasiti addysgol gwannach y wlad nawdd ei hun. Mae gwaith ymchwil OECD yn cyfaddef fod y gwledydd cartref yn gallu gweld y myfyrwyr symudol fel talent goll, ond os ydyn nhw'n dychwelyd adref, eu bod yn gallu 'cyfrannu at ddirnadaeth gwybodaeth, uwchraddio technoleg a meithrin capasiti'[101].

9.7 Roedd gwaith ymchwil BIS i symudedd myfyrwyr tramor yn cyfaddef bod angen cyflawni llawer mwy o waith ymchwil er mwyn deall a yw symudedd tramor myfyrwyr o'r DU i wledydd eraill yn golygu ein bod yn colli rhai o bobl ifanc ddawnus mwyaf disglair y DU i economïau eraill. I'r gwrthwyneb, awgrymwyd ei bod hi'r un mor bosibl nad yw'r DU yn anfon digon o fyfyrwyr dramor (o ystyried bod nifer y myfyrwyr o'r DU sy'n astudio dramor mewn SAU graddfa uchel i gyfrif am gyfran fach iawn o'r holl fyfyrwyr tramor yn y prifysgolion hyn). O ganlyniad, mae'n dadlau bod yna wir berygl bod y DU yn colli'r cyfle i hyfforddi ei ddawn ifanc fwyaf disglair yn y sgiliau mwyaf blaenllaw yn y byd a fyddai mor hanfodol i 'ffyniant economi'r DU at y dyfodol'[102].

**Y manteision i'r unigolyn**

9.8 Mae gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU nifer o sbardunau 'academaidd' i astudio dramor, gan gynnwys ennill credydau am eu hastudiaethau (61 y cant) a gwella eu sgiliau iaith (45 y cant)[103].

9.9 Mae gwaith ymchwil diweddar gan Brifysgolion y DU yn awgrymu bod yna gysylltiad rhwng symudedd tramor a gwell deilliannau academaidd, gydag 80 y cant o'r myfyrwyr sy'n teithio dramor yn ennill gradd dosbarth cyntaf neu radd ail ddosbarth uwch, o gymharu â 74 y cant nad ydynt yn astudio dramor. Yn yr un modd, cafwyd eu bod yn gwella eu deilliannau cyflogaeth (gyda 76 y cant o'r myfyrwyr sy'n teithio mewn swydd lefel graddedig o gymharu â 70 y cant o'r rhai nad ydynt yn astudio dramor), a’u bod yn ennill [ar gyfartaledd] 5 y cant yn fwy na'u cymheiriaid[104].

9.10 Yn yr un modd, mae dadansoddiad o ddata HESA a DHLE yn 2012/13 yn awgrymu bod astudio dramor yn gwella deilliannau academaidd, dim ots beth yw'r pwnc astudio. Canfu'r dadansoddiad bod 87 y cant o'r myfyrwyr symudol yn graddio â gradd 1$^{af}$ neu 2:1 o gymharu â 69 y cant o'u cymheiriaid na fuodd yn teithio[105]. Canfu'r gwaith ymchwil hefyd fod cyfran gyson uwch o fyfyrwyr symudol yn graddio â gradd 1$^{af}$ o gymharu â'r myfyrwyr nad aethant i deithio ym mhob disgyblaeth heblaw am Feddygaeth a Deintyddiaeth.

9.11 Mae'r manteision yn amlycach fyth i fyfyrwyr sy'n cael eu tangynrychioli o ran symudedd tramor. Cafwyd bod graddedigion o gefndiroedd mwy difreintiedig a fu’n astudio dramor yn ystod eu gradd yn ennill 6.1 y cant yn fwy na'u cymheiriaid nad aethant dramor, ac roedd graddedigion symudol 70 y cant yn llai tebygol o fod yn ddi-waith, ac roedd graddedigion Asiaidd 71 y cant yn llai tebygol o fod yn ddi-waith na'u cymheiriaid nad aethant dramor [106].

9.12 Er bod myfyrwyr sy'n astudio ieithoedd yn fwy tebygol o lawer o fod yn symudol na myfyrwyr unrhyw ddisgyblaeth arall, gwelwyd manteision astudio dramor yn neilliannau cyflogaeth yr holl raddedigion, waeth beth fo'r pwnc[107].

9.13 Mae'r pethau 'anacademaidd' sy'n sbarduno unigolion i astudio dramor yn cynnwys y cyfle i deithio dramor (52 y cant), cael antur unigryw (49 y cant), magu hyder (37 y cant) a gwella eu rhagolygon gyrfaol at y dyfodol (35 y cant) [108].

9.14 Fodd bynnag, pan gofynnwyd i'r myfyrwyr pa ddatganiad yr oeddent yn cytuno fwyaf ag ef o blith - mae astudio dramor 'yn gosod fy CV ar wahân wrth wneud cais am swydd' neu 'yn fy nghyflwyno i ddiwylliannau newydd, yn rhoi hunaniaeth gosmopolitan i fi ac yn caniatáu i mi deithio' roeddent fwyaf tebygol o ddewis yr olaf o'r rhain, sy'n awgrymu hwyrach nad yw'r canfyddiadau am fanteision cyflogadwyedd mor gryf [109]. Wedi dweud hynny, o'r rhai a oedd yn ystyried astudio dramor, neu a oedd wedi astudio dramor, roedd rhwng 70 ac 84 y cant yn teimlo y byddai profiad o astudio dramor yn eu gosod ar y blaen ac yn eu gosod ar wahân wrth ymgeisio am swydd, felly mae myfyrwyr yn deall bod astudio dramor yn gallu effeithio ar eu gyrfa at y dyfodol ond hwyrach nad ydynt yn llwyr ddeall arwyddocâd hynny[110].

**Rhwystrau i astudio dramor**

9.15 Yn rhan o arolwg Cyngor Prydain o 1,873 o fyfyrwyr nad oedd â diddordeb astudio dramor ar hyn o bryd, holwyd y myfyrwyr am y rhwystrau canfyddedig i astudio dramor. Roedd llawer o'r unigolion hyn (47 y cant) am deithio ac archwilio diwylliannau gwahanol, a chwta 20 y cant a ddywedodd nad oeddent am ymadael â'r DU. Roedd rhyw 15 y cant am weithio dros gwmni rhyngwladol a byw dramor[111]. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r rhwystrau oherwydd diffyg diddordeb mynd dramor, ond yn hytrach ffactorau eraill fel diffyg sgiliau iaith dramor (53 y cant) a phryderon y gallai'r rhaglen gradd fod yn rhy anodd (15 y cant) neu y byddai ennill credydau am yr astudiaethau'n achosi problem.

9.16 Damcaniaethir yn aml bod myfyrwyr o'r DU yn dewis peidio ag astudio dramor oherwydd y strwythurau anhyblyg o fewn addysg uwch yn y DU yn nhermau gofynion pynciol ac amseriad yr arholiadau[112]. Er y codwyd y pryderon hyn, roedden nhw'n eilradd i bryderon o gylch galluoedd ieithyddol.

9.17 Clustnodwyd rhai rhwystrau 'anacademaidd' i astudio dramor hefyd. Dywedodd bron i hanner (48 y cant) y rhai a arolygwyd gan Gyngor Prydain a oedd â diddordeb astudio dramor bod cost astudio dramor yn rhwystr, gydag eraill yn poeni nad oedd ganddynt ddigon o hyder yn eu sgiliau iaith (36 y cant), na fyddai modd iddynt gael gofal iechyd o safon (31 y cant) neu na fyddent yn teimlo'n ddiogel mewn gwlad arall[113].

9.18 Gofynnwyd i'r holl fyfyrwyr, waeth a oedd diddordeb ganddynt astudio dramor ai peidio, beth fyddai'n eu cymell ac yn eu hysbrydoli i ystyried cyfnod o astudio dramor. Yr ateb fwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd 'cymorth gyda chyllid', a roddwyd gan 71 y cant, wedyn hyfforddiant mewn iaith dramor (40 y cant). Roedd yr ymatebwyr yn credu hefyd y byddai cyfnod o astudiaeth gorfodol yn rhan o'r cwrs (33 y cant) neu sesiynau rhannu gwybodaeth am fanteision astudio dramor gan fyfyrwyr (30 y cant) neu ddarlithwyr (25 y cant) yn helpu hefyd[114].

9.19 Mae diffyg gwybodaeth yn rhwystr i astudio dramor sy’n codi’n aml, a chafodd arolwg Cyngor Prydain bod yna gysylltiad rhwng gwybodaeth a bod yn agored i'r syniad o astudio dramor. O bell ffordd, y rhyngrwyd oedd y brif ffynhonnell gwybodaeth (71 y cant), gyda'r holl ffynonellau eraill yn cael eu defnyddio ar lefel is o lawer, boed yn deulu (24 y cant), swyddogion astudio dramor (22 y cant), darlithwyr (22 y cant), athrawon (19 y cant) a ffrindiau (19 y cant).

9.20 O ystyried bod mentrau fel y rhaglen Erasmus wedi bod yn rhedeg ers nifer o flynyddoedd, mae'n syndod nodi efallai bod ymwybyddiaeth am gynlluniau astudio dramor dan nawdd y llywodraeth yn isel. Dim ond 35 y cant o'r rhai a oedd eisoes wedi astudio dramor, ac 18 y cant o'r rhai a oedd â dyheadau i astudio dramor a arolygwyd yn rhan o waith ymchwil Cyngor Prydain oedd yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau ariannu, sy'n awgrymu bod yna le i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr am raglenni o'r fath.

**Casgliadau**

9.21 Ystyrir bod symudedd rhyngwladol myfyrwyr yn agwedd allweddol ar ryngwladoli addysg uwch, ac mae'n darparu profiadau sy’n ymgyfoethogi pobl ifanc uchelgeisiol a dawnus. Ystyrir bod symudedd tramor yn darparu

profiadau sy'n newid bywydau myfyrwyr ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau newydd a fydd yn gwella eu rhagolygon gyrfaol.

9.22 Y prif sbardunau i unigolion sydd am dreulio amser yn astudio dramor yw gwella eu rhagolygon gyrfaol a chael profiadau newydd. Er bod diddordeb mewn astudio dramor ar gynnydd, mae yna rwystrau o hyd, a diffyg cyllid a gwybodaeth i hwyluso astudiaeth dramor yw'r prif resymau pam fod y cyfleoedd hyn yn dal i fod y tu hwnt i afael rhai myfyrwyr.

9.23 Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod symudedd tramor yn gallu dwyn manteision i wlad gartref y myfyriwr, ac yn arbennig yn nhermau myfyrwyr yn dychwelyd â gwybodaeth, arbenigedd a chysylltiadau â rhwydweithiau rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r 'effaith luosogi' yma a'r gwir effaith ar economi gwlad cartref y myfyrwyr yn dal i fod yn anecdotaidd i raddau helaeth. Mae yna gydsyniad cyffredinol bod angen cyflawni rhagor o waith ymchwil yn hyn o beth er mwyn deall y tueddiadau a niferoedd y myfyrwyr sy'n dychwelyd i wledydd eu cartref ar ôl astudio dramor, ac a oes yna effaith digon cadarnhaol ar yr economi i wrthbwyso costau uwch astudio pan fo myfyrwyr yn gwneud hynny.

## 10. Safbwyntiau myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar astudio dramor

10.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu safbwyntiau a barn myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd naill ai'n ystyried astudio dramor neu sydd wedi cyflawni astudiaethau llawn amser dramor. Mae'n tynnu ar ganfyddiadau dau grŵp ffocws gydag 13 o fyfyrwyr chweched dosbarth, a chyfweliadau ffôn gyda phum myfyriwr a oedd naill ai wrthi'n astudio dramor neu a oedd eisoes wedi gwneud hynny.

**Cefndir**

10.2 O'r 13 o fyfyrwyr chweched dosbarth a gafodd gyfweliadau, roedd 10 yn dal i ystyried astudio dramor, dau wedi dod i'r casgliad yn ddiweddar eu bod yn debygol o aros yn y DU, ac yn un arall wedi cael cadarnhad am le mewn prifysgol yn y DU ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd saith o'r myfyrwyr yn astudio mewn coleg chweched dosbarth rhyngwladol, a'r chwech arall yn astudio mewn pump ysgol uwchradd gwahanol ar draws y canolbarth, y gorllewin a'r dwyrain (cafodd dau gyfweliad trwy grŵp ffocws, a'r lleill dros y ffôn).

10.3 Roedd pob un o'r pump myfyriwr a gafodd gyfweliadau a oedd yn (neu a oedd wedi) astudio eu gradd gyfan dramor wedi gwneud hynny ym mhrifysgolion yn UDA - dau ym Mhrifysgol Harvard, un ym Mhrifysgol Yale, un yng Ngholeg Skidmore, Efrog Newydd a'r llall yng Ngholeg y Drindod, Connecticut. Roedd pedwar o'r pump wedi astudio mewn ysgol gyfun, ac roedden nhw o bob rhan o Gymru - un o'r gogledd-orllewin, un o'r gogledd-ddwyrain, un o'r de-ddwyrain, un o'r canolbarth ac un arall o'r de-orllewin. Roedd gan ddau o'r myfyrwyr gefndir rhyngwladol - y naill wedi ei eni yn Awstralia, a'r llall yn meddu ar ddinasyddiaeth ddeuol Prydeinig-Ffrengig. Roedd un o'r myfyrwyr yn rhugl yn y Gymraeg.

10.4 Mae hi'n berthnasol nodi y cysylltwyd â thair ysgol arall a dau goleg AB mwy o faint hefyd yn y bwriad o’u cynnwys yn y rhan yma o'r gwaith ymchwil, ond ymatebodd pob un â'r safbwynt nad oedd unrhyw fyfyrwyr ganddynt a oedd yn ystyried astudio dramor ar hyn o bryd. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran y gogledd a'r de-orllewin ac mae'n awgrymu bod y galw i astudio dramor yn isel.

**Y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i astudio dramor**

10.5 Trafododd y myfyrwyr chweched dosbarth a gafodd gyfweliadau sut roeddent am ehangu eu gorwelion a chael blas ar wahanol ddiwylliannau. Pwynt allweddol arall a gododd y myfyrwyr oedd bod y strwythur gwahanol sydd ar gael yn sefydliadau UDA yn benodol yn ddeniadol iddynt. Er bod gan rai o'r myfyrwyr syniad clir beth roeddent am ei astudio dramor (e.e. Peirianneg a Botaneg), roedd eraill wedi dewis prifysgolion yn UDA am nad oedd rhaid iddynt arbenigo mor fuan yn eu gyrfa academaidd ac y gallent hyd yn oed 'godi pynciau roeddwn i wedi rhoi'r gorau iddynt ar ôl TGAU'. Roedd yr holl fyfyrwyr sydd wrthi'n astudio yn UDA ar hyn o bryd wedi cael eu denu gan y syniad o beidio â gorfod canolbwyntio ar (neu arbenigo mewn) un pwnc penodol, ac roeddent yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y system i raddedigion: 'Am nad oeddwn i'n siŵr beth oeddwn i am ei wneud, roeddwn i'n hapus nad oedd angen i mi ddewis pwnc i arbenigo ynddo wrth wneud cais. Roedd pethau penodol yn apelio ataf i... ond hyblygrwydd y cyfan oedd y peth mwyaf deniadol siŵr o fod.' Esboniodd myfyriwr arall sydd wrthi'n astudio dramor bod yna ffocws fwy o lawer ar recriwtio myfyrwyr cyflawn a chytbwys i brifysgolion UDA, ac ychwanegodd y gallai fod yn anodd i fyfyrwyr academaidd cadarn gynllunio ar gyfer y cais os nad oedd ganddynt brofiad o ddiddordebau a phrofiadau tramor.

10.6 Roedd ambell un o'r myfyrwyr AU cyfredol yn teimlo bod sefydliadau yn America i'w gweld yn parchu ac yn rhoi mwy o lawer o ystyriaeth i'r celfyddydau nad yr oedd sefydliadau yn y DU, ac roedd y Celfyddydau Breiniol o ddiddordeb penodol i'r ddau. Roedd yr hyblygrwydd a'r dewis yn apelio at nifer o'r myfyrwyr chweched dosbarth hefyd: 'Yn America... gallwch gadw diddordebau y tu hwnt i'ch prif faes astudio, ond ym Mhrydain, mae hi'n anos o lawer gwneud hynny'.

10.7 Roedd prifysgolion yr Iseldiroedd ac UDA yn amlwg yn apelio at sawl un o'r myfyrwyr chweched dosbarth, oherwydd y ddelwedd yr oeddent wedi ei chael trwy gyflwyniadau yn yr ysgol, er bod gan yr ysgol o dan sylw ragolwg a gwerthoedd rhyngwladol ac roedd y myfyrwyr yn teimlo bod y rhain wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ystyried astudio dramor. Roedd o leiaf tri o'r myfyrwyr wedi cyflwyno cais i Ymddiriedolaeth Sutton. Esboniodd un o'r

myfyrwyr bod sgwrs gan Gennad o Yale yn un o achlysuron Rhwydwaith Seren wedi bod yn ffactor bwysig yn ei benderfyniad i wneud cais am ei bod wedi gwneud yr opsiwn yn fwy deniadol.

10.8 Ffactor arall a chwaraeodd ran wrth gyflunio safbwyntiau'r myfyrwyr ar astudio dramor oedd profiadau ac agweddau eu rhieni. Trafododd rhai o'r myfyrwyr chweched dosbarth ddylanwad eu cefndiroedd amlddiwylliannol a'r ffaith fod gan eu rhieni rolau rhyngwladol ar eu penderfyniadau. Disgrifiodd un myfyriwr sut roedd rhiant a oedd yn treulio llawer o amser yn gweithio yn y Dwyrain Canol wedi sbarduno ei diddordeb mewn teithio i wahanol wledydd ac ehangu ei gorwelion. Ond ar ben arall y sbectrwm, soniodd myfyriwr arall sut roedd natur amddiffynnol rhiant yn eu cymell i fod yn fwy annibynnol ac i chwilio am ddewisiadau astudio ymhellach i ffwrdd: 'Mae angen yr annibyniaeth arnaf i, ac os yw mynd dramor yn helpu i gyflawni hynny, yna mae'n opsiwn'.

10.9 Ategodd rhai o'r myfyrwyr o Gymru sy'n astudio dramor ar hyn o bryd y safbwyntiau hyn o’u profiadau eu hunain. Er iddynt ddweud bod eu penderfyniad i astudio dramor wedi bod yn un personol, rhoddodd sawl un esiamplau o ffrindiau agos a oedd yn astudio dramor hefyd, neu o fod â pherthnasau sy'n byw dramor: 'a oedd yn gwneud y peth ychydig bach yn llai y tu hwnt i'w gafael'.

10.10 Roedd tri o'r myfyrwyr chweched dosbarth yn gwybod na fyddent yn astudio dramor yn y pendraw. Roeddent yn gogwyddo tuag astudio yn y DU am eu bod nhw'n gwybod pa gyrsiau roeddent am eu dilyn ac roedd ganddynt syniad beth roeddent am ei wneud wedyn: 'Fe ystyriais i Ffrainc a'r Iseldiroedd, ond yn y pendraw, roedd y brifysgol, ac yn bwysicach na hynny, y cwrs penodol iawn roeddwn i am ei ddilyn, yn y wlad hon. Mae astudio dramor i'w gweld yn opsiwn i'r bobl hynny nad ydynt yn gwybod yn union beth maent am ei wneud'.

10.11 Roedd un myfyriwr wedi penderfynu'n glir iawn i beidio ag astudio dramor am ei fod yn teimlo bod gan y DU brifysgolion da iawn a oedd yn gallu cynnig popeth roedd ei angen arno. Yn ogystal, roedd ei gynlluniau gyrfaol at y dyfodol wedi cael dylanwad: ‘Un o fy nyheadau yw mynd i fyd

gwleidyddiaeth Cymru, felly bydd eisiau i mi aros yma [yng Nghymru]”. Cyfeiriodd y myfyriwr hefyd at y 'draen dawn' yng Nghymru a bod mynd i brifysgol yn Lloegr hyd yn oed yn 'niweidiol' yn arbennig wrth ystyried y niferoedd isel o bobl sy'n dychwelyd i Gymru i fyw a gweithio. Yn ddiddorol ddigon, mae rhai o'r myfyrwyr am ddilyn cwrs olraddedig dramor o hyd, a byddai'r holl fyfyrwyr yn ystyried astudio rhan o'u gradd dramor pe bai'r opsiwn ar gael yn rhan o'u cyrsiau dethol fel israddedigion.

10.12 Ar y cyfan, nid oedd y myfyrwyr yn teimlo bod yna lawer o alw am astudio dramor ymysg myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Er i sawl un nodi bod gweithgareddau rhwydwaith Seren, a'r cysylltiadau ag Ymddiriedolaeth Sutton yn arbennig, wedi cyfrannu at gynnydd diweddar mewn diddordeb o ran y nifer o fyfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais i astudio dramor, y teimlad oedd bod y niferoedd yn dal i fod yn fach iawn.

10.13 Roedd yr adborth gan fyfyrwyr sy'n astudio yn UDA ar hyn o bryd yn awgrymu bod y mwyafrif o'r myfyrwyr sy'n hanu o'r DU sy'n astudio yn Harvard yn dod o ysgolion preifat. Roedd un myfyriwr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio dramor wir yn credu bod y wybodaeth a'r profiad yn yr ysgolion hyn - sy'n cyflogi person derbyniadau i gynorthwyo'r broses - wedi bod yn ffactor sylweddol yn y tueddiad hwn. Esboniodd un arall sut roedd y broses o wneud cais yn 'hollol wahanol' i UCAS ac nad oeddent wedi cael llawer o wybodaeth gan eu hysgol wrth wneud cais - 'Doedd y Pennaeth Chweched Dosbarth a'r athrawon ddim yn gwybod dim am astudio dramor'. Ar nodyn cadarnhaol, mae'r unigolyn wedi cael gwahoddiad nôl i'r ysgol i drafod ei phrofiadau ers hynny.

**Manteision astudio dramor**

10.14 Roedd y myfyrwyr chweched dosbarth yn gadarnhaol iawn ynghylch y manteision a allai ddod o astudio dramor, gan gynnwys yr hyder y byddent yn ei gael o fod yn annibynnol. Roedd y rhai oedd â diddordeb astudio dramor yn credu y gallai fod mwy o gyfleoedd mewn blynyddoedd diweddarach, ac yn arbennig mewn perthynas â chyflogadwyedd at y dyfodol, ac roedden nhw'n credu y gallai penderfyniad i astudio dramor gael effaith gadarnhaol ar eu henillion yn y dyfodol. Roedd y myfyrwyr yn teimlo y

byddai eu profiad cymharol unigryw yn bwynt gwerthu unigryw a fyddai o gymorth mawr wrth gystadlu yn y farchnad swyddi.

10.15 Fodd bynnag, cyfeiriodd eraill at 'ddraen dawn' wrth drafod rhai o'r ffactorau a oedd yn eu hatal rhag astudio dramor: 'Colled Cymru fyddai hi, ac nid oes unrhyw sicrwydd. Cymaint ag y byddwn ni'n hoffi bod yn optimistaidd a dweud y dylem ni fynd dramor ac y dylwn i ddod nôl, yn siarad drosof i fy hun, ar ôl gadael Cymru i fynd i'r brifysgol, dwi ddim yn credu y byddwn i'n dod nôl yma i setlo am swydd. Rwy'n credu bod hynny'n bennaf oherwydd y cyfleoedd am swyddi sydd yma a 'r ffordd y mae pobl, ac yn enwedig pobl ifanc, yn gweld Cymru yn nhermau gwaith'. Roedd y myfyrwyr a oedd yn astudio dramor i'w gweld yn ansicr ynghylch eu dyheadau gyrfaol at y dyfodol, ond er gwaethaf hynny, roedden nhw'n fodlon y byddai astudio dramor 'yn fy agor i i fyny i'r byd'.

10.16 Esboniodd nifer o'r myfyrwyr sy'n astudio dramor ar hyn o bryd hefyd fod yna agwedd fwy cadarnhaol at swyddi rhan-amser yn UDA o gymharu â rhai o brifysgolion mwy blaenllaw'r DU. Er enghraifft, awgrymwyd bod Prifysgol Harvard yn mynd ati'n ymarferol i annog myfyrwyr i gymryd rolau rhan-amser.

10.17 Ar y cyfan, roedd y myfyrwyr sy'n astudio dramor ar hyn o bryd yn teimlo nad hynny oedd y dewis gorau i bawb, yn enwedig os oedd diddordeb gan y myfyrwyr ddilyn gyrfa ym myd y gyfraith neu feddygaeth, a'u bod am ymarfer yn y DU. Fodd bynnag, roedd yna gonsensws ei bod hi'n bwysig i fyfyrwyr dreulio rhywfaint o amser dramor, boed hynny'n rhan o'u cwrs gradd neu am gyfnod dros yr haf.

10.18 Diddorol oedd nodi i ddau o'r myfyrwyr sydd dramor ar hyn o bryd sôn eu bod wedi gwneud cais (aflwyddiannus) i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen. Er i un ddweud eu bod wedi cael cynigion i astudio yn St Andrews, Durham a Choleg Prifysgol Llundain (UCL), fe ddewison nhw fynd i astudio yn UDA ym Mhrifysgol Harvard yn y pen-draw am eu bod yn cael eu hariannu100 y cant (sef gwerth £250k o gymorth dros bedair blynedd).

**Rhwystrau i astudio dramor**

10.19 Wrth drafod y rhwystrau i astudio dramor, ystyriwyd taw diffyg gwybodaeth am y broses o wneud cais a chostau canfyddedig astudio dramor oedd y ddau brif rwystr. Roedd yna deimlad bod lefel y wybodaeth a oedd yn cael ei darparu gan ysgolion a cholegau'n amrywio'n sylweddol. Ar y cyfan, roedd y bobl a gafodd gyfweliad o'r farn bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth mewn ysgolion, gyda'r myfyrwyr yn esbonio taw ychydig iawn yr oedd Pennaeth eu Chweched Dosbarth a'r athrawon eraill yn ei wybod am y broses o wneud cais am le dramor. Roedd hi'n debyg bod yna rwystrau diwylliannol hefyd, gyda'r ysgolion yn canolbwyntio ar y syniad o fyfyrwyr yn mynychu prifysgolion yng Nghymru a'r DU. Wedi dweud hynny, roedd rhai o'r myfyrwyr wedi codi pytion o wybodaeth o gynhadledd Rhwydwaith Seren. Roedd rhai o'r myfyrwyr mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Sutton hefyd, ac roedden nhw'n dechrau cael gwybodaeth am y broses o wneud cais, ysgolion haf ac ati. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael trwy Ymddiriedolaeth Sutton yn rhoi tawelwch meddwl i rai myfyrwyr o ran y rhwystrau, ac yn arbennig mewn perthynas â chostau astudio dramor.

10.20 Soniodd un myfyriwr ei fod wedi ystyried astudio dramor ond ei fod wedi methu'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Diffyg gwybodaeth am y broses, a'r ffaith fod y prawf mynediad (SATs) ar gyfer y brifysgol dramor o dan sylw yn cyd-daro â'r prawf roedd yn ei sefyll am le yn Rhydychen oedd ei resymau dros fethu'r dyddiad cau. Y diffyg gwybodaeth yma, ynghyd â'r gost o astudio dramor, oedd y prif bethau a'i rwystrodd yn y sefyllfa benodol hon.

10.21 Roedd sawl un o'r myfyrwyr (myfyrwyr chweched dosbarth a rhai tramor) o'r safbwynt y dylid cynorthwyo athrawon fel eu bod yn gallu cynnig y rhestr gyflawn o opsiynau sydd ar gael i'w disgyblion. Soniodd rhai hefyd am y stigma sydd ynghlwm wrth hyd yn oed ystyried astudio dramor, a bod angen gweld newid sylweddol yn niwylliant ysgolion cyn y gallai astudio dramor gael ei ystyried o ddifrif ochr yn ochr ag opsiynau AU yn y DU: 'Does neb yn siarad am y cyfleoedd nôl adra [yng Ngwynedd].'

10.22 Roedd costau posibl astudio dramor yn thema gyffredin yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws, a chodwyd phryderon penodol o gylch costau gofal iechyd yn America. Yn wir, roedd costau gofal iechyd wedi bod yn broblem i'r rhai sy'n astudio dramor. Roedd un myfyriwr wedi cael damwain wrth astudio dramor, a arweiniodd at filiau meddygol am gannoedd o filoedd o ddoleri, er taw'r Brifysgol oedd yn atebol yn yr achos hwn.

10.23 Roedd ansicrwydd dros Brexit yn rwystr arall i fyfyrwyr chweched dosbarth sy'n ystyried astudio dramor ar hyn o bryd: 'O edrych ar Ewrop ar y funud, gydag ansicrwydd y cyfan... mae hi wir yn gwneud i mi deimlo nad ydw i am wneud cais yno, oherwydd yr adeg pan fyddwn ni'n ymadael... i fynd i'r brifysgol fydd tua'r adeg y daw'r holl newidiadau i rym, [mae hynny] wir yn gwneud i mi boeni am y syniad o fynd'.

10.24 Rhwystr arall oedd pryder am fod yn unig, gyda'r syniad o fyw ac astudio mewn gwlad arall am hyd at bedair blynedd yn destun pryder i nifer. Er bod y myfyrwyr am brofi diwylliannau gwahanol, roedden nhw'n cydnabod y byddai angen iddynt dreulio cyfnodau maith oddi cartref heb eu teulu a'u ffrindiau. Roedd rhwystrau ieithyddol a diwylliannol yn llai o bryder, a hynny'n bennaf am fod y mwyafrif am astudio yn UDA. Cododd y rhai a oedd wedi mynd i astudio dramor unigrwydd fel un o'r prif broblemau a gawsant: 'Doeddwn i ddim wedi ystyried y gwahaniaeth amser a'r gallu i bicio adre. Roedd hiraeth a'r gwahaniaeth amser [rhwng lle'r oeddwn i a gartref] yn broblem'.

**Ariannu astudio dramor**

10.25 Ni chododd neb o'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio dramor ar hyn o bryd ariannu astudio dramor fel rhwystr. Gyda'r cynnydd mewn ffioedd i astudio ym mhrifysgolion y DU, awgrymodd rhai ei bod hi'n rhatach hyd yn oed astudio yn UDA. Aeth ambell i fyfyriwr trwy broses ar sail angen i astudio yn UDA lle bu rhaid iddynt lenwi ffurflen helaeth gan roi dadansoddiad ariannol cynhwysfawr o'u sefyllfa (a sefyllfa eu teulu): 'Fe gyflwynais i gais i'r ysgol, gan ddangos gwahanol gyfrifon banc iddynt, a chefais 100 y cant o'r cymorth ariannol.' Bu gofyn i fyfyriwr arall dalu'r rhan fwyaf o'r ffioedd dysgu blynyddol ($73k) ei hun, a thalwyd swm tebyg, yn gyfan bron, i fyfyriwr arall.

10.26 Roedd myfyrwyr Blwyddyn 13 yn ymwybodol o'r cymorth ariannol a allai fod ar gael i bobl sy'n astudio dramor ac mae'n debyg taw'r Iseldiroedd ac UDA oedd yr opsiynau a oedd yn cael ystyriaeth ddifrifol oherwydd yr ysgoloriaethau sydd ar gael. Roedd yna ymwybyddiaeth gadarn fod ffioedd yn yr Iseldiroedd yn is o lawer nag yn y DU ac roedd yna ganfyddiad hefyd y gallai fod yn rhatach astudio yn UDA ar y cyfan. Mae'r cynnydd mewn ffioedd dysgu yn y DU, ac argaeledd cymorth ariannol o ffynonellau eraill, yn gwneud astudio dramor yn opsiwn mwy hyfyw o lawer i lawer o'r myfyrwyr a gafodd gyfweliadau.

10.27 Amcangyfrif y gost o astudio dramor yn unig y gallai myfyrwyr chweched dosbarth eraill, ac nid oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth am ysgoloriaethau posibl, y broses o wneud cais na gofynion yr SAT. Yn gyferbyniol, roedd y myfyrwyr a oedd wedi bod ynghlwm wrth Ymddiriedolaeth Sutton wedi eu calonogi gan y cyfleoedd i astudio yn UDA ac roedd ganddynt fwy o wybodaeth am y broses o ymgeisio a'r ysgoloriaethau sydd ar gael trwy rai prifysgolion. Roedd Rhaglen UDA Ymddiriedolaeth Sutton [115] yn benodol wedi chwarae rhan allweddol wrth gymell dewis o leiaf tri o'r myfyrwyr o Gymru sy'n astudio dramor ar hyn o bryd: 'Fe es i ysgol haf ym Mhrifysgol Yale ac fe gwrddais i â phobl yno.' Daeth hi'n amlwg fod Ymddiriedolaeth Sutton yn darparu gwybodaeth am ddyddiadau allweddol, cyllid a'r broses o wneud cais. Nid oedd y wybodaeth hon ar gael yn hwylus trwy'r ysgolion.

10.28 Ar y cyfan, nid oedd gan fyfyrwyr sy'n astudio dramor ar hyn o bryd ddigon o wybodaeth generig i ddweud a oedd yna unrhyw fylchau yn y cyllid sydd ar gael ai peidio. Wedi dweud hynny, soniodd sawl un am yr angen i deithio i sefyll SATs a'r ffioedd sy’n gysylltiedig â chyflwyno cais. Soniodd un o'r myfyrwyr bod ymgeisio i bum prifysgol yn costio tua £200, ac nad oedd unrhyw foddion ganddynt i dalu'r gost.

10.29 Trafododd y myfyrwyr y gwahanol fathau o ysgoloriaeth hefyd, gan gynnwys ysgoloriaethau sy’n seiliedig ar angen a'r ysgoloriaethau sy'n seiliedig ar deilyngdod (mewn perthynas â dewisiadau i astudio yn America). Soniodd sawl un o'r myfyrwyr y byddent yn ddibynnol ar ysgoloriaeth i hwyluso astudiaethau tramor.

**Casgliadau**

10.30 Mae canfyddiadau'r cyfweliadau hyn â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n gyson ar y cyfan â'r deunyddiau ehangach a adolygwyd. Mae'n awgrymu bod y rhai sydd â diddordeb astudio dramor yn aml yn fyfyrwyr sy'n abl yn academaidd, sy'n dod o gefndiroedd incwm uwch yn aml (er nad yn unig), gyda phrofiad rhyngwladol o fewn y teulu.

10.31 Mae UDA yn gyrchfan poblogaidd i fyfyrwyr sydd am astudio gradd gyfan dramor, ac mae'r amrywiaeth eang o bynciau sy'n cael eu hastudio yn rhan o raglenni gradd i israddedigion yno'n apelio at lawer o fyfyrwyr sy'n ansicr pa bwnc y maent am arbenigo ynddo. Mae'r myfyrwyr sy'n mynd i astudio yn UDA yn gwneud hynny'n bennaf ar sail eu gwaith ymchwil eu hunain, er bod sefydliadau fel Comisiwn Fulbright, ac argaeledd cymorth o'r fath trwy'r rhwydwaith Seren, yn gallu darparu arweiniad ymarferol y mae mawr angen amdano. Mae'r mwyafrif o'r rheiny sy'n mynd ymlaen i astudio dramor yn manteisio ar ysgoloriaethau (naill ai'n seiliedig ar deilyngdod neu'n seiliedig ar angen) sy'n talu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig ag astudio dramor.

## 11. Yr opsiynau ar gyfer Cynllun Peilot Astudio Dramor

11.1 Yn ystod y gwaith maes a gyflawnwyd ar gyfer yr astudiaeth pennu cwmpas yma, trafodwyd ac archwiliwyd nifer o opsiynau ar gyfer cynllun peilot astudio dramor trwy gyfres o gyfweliadau â rhanddeiliaid tramor ac mewn gweithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i bwyso a mesur syniadau a oedd yn dechrau datblygu. Yn y gweithdy, cyflwynwyd canfyddiadau cychwynnol y gwaith ymchwil desg ac ansoddol gyda'r rhanddeiliaid, wedyn trafodwyd y pump opsiwn ar gyfer astudio dramor a gynigiwyd mewn continwwm. Roedd y rhain yn amrywio o opsiwn a fyddai'n gofyn am ychydig iawn o ymyrraeth ariannol i fodel a fyddai'n darparu cyllid cludadwy i astudio gradd gyfan. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r opsiynau hyn wedi eu cywreinio mewn mwy o fanylder, ac yn darparu cefndir a rhesymeg ar gyfer pob un.

11.2 Yn ystod y gwaith maes, cwestiynodd sawl un o'r rhanddeiliaid y rhesymeg y tu ôl i ddatblygu prosiect peilot i ddarparu cyfleoedd astudio dramor ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Er bod y rhanddeiliaid yn ymwybodol ar y cyfan o argymhelliad perthnasol Adolygiad Diamond, cwestiynwyd y sail ar gyfer cyflwyno’r argymhelliad, yn nhermau sut y mae'n cyd-fynd â strategaeth AU Llywodraeth Cymru ac yn nhermau unrhyw dystiolaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd bod yna alw am gymorth i astudio dramor.

11.3 Roedd tri o'r rhanddeiliaid yn teimlo hefyd bod cynyddu symudedd myfyrwyr, ac yn enwedig trwy brofiadau tymor byr, eisoes yn amcan strategol DU-eang y mae sefydliadau AU unigol yn ymateb iddi, ac nad oedd unrhyw fylchau o bwys yn y ddarpariaeth neu'r cyllid.

11.4 Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn cyfaddef y gallai'r sefyllfa fod yn wahanol iawn pe bai Brexit yn effeithio ar allu'r DU i gymryd rhan yng nghynlluniau'r UE, a chwestiynodd sawl un o'r rhanddeiliaid amseriad unrhyw gynllun peilot i astudio dramor felly hefyd, gan ddweud na ddylai unrhyw gynllun peilot o'r fath gael ei roi ar waith nes bod y sefyllfa ehangach o ran cyllid ar gyfer cyfleoedd tramor yn sgil Brexit yn glir.

11.5 Cyfeiriodd dau sefydliad a oedd yn rhanddeiliaid at y risgiau posibl a oedd ynghlwm wrth ariannu unrhyw astudiaethau gradd o bwys dramor, yn nhermau colli cronfa o dalent o Gymru, ac ar lefel fwy ymarferol, colli cyllid o'r seilwaith addysg uwch yng Nghymru a'r DU. Roedd rhyw dri o'r sefydliadau a oedd yn rhanddeiliaid yn credu bod y risgiau sydd ynghlwm wrth ariannu unrhyw astudiaethau llawn amser dramor yn gwrthbwyso'r manteision posibl i Gymru.

11.6 Yn y pen-draw, cododd sawl un o'r rhanddeiliaid y broblem fod angen sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru resymeg glir iawn dros gyflawni cynllun peilot astudio dramor, ac y dylid seilio'r penderfyniadau buddsoddi ar amcanion strategol cadarn: 'Mae angen i ni gytuno i bob pwrpas ar beth y byddai'r cynllun peilot yma'n ceisio’i gyflawni a gweithio oddi yno'. Er y bod y manteision addysgol i'r myfyrwyr o dan sylw yn rhywbeth a oedd yn cael ei gymryd yn ganiataol yn aml, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y dylai unrhyw ymyrraeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ddarparu manteision i Gymru ei hun. Yn hynny o beth, roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn gweld teilyngdod mewn datblygu cynllun peilot astudio dramor sy'n uniongyrchol gysylltiedig â blaenoriaethau economaidd strategol a masnachu rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

11.7 Roedd y rhanddeiliaid yn awyddus iawn i archwilio gwahanol opsiynau ac roeddent yn gyffyrddus i ehangu'r drafodaeth i syniadau am gynlluniau peilot symudedd tymor byrrach yn hytrach na chludadwyedd graddau llawn. Yn ogystal, amlygodd y rhanddeiliaid y ffaith taw ychydig iawn a wyddom yn gyffredinol am symudedd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ac roeddent yn croesawu'r cyfle i ystyried sut y gallai strategaeth AU yng Nghymru gynnal a gwella'r rhagolygon ar gyfer astudio dramor yn y dyfodol. Yn hynny o beth, soniodd pedwar o'r rhanddeiliaid allanol y byddent yn fwy na pharod i weithio gyda Llywodraeth Cymru dros y misoedd nesaf gan gynnig cefnogi a chynghori ar ddatblygiad unrhyw ddulliau arfaethedig o fynd ati i ddatblygu cynlluniau peilot arfaethedig o ran symudedd.

11.8 Wrth ddrafftio'r amrywiol opsiynau, dilynwyd cyfres o egwyddorion, a oedd yn cydnabod yr adborth cyffredinol a gododd o’r gwaith maes:

- Mae'r holl opsiynau'n ymwneud ag **astudiaethau lefel israddedig** yn unig - er bod ambell un o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod yna deilyngdod ariannu cynlluniau olraddedig neu astudiaethau AB, ar y cyfan, mae ffocws yr astudiaeth pennu cwmpas yma wedi ystyried opsiynau ar gyfer astudiaethau i israddedigion yn unig
- Nid yw'r opsiynau'n **gyfyngedig i 'gludadwyedd graddau cyfan’** – er taw dyna yw argymhelliad Adolygiad Diamond, roedd hi'n amlwg iawn o'r adolygiad desg a'r gwaith maes bod opsiynau symudedd byrion yn gallu cyflawni deilliannau pwysig eraill, ac y gallent ddarparu cyfleoedd gwell a mwy cyfartal
- Byddai'r holl opsiynau'n gallu cael eu **hariannu trwy grant neu ysgoloriaeth**, yn hytrach na bod benthyciad myfyriwr yn talu ffioedd dysgu. Mae hyn am nad yw rheoliadau CThEM yn caniatáu i fenthyciadau myfyrwyr gael eu haddasu ar gyfer astudiaethau tramor
- Dylai'r opsiynau ganolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i astudio dramor **trwy gyfrwng y Saesneg**
- Nid yw'r opsiynau **ar gyfer pynciau penodol** – gall unrhyw fyfyriwr sy'n astudio unrhyw ddisgyblaeth wneud cais. Yn achos rhai o'r opsiynau, gallai hyn gynnwys astudiaethau lefel AB ac AU
- Nid yw'r opsiynau’n **seiliedig ar brawf moddion** – byddai'r holl opsiynau'n agored i'r holl fyfyrwyr cymwys. Fodd bynnag, gallai swm y cymorth ariannol a ddarperir amrywio (e.e. gallai fod yn gysylltiedig â swm y grant cynnal y mae'r myfyriwr yn gymwys i'w gael)
- Mae yna hyblygrwydd ar draws sawl un o'r opsiynau i ddatblygu fersiynau cymysg neu i addasu'r opsiynau’n dibynnu ar y ffocws strategol y mae Llywodraeth Cymru am fynd ar ei drywydd.

11.9 Yn seiliedig ar y drafodaeth a gafwyd yn ystod y gweithdy i werthuso'r opsiynau, cywreiniwyd y pump opsiwn peilot graidd ymhellach. Mae'r ffigur isod yn amlinellu'r continwwm o opsiynau a ddatblygwyd ar gyfer cynllun peilot astudio dramor.

**Ffigur 11.1 Continwwm o opsiynau ar gyfer cynllun peilot astudio dramor**




11.10 Amlinellir y pump opsiwn yn fanylach isod:

**Opsiwn 1: Codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd ariannu sy'n bodoli eisoes**

| **Amlinelliad Byr:** | **Codi ymwybyddiaeth am opsiynau ar gyfer astudio dramor a chyfeirio myfyrwyr chweched dosbarth yng Nghymru at gyfleoedd ariannu sydd ar gael eisoes** |
|---|---|
| **Rhesymeg:** | Un o'r rhwystrau allweddol ar hyn o bryd yw diffyg hygyrchedd gwybodaeth am gyfleoedd astudio a'r cyllid sydd ar gael (yn enwedig mewn perthynas ag astudio graddau llawn dramor) |
| **Cynulleidfa Darged:** | Myfyrwyr chweched dosbarth (trwy Rwydwaith Seren) |
| **Hyd:** | d/b |
| **Lleoliad:** | Hybu astudio dramor fel cysyniad.<br>Nid yw hyn yn cau allan unrhyw leoliad astudio, ond gallai ganolbwyntio ar y rhai mwyaf blaenllaw e.e. Prifysgolion Ivy League UDA neu'r 20 SAU Rhyngwladol Uchaf eu Statws |
| **Gweinyddiaeth:** | Rhwydwaith Seren |

11.11 Mae'r astudiaeth desg o lenyddiaeth a'r trafodaethau ansoddol a gyflawnwyd gyda myfyrwyr cyfredol a darpar-fyfyrwyr yn cadarnhau'r angen am ddarparu rhagor o gymorth a gwybodaeth i'r bobl hynny sydd â diddordeb astudio dramor.

11.12 Amlygodd y trafodaethau â myfyrwyr yn benodol sut y dylai cynllun peilot astudio dramor ystyried datblygu'r elfennau canlynol:

- ymwybyddiaeth – mae angen codi lefelau ymwybyddiaeth am y gwahanol gyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio dramor mewn ysgolion ledled Cymru. Yn ôl y myfyrwyr, mae angen newid mewn diwylliant: 'Mae angen i bobl gael gwybod amdano fe [y cyfle]. Mae angen i bobl fynd allan i ysgolion i roi sgyrsiau…er enghraifft'
- amseru – mae angen ystyried pryd y darperir gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr: 'Yn aml, mae'r myfyrwyr yn cael gwybod yn rhy hwyr'. Roedd yna deimlad cyffredinol y dylid darparu gwybodaeth yn ystod TGAU a/neu ym Mlwyddyn 12, gyda'r opsiwn yn cael ei godi yn gynt na hynny hyd yn oed
- cymorth ac arweiniad gyda'r broses o wneud cais - mae'n amlwg fod ar fyfyrwyr angen rhagor o gymorth ac arweiniad ymarferol gyda'r broses o wneud cais gan gynrychiolwyr yr ysgol, gan gynnwys cymorth i basio'r SATs
- ariannu costau ychwanegol – er bod ysgoloriaethau'n aml yn ddigon i dalu costau ffioedd dysgu a/neu gostau byw, ffeindiodd y myfyrwyr eu bod yn talu tua £70 y cais i brifysgolion tramor (ac yn enwedig rhai yn UDA). Mae angen iddynt dalu costau teithio i fynychu SATs mewn unrhyw ddau leoliad yn y DU a thalu am visas hefyd
- myfyrwyr i weithredu fel mentoriaid – er y codwyd darparu rhagor o wybodaeth a chodi ymwybyddiaeth fel amcan at y dyfodol, roedd y myfyrwyr am glywed gan y bobl a oedd wedi cael profiad o astudio dramor eu hunain: 'Mae cenhadon yn bwysig'.

11.13 Mae Rhwydwaith Seren wedi sefydlu trefniant partneriaeth â Rhaglen Ysgolheigion Ifanc Byd Eang Yale (YYGS)[116] yn ddiweddar sy'n cynnig profiad academaidd i fyfyrwyr dawnus o bedwar ban y byd fynychu sesiwn pythefnos o hyd ar gampws Prifysgol Yale yn New Haven (UDA) neu Ganolfan Yale Beijing yn Tsieina. Mae'r rhaglen yn darparu profiad mewn un o saith maes pwnc, gan gynnwys gwyddoniaeth gymhwysol a pheirianneg, materion a diogelwch rhyngwladol, gwleidyddiaeth, y gyfraith ac economeg. Yn rhan o'r trefniant partneriaeth, rhyddhawyd cyfanswm o 11 o leoedd wedi eu hariannu ar y rhaglen ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar gyfer haf 2018 (ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf dethol a bennir gan y rhaglen). Mae hyn wedi cael ei ariannu'n rhannol gan YYGS, Llywodraeth Cymru a nawdd o'r sector preifat. Mae pob myfyriwr llwyddiannus yn elwa ar becyn ariannol gwerth £6k sy'n cwmpasu ffioedd y rhaglen a chostau llety a theithio. Daeth rhyw drideg o geisiadau i law ar draws yr holl ardaloedd hyb Seren ond un yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen. Mae hyn yn awgrymu y gallai cyfleoedd o'r fath gynhyrchu mwy o ddiddordeb mewn astudio dramor. Fodd bynnag, nid oes modd gwybod ar hyn o bryd a fyddai profiadau o'r fath yn arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau i astudio dramor nac a fyddai ceisiadau o'r fath yn llwyddiannus ai peidio yn y pendraw.

11.14 Nododd un rhanddeiliaid sut ei bod hi'n hanfodol alinio’r cynllun peilot â rhwydwaith Seren am taw un o amcanion hanfodol Seren yw codi dyheadau ac ehangu gorwelion, a bod ganddo'r strwythurau priodol i wneud hynny hefyd. Fodd bynnag, mae Rhwydwaith Seren yn gweithio gyda myfyrwyr penodol, sef myfyrwyr mwyaf academaidd dawnus Cymru, felly mae'n bosibl y bydd yna broblemau o gylch mynediad cyfartal a chydraddoldeb y byddai angen eu hystyried. Fodd bynnag, mae Seren yn cael ei dargedu ar sail gallu yn hytrach na chefndir.

11.15 Yr opsiwn cyntaf ar gyfer cynllun peilot felly fyddai sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer ysgolion yn uniongyrchol a thrwy rwydwaith Seren er mwyn gwella gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am gyfleoedd astudio dramor sy'n bodoli eisoes. Gallai hynny gynnwys cyfres o siaradwyr, digwyddiadau a mecanweithiau cymorth (digidol neu fel arall) a fyddai’n caniatáu i fyfyrwyr sydd â diddordeb astudio dramor gyrchu'r wybodaeth

angenrheidiol mewn ffordd amserol. Gallai'r opsiwn yma gynnwys cronfa fechan i dalu'r costau ymarferol sy'n gysylltiedig â pharatoi ceisiadau ar gyfer astudio dramor fel hyn. Wrth ddilyn y dull hwn o weithredu, awgrymodd un rhanddeiliaid y dylai ganolbwyntio ar nifer fechan o'r prifysgolion mwyaf eu bri yn y byd (e.e. 20 prifysgol gorau'r byd).

**Opsiwn 2: Model Astudio Tymor Byr**

| **Amlinelliad Byr:** | **Darparu ysgoloriaeth i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ddilyn astudiaethau tymor byr (llai na 3 mis) dramor i ariannu eu costau byw** |
|---|---|
| **Rhesymeg:** | Cynnal targed y Strategaeth Symudedd Rhyngwladol DU-eang i gynyddu symudedd tramor<br>Mae'r gost isel y pen yn caniatáu ar gyfer dyfarnu nifer o grantiau<br>Mae'n ymateb i'r bwlch cyfredol mewn cymorth ariannol |
| **Cynulleidfa Darged:** | Unrhyw fyfyriwr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio ar lefel israddedig mewn SAU yn y DU |
| **Hyd:** | Hyd at dri mis yn astudio/gwirfoddoli/cyflawni profiad gwaith dramor |
| **Lleoliad:** | Unrhyw leoliad yn y byd (yn dibynnu ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru) |
| **Gweinyddiaeth:** | Cyngor Prydain?<br>Baich gweinyddol cymharol isel.<br>Dim materion llywodraethu/sicrwydd ansawdd o bwys |

11.16 Ar y cyfan, roedd sector y prifysgolion yng Nghymru a'r tu hwnt yn croesawu'r opsiwn i gyflwyno cynllun peilot symudedd tramor cyhyd ag y byddai'n darparu manteision amlwg i annog mwy o fyfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd tlotach i gyflawni astudiaethau tramor yn rhan o'u cwrs AU. Yn hynny o beth, roedd yna deimlad cryf y dylai'r cynllun peilot astudiaethau tramor fod yn ehangach ei gwmpas na'r hyn a argymhellwyd yn Adolygiad Diamond, ac mae'r opsiwn yma'n darparu ar gyfer y safbwynt yma.

11.17 Roedd y sector prifysgolion yn dueddol o ddadlau y gallai cynllun peilot tramor helpu i gyflawni targed y DU i gynyddu symudedd tramor. Yn hynny o beth, awgrymwyd y byddai symiau llai o gyllid, am gyfnodau llai, yn darparu gwell elw ar fuddsoddiad a byddai'n cynorthwyo nifer fwy o fyfyrwyr. Roedd

hi'n llai tebygol hefyd o gau allan myfyrwyr difreintiedig (er na fyddai angen prawf moddion ar gyfer cynllun o'r fath) yn am fod y gwaith ymchwil desg yn dangos yn glir bod cyfnodau astudio dramor byrrach yn fwy tebygol o ddenu sylfaen fwy amrywiol o fyfyrwyr i wneud cais.

11.18 Ni fyddai angen i'r opsiwn yma gyfyngu ar y cyllid ar sail unrhyw fath penodol o gyrchfan - am nad yw'r wlad neu'r sefydliad astudio yn effeithio ar y deilliannau y mae'r myfyrwyr sy'n teithio dramor yn eu cyflawni yn ôl y gwaith ymchwil. Fodd bynnag, gallai cynllun penodol ar gyfer cyrchfannau penodol o bwys strategol i Lywodraeth Cymru fod yn addasiad o'r dull hwn o weithredu.

11.19 Roedd y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio dramor ar hyn o bryd yn rhyfeddol o gadarnhaol ynghylch opsiwn o'r math yma. Er eu bod yn credu bod astudio dramor llawn amser o ddiddordeb i garfan fechan o fyfyrwyr yn unig, roeddent yn teimlo y byddai yna ddiddordeb aruthrol mewn astudio dramor am gyfnod byrrach.

11.20 Gellid cyflawni opsiwn o'r math yma mewn nifer o ffyrdd. Gallai fod yn gronfa i gynorthwyo rhaglenni cyfnewid sy'n bodoli eisoes y gallai myfyrwyr, neu sefydliadau ymgeisio amdanynt yn uniongyrchol, neu gallai fod yn rhaglen â chylch gorchwyl mwy penodol (yn debyg i'r cynllun Study USA y mae Cyngor Prydain yn ei ddarparu yng Ngogledd Iwerddon er enghraifft), i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a busnes at y dyfodol trwy gyrchu cyrsiau penodol, neu trwy gyfyngu'r cynllun i wlad neu ardal benodol lle mae Cymru am feithrin cysylltiadau penodol (fel trwy'r cynllun Cymru Fyd-eang neu fersiwn o ddull gweithredu Generation UK-China).

11.21 Gallai myfyrwyr sy'n astudio ar lefel AB neu AU fod yr un mor gymwys â’i gilydd ar gyfer opsiwn symudedd tymor byr fel hyn, ac roedd rhai rhanddeiliaid yn croesawu hynny.

**Opsiwn 3: Model Partneriaethau Strategol**

| **Amlinelliad Byr:** | **Darparu ysgoloriaeth i alluogi myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio rhan o'u cwrs mewn Prifysgol dramor mewn partneriaeth strategol â SAU yng Nghymru.** |
|---|---|
| **Rhesymeg:** | Adeiladu ar y partneriaethau strategol cyfredol sydd eisoes yn bodoli rhwng SAU yng Nghymru a Phrifysgolion allweddol dramor. |
| **Cynulleidfa Darged:** | Unrhyw fyfyriwr (sy'n hanu o Gymru) sy'n astudio mewn SAU yng Nghymru sydd am astudio rhai modiwlau dramor. |
| **Hyd:** | O leiaf un semester o astudio.<br><br>Gallai hyn gynnwys opsiynau ar sail lleoliad blwyddyn/blwyddyn ryngosod. |
| **Lleoliad:** | (e.e.) Prifysgol Abertawe a Phrifysgolion yn Texas, UDA<br><br>neu Brifysgol Xiamen, Tsieina a Phrifysgol Caerdydd |
| **Gweinyddiaeth:** | Darparu cyllid yn uniongyrchol i'r SAU sy'n chwarae rhan yn y cynllun peilot.<br>Nid odd unrhyw faterion llywodraethu a sicrwydd ansawdd o bwys am y dylai'r SAU 'cartref' sicrhau cysondeb â'u gofynion/gweithdrefnau cyfredol. |

11.22 Mae yna deilyngdod adeiladu ar y trefniadau sydd gan brifysgolion Cymreig â SAU rhyngwladol eisoes, ac o ganlyniad, roedd llawer o’r rhanddeiliaid yn cefnogi'r opsiwn yma. Mewn sawl achos, mae’r partneriaethau strategol sydd eisoes ar waith mewn ardaloedd sydd o ddiddordeb economaidd a masnachol i Gymru. Esboniodd y prifysgolion fod gwaith ymchwil ar y cyd a chyfnewid staff eisoes yn digwydd gyda'r cynghreiriau strategol hyn, ond bod yna lai o ffocws ar gyfnewid myfyrwyr yn aml. Y tu hwnt i Ewrop, mae symudedd tramor yn dibynnu i raddau helaeth ar fyfyrwyr yn cyrchu cyllid prifysgol, sy'n sefyllfa sydd ychydig bach anghyfartal ar draws SAU Cymru lle mae'r prifysgolion mwy, a mwy cyfoethog, sydd â phersbectif mwy rhyngwladol yn fwy tebygol o hybu a chefnogi symudedd tramor na Phrifysgolion eraill yng Nghymru.

11.23 Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod hwyluso'r cynghreiriau hyn rhwng SAU Cymreig a Phrifysgolion o safon uchel dramor yn ddatblygiad cadarnhaol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Darparwyd sawl esiampl o berthnasau a

allai gael eu hehangu. Mae gan Brifysgol Caerdydd ddwy 'brif bartneriaeth'. Mae'r naill gyda Phrifysgol Xiamen yn Tsieina, ac mae'r bartneriaeth hon (a ddeilliodd yn wreiddiol o gynllun gefeillio Dinas Caerdydd) bellach yn cynnwys gwaith ymchwil gwyddonol a busnes, goruchwylio myfyrwyr doethuriaeth ar y cyd ac elfennau o hybu cysylltiadau masnach rhwng Tsieina a Chymru. Yn yr un modd mae yna bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Leuven yng Ngwlad Belg, sy'n cynnwys cydweithio ffurfiol ar waith ymchwil. Mae gan Brifysgol Abertawe drefniadau tebyg â nifer o Brifysgolion yn Texas, UDA. Dywedodd un o'r rhanddeiliaid 'rydyn ni'n ei chael hi'n anodd weithiau cysylltu'r dotiau rhwng [cydweithio ar waith ymchwil rhyngwladol] a symudedd' ac roedd yna deimlad y gellid gwneud rhagor i adeiladu ar hyn.

11.24 Mae gan SAU yng Nghymru nifer o gytundebau cyfnewid hefyd, y mae rhai ohonynt yn cydblethu i'r partneriaethau strategol ac eraill ddim. Er enghraifft, mae gan Brifysgol Aberystwyth gysylltiadau cyfnewid â dros 100 i sefydliadau ar draws Ewrop, a rhyw 100 arall ar draws y byd. Prif ffocws gweithgarwch symudedd tramor Aberystwyth (y tu hwnt i Ewrop) yw UDA, gyda sefydliadau â chysylltiadau Cymreig cadarn, fel Bryn Mawr yn Philadelphia a Phrifysgol Rio Grande (gartref Canolfan astudiaethau Cymreig Madog) yn Ohio o bwys arbennig.

11.25 Diddorol oedd nodi bod rhanddeiliaid SAU Cymru o'r farn 'nad oedd' myfyrwyr sy'n hanu o Gymru 'yn arbennig o ddewr' wrth ystyried astudio dramor, ac nid oeddent yn dueddol o ddewis gwledydd a oedd yn wahanol iawn o ran eu diwylliant, fel Tsieina. Roedd cynrychiolwyr yr SAU yng Nghymru a gafodd gyfweliadau yn y rhan o’r gwaith ymchwil yma oll yn gweld teilyngdod mewn cynllun peilot a oedd yn gweithio gyda SAU Cymru i hybu symudedd rhyngwladol y tu hwnt i Ewrop, a byddent yn hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu’r syniadau hyn ymhellach. Ystyrir taw cyllid ar gyfer astudiaethau tymor byrrach, profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli fyddai'n fwyaf defnyddiol 'am nad oes unrhyw gyllid ar gael ar hyn o bryd' ac am fod cyfnodau byrrach o symudedd yn fwy hygyrch i fyfyrwyr o grwpiau cymdeithasol-economaidd is sy'n llai tebygol o gymryd rhan mewn profiadau symudedd rhyngwladol. Fodd bynnag, gwnaed y sylw

hwn ar sail y rhagdybiaeth y byddai Erasmus+ yn dal i fod ar gael i ddarparu ar gyfer lleoliadau hirach.

11.26 Un testun pryder a gododd y rhanddeiliaid oedd y byddai cynllun peilot sy'n gyfyngedig i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac yn astudio yn SAU yng Nghymru’n annheg i fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU sy'n astudio yng Nghymru, a dadleuwyd y byddai hi’r un mor annheg hepgor myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion yn Lloegr rhag bod yn gymwys ar gyfer cynlluniau tebyg sy'n gweithredu yn Lloegr. Fodd bynnag, dywedodd rhanddeiliad arall, pan oedd cynlluniau astudio dramor yn cael eu cynnig gan eu Prifysgol, bod eu myfyrwyr rhyngwladol cyfredol yn fwy tebygol o lawer o fanteisio ar y cyfleoedd na'u cymheiriaid sy'n hanu o'r DU. Nododd un rhanddeiliad y dylai unrhyw gynllun peilot o'r math hwn fod yn rhywbeth i Gymru gyfan ac na ddylai fod yna ffocws ar sefydliadau i ariannu symudedd tramor, er mwyn gwneud symudedd rhyngwladol yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o fyfyrwyr ar draws holl SAU Cymru.

11.27 Roedd yna deimlad cyffredinol bod gan gynllun peilot ar sail opsiwn yma (neu opsiwn 2) y posibilrwydd o alluogi Llywodraeth Cymru i gyfleu 'neges wirioneddol bositif' am symudedd rhyngwladol i fyfyrwyr ac i sefydliadau, ac y byddai hyn yn ategu'r neges bod 'arnom angen pobl ifanc a graddedigion allblyg' i adeiladu economi Cymru.

11.28 Mantais arall i'r opsiwn yma sy'n ei gwneud hi’n ddewis deniadol a hyfyw i randdeiliaid oedd y dylai materion sicrwydd ansawdd a llywodraethu eisoes fod wedi cael eu datrys i ryw raddau oherwydd y perthnasau sy'n bodoli eisoes.

**Opsiwn 4: Model Cysylltiadau Masnach**

| **Amlinelliad Byr:** | **Darparu ysgoloriaeth i alluogi myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio dramor am flwyddyn mewn SAU mewn ardal o bwys masnachol economaidd i Gymru.** |
|---|---|
| **Rhesymeg:** | Manteisio ar economïau sydd ar dwf; neu gryfhau perthnasau rhwng meysydd allweddol o bwys strategol i economi Cymru. |
| **Cynulleidfa Darged:** | Unrhyw fyfyriwr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio ar lefel israddedig mewn SAU yn y DU<br>Cost gymharol uchel y pen felly byddai'n ariannu hyd at 15 myfyriwr y flwyddyn ar y mwyaf? |
| **Hyd:** | Cynllun blwyddyn rhyngosod neu 'flwyddyn allan' (un flwyddyn) |
| **Lleoliad:** | 3-4 sefydliad SAU mewn lleoliadau o bwys strategol rhyngwladol i Gymru yn Ewrop o ran masnach a buddsoddiad (e.e. yr Almaen) rhanbarthau penodol dramor (e.e. Chicago, UDA) neu wledydd penodol dramor e.e. Canada, Tsieina |
| **Gweinyddiaeth:** | Yn dibynnu ar flaenoriaethau strategol ond gallai gysylltu â'r cynllun Cymru Fyd-eang (a weinyddir gan Gyngor Prydain) neu Gomisiwn Fulbright (os yw'n canolbwyntio ar America).<br>Gallai fod yn bartneriaeth ddwy ffordd gyda'r SAU o dan sylw tramor. |

11.29 Neges a gododd yn gyson yn ystod ein gwaith maes oedd bod yna deilyngdod a rhesymeg glir i bennu ffocws y cynllun peilot er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i astudio a gweithredu fel cenhadon i Gymru mewn gwledydd sy'n alinio'n dda â blaenoriaethau economaidd a strategol Llywodraeth Cymru.

11.30 Amlygodd un rhanddeiliaid sut roedd cynllun gweithredu economaidd Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, wedi newid y ffocws o fod yn ffocws sectoraidd yn nhermau datblygu economaidd, a bod angen i'w ddeilliannau mewn perthynas ag addysg uwch adlewyrchu hynny hefyd. Soniwyd am ranbarthau o bwys rhyngwladol fel Gogledd America, Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia fel ardaloedd blaenoriaeth, soniodd sawl un o'r rhanddeiliaid am yr Almaen a Ffrainc fel marchnadoedd allweddol yn Ewrop, ac awgrymwyd America (rhanbarth Chicago yn benodol), Canada, Qatar,

Tsieina a Fietnam fel gwledydd lle mae gwaith yn cael ei wneud i feithrin a chyfoethogi perthnasau ar hyn o bryd.

11.31 Soniodd nifer o randdeiliaid hefyd sut y dylai unrhyw opsiwn i gyflawni cynllun peilot gysylltu â'r ardaloedd lle mae gan Gymru swyddfeydd rhyngwladol eisoes neu lle mae'n bwriadu agor rhai newydd, a hynny'n seiliedig ar asesiad sy'n dangos eu bod yn ardaloedd o gyfle economaidd i fusnesau Cymreig. Mae'r cynllun gweithredu Ffyniant i Bawb yn nodi y dylid agor swyddfeydd yng Nghanada, yr Almaen, Ffrainc a Quatar yn 2018, ac y caiff adnoddau eu dyrannu i 'farchnadoedd cyfredol a newydd'[117] lle mae yna bosibiliadau ar gyfer cyfleoedd. Yn hynny o beth, byddai'r opsiwn yma'n cyplysu symudedd tramor â chysylltiadau economaidd Cymru yn nhermau buddsoddiadau tramor.

11.32 Awgrymodd o leiaf tri rhanddeiliaid gysylltu cynllun peilot â gwaith partneriaeth cyfredol Cymru Fyd-eang rhwng Cyngor Prydain yng Nghymru, Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru a CCAUC. Awgrymodd rhanddeiliaid eraill y gallai cynllun peilot alinio â chynlluniau fel Generation UK-China, o waith Cyngor Prydain.

11.33 Roedd un neu ddau o'r randdeiliaid yn teimlo y gallai'r opsiwn yma weithio fel model cystadleuol pe bai nifer y myfyrwyr â diddordeb yn rhagori ar yr adnoddau a ddyrannwyd. Yn hynny o beth, gellid defnyddio dull gweithredu tebyg i gynllun Study USA Gogledd Iwerddon, lle gellid cymryd canlyniadau cyfartalog blwyddyn gyntaf astudiaethau israddedigion i ystyriaeth er mwyn darparu 'torbwynt' ar gyfer cymorth ariannol.

11.34 Roedd llawer o randdeiliaid yn gweld budd mewn archwilio model a oedd yn gymysgedd o Opsiwn 3 ac Opsiwn 4, a allai ganolbwyntio ar y gwledydd blaenoriaeth economaidd o bwys i Gymru, ond gan fabwysiadu'r dull cyflawni a amlinellir yn opsiwn 3.

**Opsiwn 5: Model cludadwyedd graddau cyfan**

| Amlinelliad Byr: | Darparu cludadwyedd o ran cyllid (grantiau cynnal/ benthyciadau) i astudio graddau cyfan dramor |
|---|---|
| Rhesymeg: | Mae'n ymateb yn fwy uniongyrchol i argymhellion Adolygiad Diamond (yn enwedig os yw'r sefydliadau y tu hwnt i'r UE) |
| Cynulleidfa Darged: | Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd am astudio gradd gyfan dramor |
| Hyd: | 3-4 blwyddyn (yn dibynnu ar hyd yr astudiaethau israddedig yn y wlad dramor) |
| Lleoliad: | Byddai ffocws y cynllun peilot ar 3-4 o Brifysgolion a ariennir ag arian cyhoeddus (i'w clustnodi) mewn rhanbarthau/gwledydd o bwys strategol i Gymru.<br>Dewis lleoliadau â ffioedd dysgu isel/dim ffioedd dysgu. |
| Gweinyddiaeth: | Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr?<br>Comisiwn Fulbright (os yw'r ffocws ar UDA)?<br>Byddai cysylltiad uniongyrchol â'r sefydliad sy'n cymryd rhan yn darparu sicrwydd oherwydd y niferoedd isel |

11.35 Mae'r opsiwn olaf yma'n seiliedig ar drefniant tebyg i'r hyn y sydd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer ei gynllun peilot cludadwyedd. Am taw cynllun peilot fyddai hwn, byddai'r lleoliadau/sefydliadau'n gyfyngedig, ond cai cludadwyedd cyllid llawn ei gynnig yn hyn o beth yn yr un modd â'r grant cynnal ar gyfer astudio yn y DU.

11.36 Er taw'r opsiwn yma sy'n ymateb agosaf at argymhelliad Adolygiad Diamond, hwn oedd yr un a gwestiynwyd yn nhermau pa mor ymarferol y byddai, ei gyfyngiadau a'i gost. Cwestiynodd nifer o randdeiliaid yr angen am ariannu opsiynau gradd gyfan i fyfyrwyr dramor, ac roeddent yn teimlo y câi'r opsiwn yma ei fwydo gan y budd i'r myfyrwyr unigol yn hytrach na darparu budd i Gymru a'i heconomi. Roedd eraill yn cwestiynu gweinyddiaeth yr opsiwn yma gan ddweud y byddai ar y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, fel

gweinyddwr amlwg cynllun o'r fath, angen amser hir i baratoi ar gyfer rhoi'r prosesau a'r gweithdrefnau priodol ar waith.

11.37 Byddai angen gweithredu'r cynllun fel grant neu ddyfarniad bwrsariaeth o gymryd y cyfyngiadau ar ryddhau benthyciadau myfyrwyr i fyfyrwyr dramor. Ni fyddai modd talu ffioedd dysgu chwaith, oherwydd rheoliadau Trysorlys y DU, felly byddai hynny'n lleihau'r opsiynau yn nhermau lleoliadau (yn yr un modd â model yr Alban) i wledydd â ffioedd dysgu isel neu dim ffioedd dysgu. Byddai sawl gwlad Ewropeaidd yn gyson â model o'r fath ar hyn o bryd, ond eto, mae'r ansicrwydd o gylch Brexit, ac effaith bosibl hynny yn ystod cyfnod peilot tair blynedd o hyd, yn destun pryder hefyd.

11.38 I wrthbwyso pryderon am golli dawn o Gymru i wledydd eraill, awgrymodd un rhanddeiliad y dylai'r cynllun peilot fabwysiadu rhai meini prawf o gylch 'annog myfyrwyr i ddychwelyd i Gymru i weithio wedyn', gan edrych hyd yn oed ar ddenu cefnogaeth rhai cyflogwyr allweddol â chysylltiadau â lleoliadau penodol a allai gynnig rôl i'r myfyrwyr nôl yng Nghymru ar ôl cwblhau gradd dramor.

11.39 Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y byddai angen i'r sefydliadau AU sy'n chwarae rhan mewn cynllun peilot o'r fath fod yn flaenllaw ac yn uchel eu statws, a phetai cynllun yn edrych ar yr 20 uchaf neu'r 50 uchaf mewn unrhyw ganllaw rhyngwladol diweddar ar statws prifysgolion, y byddai hynny'n llywio'r opsiwn yma i ystyried UDA dros unrhyw ardal arall. Er enghraifft mae Rhestr Prifysgolion y Byd y Times ar gyfer 2015/16 yn pennu bod 14 o 20 prifysgol gorau'r byd yn UDA, (dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r lleill sydd yn yr 20 uchaf yn y DU). Gallai'r dull hwn o fynd ati fod yn ddeniadol o safbwynt hyrwyddo, gyda Llywodraeth Cymru'n cefnogi nifer fechan o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio ym mhrifysgolion gorau'r byd.

11.40 Pe bai cynllun peilot o'r fath yn cael ei ystyried o dan Opsiwn 5, gyda ffocws ar UDA, awgrymodd un rhanddeiliaid y gallai cynllun a allai ddarparu cyllid ychwanegol gyfoethogi (a throsoli) y cyllid sydd ar gael ar gyfer astudio yn y UDA yn gyffredinol, ac na fyddai angen talu'r holl gostau o reidrwydd. Byddai'n ddoeth i'r gronfa gael ei rhyddhau i'r ymgeiswyr hynny sy'n hanu o Gymru sy'n gwneud cais i sefydliadau 'ar sail angen' yn UDA, fel y dywedodd

un rhanddeiliad 'os gall myfyriwr ddweud ‘galla'i ddod â £10k i'r bwrdd' wrth wneud cais, yna mae’n cynyddu ei gyfleoedd i gael lle mewn prifysgol yn UDA'. Mae yna deilyngdod felly cynnig swm sylweddol o gyllid i bob myfyriwr, a fyddai'n ddigon i wneud gwahaniaeth yn nhermau llwyddiant eu cais, ond a fyddai hefyd yn sicrhau y gellid cefnogi carfan weddol o faint o fyfyrwyr (tua 8-10) mewn unrhyw flwyddyn benodol.

## 12. Casgliadau ac Argymhellion

12.1 Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd i gynorthwyo datblygiad cynllun peilot Astudio Dramor wedi mynd â ni ar hyd llwybr digon annisgwyl, ac mae ffocws rhai o'r opsiynau a ddarparwyd yn adlewyrchu'r siwrnai yna.

12.2 Trwy edrych ar y patrymau cyfredol o ran myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio dramor, gallwn ddod i'r casgliad bod y niferoedd yn isel ar y cyfan. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n llai tebygol na'u cymheiriaid yn y DU, ac yn sicr yn llai tebygol na myfyrwyr Ewropeaidd neu ryngwladol yn gyffredinol, o gyflawni astudiaethau tramor. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, hyd yn oed pan fo myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n astudio dramor, maent yn gwneud hynny am gyfnod byrrach, a hynny mewn gwledydd sydd naill ai'n gymharol agos i gartref (yn Ewrop) neu mewn gwledydd pellach sy'n rhannu diwylliant tebyg (UDA ac Awstralia). Yn ddealladwy ddigon, mae cyrchu darpariaeth trwy gyfrwng y Saesneg yn chwarae rhan wrth benderfynu ar leoliadau tramor.

12.3 Wrth gymryd i ystyriaeth y ffaith fod y gwaith ymchwil i nodweddion myfyrwyr sy'n dewis astudio dramor yn dangos bod unigolion sydd wedi cael eu haddysg mewn ysgolion annibynnol, a'r rhai o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd uwch, yn fwy tebygol o astudio dramor, nid yw'n syndod bod Cymru'n cael ei thangynrychioli ac er ei bod hi'n amhosibl mesur y gwir alw a'r galw cudd yma, mae hi'n sicr yn isel iawn.

12.4 Neges fwy annisgwyl efallai yw ei bod hi wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ystod yr astudiaeth pennu cwmpas yma bod y rhesymeg dros ystyried astudiaethau tramor fel elfen o brofiad myfyriwr wrth astudio ar gyfer gradd israddedig - boed hynny am gyfnod byr neu trwy gydol y cyfnod – yn wahanol o bersbectif y llywodraeth na'r unigolyn.

12.5 Y manteision i'r unigolyn yw hybu cyflogadwyedd at y dyfodol a chael profiadau newydd, ond nid yw hyn o reidrwydd yn trosi yn fanteision uniongyrchol i economi Cymru. Yn wir, mae yna ryw ddadl bod myfyrwyr sy'n teithio fel hyn (ac yn enwedig y rhai sy'n astudio dramor am gyfnodau hirach) yn fwy tebygol o gael effaith gadarnhaol ar economi ac arloesedd y wlad y maent yn teithio iddi, ac maent yn fwy tebygol o barhau â'u golwg byd-eang

wrth ystyried gyrfaoedd fel graddedigion yn y dyfodol. Dadleuwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i roi hwb i gyflogadwyedd at y dyfodol a manteisio i'r eithaf ar ddyheadau unigolion, dim ots a ydynt nhw'n byw ac yn gweithio yng Nghymru neu beidio.

12.6 Nid yw'n annisgwyl felly taw'r rhesymeg y tu ôl i bron bob un o'r rhaglenni ysgoloriaeth ar gyfer astudiaethau tramor a ariennir gan lywodraethau a astudiwyd yn rhan o'r astudiaeth hon, oedd cynorthwyo astudiaethau tymor byr (blwyddyn neu lai), a'u bod yn aml yn gysylltiedig â blaenoriaethau economaidd clir - naill ai i feithrin capasiti dynol o ran dawn israddedigion, i fanteisio ar economïau sydd ar dwf neu i gryfhau cydweithredu diwylliannol neu bartneriaethau economaidd strategol.

12.7 Yn nhermau'r rhwystrau, mae dau fater penodol yn amlwg iawn. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag ariannu profiadau symudedd tramor. Mae'r ail yn ymwneud â chasglu gwybodaeth amserol, gywir ac ysbrydoledig i sbarduno diddordeb a galluogi'r unigolyn i gamu i'r dirgelwch.

12.8 Mae'r gwaith ymchwil wedi dangos bod yna nifer o safbwyntiau croes ar beth y dylai, a beth y gallai cynllun peilot astudio dramor geisio ei gyflawni, ond mae yna gydsyniad i bob pwrpas bod angen i unrhyw ddull o weithredu fod yn ehangach nag argymhelliad gwreiddiol Adolygiad Diamond a sbardunodd yr astudiaeth yn y lle cyntaf.

12.9 O ganlyniad i ganfyddiadau'r astudiaeth pennu cwmpas yma, rydym felly'n cyflwyno'r argymhellion canlynol:

**Argymhelliad 1**

Wrth ddatblygu cynllun peilot astudio dramor, dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod y model yn agor y drws ar gyfleoedd i'r holl fyfyrwyr cyfredol sy'n hanu o Gymru. O ganlyniad, dylid pennu cyfleoedd ariannu ar gyfer astudiaethau tymor byrrach fel prif ffocws unrhyw ymyrraeth.

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru geisio datblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer ei gweithgareddau symudedd tramor gyda'r nod o gysylltu 'Cymru â'r Byd'. Dylai'r strategaeth hon fynegi'n glir y rhesymeg dros unrhyw weithgarwch o'r

fath a chysylltu â blaenoriaethau addysgol a datblygu economaidd perthnasol Llywodraeth Cymru. Dylai'r strategaeth bennu targedau penodol hefyd o ran y gyfran o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n cael profiad o astudio dramor, i fod yn gyson â dull gweithredu'r DU a'r UE. Bydd hyn yn hanfodol wrth sicrhau y gellir gwerthuso unrhyw opsiynau ar gyfer astudio dramor sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn erbyn nodau ac amcanion strategol clir a'r deilliannau disgwyliedig.

**Argymhelliad 3**

Er ei bod hi'n bwysig bod unrhyw gynlluniau peilot yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru, mae angen pwyllo yn hyn o beth am fod meysydd diddordeb strategol Llywodraeth Cymru dramor yn gallu newid dros amser. Dylai'r cynllun peilot ganolbwyntio felly ar feysydd sy'n debygol o aros o bwys sylweddol dros y degawd nesaf er mwyn cadw’r ymyraethau ariannol yn berthnasol.

**Argymhelliad 4**

Dylid sefydlu gweithgor bychan i gynnwys Cyngor Prydain, CCAUC, SAU Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru (o'r adrannau AU a datblygu economaidd) er mwyn pennu cwmpas y strategaeth a'r ymyraethau ariannol a fydd yn sail ar gyfer astudio dramor.

**Argymhelliad 5**

Dylai Llywodraeth Cymru geisio cynorthwyo cyfres o fentrau peilot 'Cymru a'r Byd' yn seiliedig ar rai o’r opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, pob un ohonynt neu ryw gymysgedd ohonynt. Byddai hyn yn caniatáu i'r cynllun peilot fynd i'r afael â nifer o fylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth, gan sicrhau bod pob model neu opsiwn yn cysylltu'n glir â’r amcan polisi Llywodraeth Cymru y mae'n bwriadu ei gyflawni, a sicrhau bod unrhyw weithgarwch newydd a chyfredol (e.e. gan SAU unigol yng Nghymru) oll yn gweithio tua'r un nod strategol.

**Argymhelliad 6**

Yn ogystal â chefnogi ymyrraeth ariannol ar gyfer cynlluniau peilot tramor, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch Cymru-eang hefyd mren ysgolion, colegau chweched dosbarth a'r sector AB i godi ymwybyddiaeth am fanteision astudio dramor a hyrwyddo ffynonellau cyllid cyfredol (yn ogystal â rhai newydd) cyn mynd i'r Brifysgol.

**Argymhelliad 7**

Mae hi'n egwyddor bwysig na ddylai unrhyw opsiynau a ystyrir ar gyfer yr astudiaeth beilot ddisodli nac ariannu unrhyw ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli. Er y dylai fod gan weithgarwch newydd, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ffocws strategol cadarn o ran datblygu economaidd, ni ddylai hynny gymryd lle cyllid a gweithgarwch pwysig mewn perthynas â datblygiad unigol neu gyflawniad addysgol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer astudio dramor, ac yn enwedig o fewn yr SAU.

**Argymhelliad 8**

Er nad yw'n destun prawf moddion, dylai ffocws unrhyw fuddsoddiad trwy’r cynllun peilot sicrhau bod myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig sy’n hanu o Gymru yn cael cyfle i elwa arno. Mae hyn yn pwyntio i gyfeiriad rhagor o fuddsoddiad mewn cyfnodau astudio dramor byrrach yn hytrach na buddsoddi mewn opsiynau cludadwyedd graddau llawn. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio hefyd sut y gellir alinio’r cyllid â lefel y grantiau cynhaliaeth a ddarperir ar gyfer myfyrwyr, fel y gellir darparu rhagor o gymorth i ariannu costau byw y bobl â’r angen fwyaf i’w galluogi i astudio dramor.

**Argymhelliad 9**

Oherwydd yr ansicrwydd am ddyfodol cynlluniau symudedd tramor fel Erasmus+ ar ôl Brexit, rydyn ni'n awgrymu nad oes unrhyw ymyraethau'n cael eu rhoi ar waith yn llwyr nes bod mwy o eglurder ynghylch y sefyllfa. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y ffocws, a'r cyllid sydd ar gael, yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Rydyn ni'n awgrymu felly y dylai'r agweddau codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd i ennill ysgoloriaethau sy'n

bodoli eisoes a'r opsiynau peilot nad ydynt yn ddibynnol ar benderfyniadau Brexit (e.e. am astudiaethau tymor byr) gael eu cyflwyno o 2018/19 ymlaen, ond y dylid gohirio opsiynau peilot a ariennir yn y tymor hir am flwyddyn gyfan, gan hyrwyddo cyfleoedd yn 2019/20 a'r carfanau cyntaf yn ymgymryd â symudedd tramor yn 2020/21.

## Cyfeiriadau

---

[1] Y Sefydliad er Cydweithredu a Datblygu Economaidd
[2] Gweler https://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/seren/?lang=cy
[3] Nod Datganiad y Sorbonne oedd bod yn gyd-ddatganiad ar gysoni saernïaeth y system addysg uwch yn Ewrop, ac fe'i llofnodwyd gan y pedwar Gweinidog a oedd yn gyfrifol yn Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a'r DU ar 25 Mai 1998.
[4] Ym 1999, cytunodd Gweinidogion Addysg 29 o wledydd ar gyd-weledigaeth ar gyfer EHEA.
[5] Gwefan EHEA http://www.ehea.info/pid34248/history.html [cyrchwyd 27 Ebrill 2018].
[6] Mae ECTS yn cynnig system fwy tryloyw o gredydau. Fe'i datblygwyd o dan Erasmus, pan ddechreuodd nifer fawr o fyfyrwyr deithio i wledydd eraill am ran o'u hastudiaethau ac arnynt angen sicrwydd y byddai eu sefydliad gartref yn cydnabod eu hastudiaethau dramor. Mae ECTS yn dilyn dull safonol o weithredu i asesu a dyfarnu credydau astudio, gan ei gwneud yn haws trosglwyddo profiadau dysgu rhwng gwahanol sefydliadau addysg. Fodd bynnag, mae gweithrediad ECTS o fewn yr EHEA yn fratiog o hyd.
[7] Prifysgolion y DU (2017), Widening Participation in UK Outward Student Mobility: A picture of participation, t.1
[8] Prifysgolion y DU (2017), UK Strategy for Outward Student Mobility 2017-2020, t.7
[9] Ibid, t.2
[10] Ibid, t.3
[11] Yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
[12] Cymdeithas Swyddogion Ewropeaidd Addysg Uwch y DU
[13] Prifysgolion y DU (2017), UK Strategy for Outward Student Mobility 2017-2020, t.4
[14] Ibid, t.5
[15] Llywodraeth Cymru (2013), Datganiad polisi ar addysg uwch
[16] Ibid, t.14
[17] Record o Gyflawniad Addysg Uwch
[18] Llywodraeth Cymru (2013), Datganiad polisi ar addysg uwch, t.14
[19] Ibid, t.15
[20] www.studyinwales.ac.uk [cyrchwyd 22 Ionawr 2018]
[21] Yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth i Fyfyrwyr a Chyllid Addysg Uwch yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond
[22] Cyflwynwyd yr argymhelliad hwn cyn canlyniad pleidlais refferendwm Brexit
[23] Adolygiad o Gymorth i Fyfyrwyr a Chyllid Addysg Uwch yng Nghymru (2016), http://gov.wales/docs/dcells/publications/160927-he-review-final-report-cy.pdf [cyrchwyd 22 Ionawr 2018]
[24] Llywodraeth Cymru (2016), Ymateb i Argymhellion yr Adolygiad o Gymorth i Fyfyrwyr a Chyllid Addysg Uwch yng Nghymru, t.10
[25] Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Welsh-Domicile-Enrolments-at-UK-HEIs/enrolmentsasat1decemberatukheisby-level-modeofstudy [cyrchwyd 13 Mehefin 2018]
[26] I lawr o 106,645 cofrestriad yn 2013/14 i 96,080 yn 2016/17
[27] Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Welsh-Domicile-Enrolments-at-UK-HEIs [cyrchwyd 18 Mai 2018]
[28] Stats Cymru, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Welsh-Domicile-Enrolments-at-UK-HEIs/heenrolmentsatukheis-by-level-mode-gender-disability, [cyrchwyd 18 Mai 2018]
[29] Mae hi'n ofynnol bod SAU yn darparu data ar fyfyrwyr sy'n cyflawni profiad symudedd â hyd cyfunol o 4 wythnos neu ragor ar gyfer HESA. Mae hynny'n opsiynol am gyfnodau byr dramor am gyfanswm o lai na 4 wythnos.
https://www.hesa.ac.uk/collection/c16051/e/mobility [cyrchwyd 18 Mai 2018]

[30] Data symudedd HESA ar gyfer yr holl fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU 2015-16, http://go.international.ac.uk/content/how-many-students-are-going-abroad-uk [cyrchwyd 18 Mai 2018]
[31] Sefydliad Ystadegau UNESCO, FFIGURAU 2015
[32] OECD (2017), Education at a Glance, t.288
[33] Prifysgolion y DU (2017), Widening Participation in UK Outward Student Mobility: A picture of participation, t.4
[34] OECD (2017), Education at a Glance, t.289
[35] Ibid, t.289
[36] Ibid.t.288
[37] Ibid, t.288
[38] Ibid, t.302
[39] Ibid, t.302
[40] Ibid, t.302
[41] Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010), Motivations and experiences of UK students studying abroad
[42] Ibid, t.41
[43] Dylid nodi y byddai'r canran hwn yn cynnwys astudiaethau is-raddedig ac ôl-raddedig.
[44] Ymchwiliwyd i amrywiaeth o ffynonellau yn ystod astudiaeth 18 mis o hyd er mwyn paratoi'r 'amcangyfrifon gorau'. Roedd y rhain yn cynnwys ffynonellau swyddogol y DU (Yr Arolwg o Deithwyr Rhyngwladol, arolwg HESA o gyrchfannau ymadawyr, setiau data UNESCO, OECD ac EUROSTAT a ffynonellau ystadegol cenedlaethol ar gyfer Awstralia, Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon ac UDA.
[45] Education at a Glance (2017), t.303
[46] Cyfeiria cyfartaledd EU-22 at 22 aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd o'r OECD
[47] Canran y myfyrwyr tertiaidd cenedlaethol sydd wedi ymgofrestru dramor, OECD (2017), Education at a Glance, t.303
[48] Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010), Motivations and experiences of UK students studying abroad
[49] http://ec.europa.eu/programmes/erasmus-plus/about_en [cyrchwyd 01 Mai 2018]
[50] Taflen Ffeithiau Cymru, https://www.erasmusplus.org.uk/results-and-statistics [cyrchwyd 01 Mai 2018]
[51] https://www.erasmusplus.org.uk/higher-education-funding [cyrchwyd 01 Mai 2018]
[52] Yn 2017/18, nid yw myfyrwyr a gychwynnodd eu cwrs mewn SAU yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ar 1 Medi 2012 neu'n ddiweddarach yn gymwys i gael eu hepgor o ffioedd dysgu. Yn hytrach, maent yn talu uchafswm o 15% o ffioedd dysgu eu sefydliad am y flwyddyn o dan sylw (gyda chap o £1,385). Mae'r hepgoriad o ran ffioedd dysgu'n dal i fod mewn grym yng Ngogledd Iwerddon.
[53] Daw'r ffigur hwn o gyfweliad gyda rhanddeiliad o SAU yng Nghymru ac nid yw'r ffigur wedi cael ei gadarnhau.
[54] https://www.studyinholland.nl/scholarships/find-a-scholarship [cyrchwyd 01 Mai 2018]
[55] https://www.daad.de/deutschland/stipendium/datenbank/en/21148-scholarship-database/ [cyrchwyd 01 Mai 2018]
[56] Mae Cyllid yr IIE ar gyfer porth Astudio Ar-lein yr UDA yn darparu cronfa ddata sy'n cynnwys manylion yr holl grantiau, dyfarniadau ac ysgoloriaethau sydd ar gael i'w hastudio yn UDA -www.fundingusstudy.org
[57] Mae www.collegeboard.org yn darparu chwilotwr ar gyfer sefydliadau AU sy'n cynnig cyllid i fyfyrwyr rhyngwladol.
[58] Mae'r gwefannau www.InternationalScholarships.com a www.ScholarshipPortal.eu yn cynnwys cronfeydd data o ysgoloriaethau ar gyfer gwahanol SAU tramor.
[59] Rhwydwaith o dros 425 o ganolfannau cynghori myfyrwyr mewn dros 175 o wledydd dan nawdd Adran Llywodraeth UDA yw Education USA.

[60] Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy fynd i: http://www.fulbright.org.uk/going-to-the-usa/undergraduate/educationusa-advice/funding/external-funding-bodies ac mae'n cynnwys dolenni i sefydliadau tramor fel Education USA, BigFuture Scholarship Search, IIE ac IEFA.org

[61] Gellir cael rhagor o wybodaeth yn: www.cscuk.dfid.gov.uk/apply/scholarships-uk-citizens [cyrchwyd 01 Mai 2018]

[62] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rotary.org/en/our-programs/scholarships [cyrchwyd 01 Mai 2018]

[63] Mae pedair Prifysgol yng Nghymru'n Brifysgolion Santander: Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Abertawe.

[64] https://www.iie.org/

[65] https://www.suttontrust.com/about-us/us/fast-facts-programmes/

[66] Mae nifer y cyrsiau a sefydliadau addysg yn cynnwys prifysgolion preifat

[67] Mae'r ffioedd am bob blwyddyn o addysg i israddedigion. Bydd rhai cyrsiau'n para mwy na thair blynedd. Mae'r ffioedd dangosol ar gyfer prifysgolion cyhoeddus yn unig.

[68] Cwmni cyfyngedig yw A Star Future (www.astarfuture.co.uk) sy'n darparu gwybodaeth am gyfleoedd addysg uwch rhyngwladol ar gyfer myfyrwyr o Brydain, eu rhieni a'u hymgynghorwyr. Gwasanaeth ymgynghorol am ddim yw hi â'r nod o gyfeirio unigolion at wybodaeth am brifysgolion tramor. https://www.astarfuture.co.uk/financial_info.html [cyrchwyd 01 Mai 2018]

[69] Gweler Altbach ac Engberg (2014), Global Student Mobility: the Changing Landscape, International Higher Education 77 t.13 am adolygiad o'r cynlluniau

[70] DU Rhyngwladol (2017), Strategaeth Symudedd Tramor y DU

[71] Er enghraifft, mae Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir yn darparu cyllid ar gyfer tua 7% o'r myfyrwyr sydd â'u bryd ar symudedd tramor, ond wyddom ni ddim sut mae hyn yn cael ei dargedu: http://www.cimo.fi/instancedata/prime_product_julkaisu/cimo/embeds/cimowwwstructure/21273_Faktaa_1b_2011_web.pdf

[72] Er enghraifft, mae diffiniad UNESCO o 'astudio dramor' yn wahanol i ddiffiniad yr IIE

[73] Hillman, N. (2015), Keeping up with the Germans? A comparison of student funding, internationalisation and research in UK and German Universities. Adroddiad HEPI 77, Y Sefydliad Polisi Addysg Uwch

[74] http://monitor.icef.com/2015/06/german-student-mobility-continues-to-increase/

[75] Huberts, D, (2016) *Outgoing student mobility in Dutch higher education 2015-2016*. EP/Nuffic

[76] Gvetadze, S. (2014) *Financing the Mobility of Students in European Higher Education.* Papur Gwaith 2014/21, Gwaith Ymchwil Dadansoddiad o Farchnadoedd EIF

[77] Saarikallio-Torp M, Wiers-Jenssen J, (2010) *Nordic students abroad. Student mobility patterns, student support systems and labour market outcomes.* Helsinki: Y Sefydliad Yswiriant Cymdeithasol, y Ffindir, Astudiaethau Nawdd Cymdeithasol ac Iechyd

[78] http://monitor.icef.com/2015/04/international-student-mobility-picking-up-in-norway-while-major-reforms-take-shape/

[79] O fwriad, mae'r cynllun peilot wedi osgoi dewis prifysgolion sy'n darparu graddau meddygaeth ar gyfer y cynllun peilot oherwydd pryderon am sut mae cymwysterau'n cymharu.

[80] http://www.nordplusonline.org/

[81] Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010), Motivations and experiences of UK students studying abroad, p. 42

[82] Ibid, t.42

[83] Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010), t.42

[84] HEFCE (2010), Adolygiad o lenyddiaeth am symudedd rhyngwladol myfyrwyr, t.26

[85] Ibid.t.26

[86] Ibid, t.27

[87] Ibid, t.27
[88] Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010), t.42
[89] Cyfeiria symudedd credydau at fyfyrwyr sy'n cyflawni rhywfaint o'u hastudiaethau i ennill credydau dramor
[90] Cyngor Prydain (2015), *Broadening Horizons: the value of the overseas experience*, t.9
[91] Ibid., t.10
[92] Ibid., t.11
[93] Ibid., t.11
[94] Dadansoddiad o'r Cofnod o Fyfyrwyr a Chyrchfannau Pobl sy'n Ymadael ag Addysg Uwch (DLHE) yn 2012/13 ar sail 233,185 o gyflawnwyd graddau cyntaf a oedd yn hanu o'r DU.
[95] Ibid., t.13
[96] Ibid, t.15
[97] Dadansoddiad o DHLE, t. 15
[98] Y Grŵp Ymgynghorol ar Symudedd Cymdeithasol (2016), *Working in partnership: enabling social mobility in higher education.*
[99] Go International/UUKI (2017), Widening Participation in UK Outward Student Mobility: A picture of participation, t.1
[100] British Council/DAAD (2014), Y rhesymeg dros noddi myfyrwyr i gyflawni astudiaethau rhyngwladol, t.4
[101] OECD (2017), Education at a Glance, t. 289
[102] Adran BIS, t.43
[103] Cyngor Prydain (2015), Broadening Horizons: Addressing the needs of a new generation t.15
[104] UUKI (2017), Gone International, mobility works, t.3
[105] Go International (2013), Gone International: mobile students and their outcomes, t.18
[106] Ibid., t.4
[107] Ibid, t.4
[108] Cyngor Prydain (2015), Broadening Horizons, t.16
[109] Ibid., t.21
[110] Ibid., t.22
[111] Ibid., t.17
[112] Daeth gwaith ymchwil Next Generation UK gan Gyngor Prydain ac YouGov yn 2011 i'r casgliad hwn.
[113] Cyngor Prydain (2015), Broadening Horizons, t.18
[114] Ibid., t.19
[115] https://us.suttontrust.com/about/
[116] https://globalscholars.yale.edu/
[117] Llywodraeth Cymru (2017), Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd, t.42